

Rhif: WG19631



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Papur Gwyn

Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy

Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer Bil Amgylchedd

Dyddiad cyhoeddi: **23 Hydref 2013**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **15 Ionawr 2014**

Trosolwg

Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu fframwaith statudol modern ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Gwneir hynny trwy ddeddfwriaeth i greu proses fwy cydgyssylltiedig a rhagweithiol i ddarparu buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n para.

Rydym am glywed eich barn am y cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Cymru). Bydd yr ymgynghoriad yn para tan 15 Ionawr 2014. Wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried wrth ddrafftio'r Bil, cyn ei gyflwyno yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Sut i ymateb

Llenwch y ffurflen ymateb yn Atodiad 1 a'i dychwelyd i'n cyrraedd ddim hwyrach na 15 Ionawr 2014, drwy un ai'r e-bost neu'r post. Mae'r manylion cysylltu isod.

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/consultations

Tîm Bil yr Amgylchedd

Yr Is-adran Polisi Newid yn yr Hinsawdd ac

Adnoddau Naturiol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

NaturalResourceManagement@cymru.gsi.gov.uk

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cysylltu

Tîm Bil yr Amgylchedd

Is-adran Polisi Newid yn yr Hinsawdd ac

Adnoddau Naturiol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

NaturalResourceManagement@cymru.gsi.gov.uk

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog

1. Cyflwyniad	1
2. Rheoli Adnoddau Naturiol	14
3. Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyfleoedd newydd i gyflawni ei ddiben	39
4. Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon	51
5. Hwyluso Rheoli Doethach	65
6. Gweithredu	78

Atodiadau

Atodiad 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad	80
Atodiad 2: Cyfeiriadau	84
Atodiad 3: Rhestr Termau	87
Atodiad 4: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	92

Rhagair y Gweinidog



Adnoddau naturiol Cymru – ein tir, aer a dŵr – yw'r sylfaen i'n ffyrdd o fyw a gweithio. Gan fod ein hadnoddau naturiol yn hanfodol i ni, mae synnwyr cyffredin yn galw am eu defnyddio'n gynaliadwy a dyma'r cyfle gorau hefyd i sicrhau'r ffyniant hirdymor, cadernid a'r twf economaidd cynaliadwy sy'n flaenoriaeth gennym.

Wedi dweud hynny, nid wyf yn derbyn y farn bod rhaid rhoi'r gorau i ofalu am ein hamgylchedd er mwyn sicrhau swyddi, na bod angen gwneud dewisiadau ffug rhwng twf economaidd a byw'n gynaliadwy. Gallwn anelu at y ddau nod, a rhaid gwneud hynny oherwydd, wrth i wledydd y byd ddechrau troi'n economïau carbon isel, byddai methu â gwneud hyn yn niweidiol i'n heconomi yn ogystal â'n hamgylchedd. Rhaid i ni seilio'n gweledigaeth ar fwy na'n blaenoriaethau heddiw, gan edrych hefyd ar sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol.

Er mwyn sicrhau ffyniant yng Nghymru at y dyfodol, mae angen i ni gydnabod gwerth ein hadnoddau naturiol a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, a'u rheoli'n ofalus yn y tymor hir. Mae hyn yn galw am sefydlu fframwaith deddfwriaethol modern sy'n cydnabod bod ein dŵr, ein tir a'n haer yn gydgysylltiedig a bod ein heconomi, ein cymdeithas a'n hamgylchedd yn dibynnu ar ei gilydd.

Mae cynigion y Papur Gwyn wedi'u llunio i osgoi cymhlethdod diangen, i symleiddio prosesau a chynlluniau ac i gynnig ffordd gydgysylltiedig o reoli adnoddau naturiol. Bydd cynigion eraill yn ein galluogi i ddefnyddio adnoddau naturiol yn fwy effeithlon, er enghraifft cynigion ar gyfer rheoleiddio gwastraff a darpariaethau ar gyfer symleiddio a chrisialu'r gyfraith mewn sawl maes. Mae'r cynigion hyn yn rhoi mwy o gefnogaeth i ymgyrch y Llywodraeth hon o blaid effeithlonrwydd a chael y defnydd gorau o'n hadnoddau.

Fel yr eglurais yn natganiad yr hydref yn ddiweddar, mae'r Bil hwn yn un o becyn o fesurau sy'n cael ei hyrwyddo gan fy adran i sicrhau bod y polisïau a deddfwriaeth angenrheidiol gennym i gyflawni ein nodau ar gyfer twf cynaliadwy, cadernid ac amrywiaeth, trechu tiodi a defnyddio adnoddau'n effeithlon.

Byddaf yn falch o glywed eich barn am y cynigion hyn er mwyn sicrhau'r fframwaith statudol priodol i Gymru ar gyfer y dyfodol.



Alun Davies AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Pennod 1: Cyflwyniad

Crynodeb

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn defnyddio ac yn rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd a fydd yn dod â manteision parhaus i'r economi a chymdeithas yn ogystal â'r amgylchedd.

Yn y Papur Gwyn hwn rydym yn egluro ein cynigion arfaethedig ar gyfer camau i ddarparu:

- fframwaith statudol mwy integredig i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- swyddogaethau a dyletswyddau statudol i CNC i'w helpu i gyflawni ei ddiben craidd sef sicrhau ffordd gynaliadwy o gynnal, gwella a defnyddio adnoddau naturiol ac amgylchedd Cymru;
- deddfwriaeth ar gyfer defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon;
- darpariaeth i symleiddio a chrisialu nifer o'r systemau rheoleiddio presennol.

Hybu dull gweithredu mwy effeithiol

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar sicrhau twf economaidd cynaliadwy ac ar wella ansawdd y cyfleoedd i bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru, yn ogystal â sicrhau amgylchedd iach a chadarn. Er mwyn cyrraedd pob un o'r nodau hyn, rhaid rheoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- 1.2 Mae nifer o ymrwymadau yn y *Rhaglen Lywodraethu* ar gyfer gwireddu'r uchelgais hwn drwy reoli adnoddau naturiol, gan gynnwys y bwriad i gyflwyno Bil yr Amgylchedd i Gymru. Bydd Bil yr Amgylchedd yn helpu i reoli a defnyddio ein hadnoddau naturiol yn well drwy roi'r gallu i sicrhau dull cydgysylltiedig newydd o reoli adnoddau naturiol a fydd yn dod â'r budd mwyaf i Gymru yn awr ac yn y dyfodol.
- 1.3 Roedd yr ymateb i'r ddogfen '*Cymru Fyw: fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd*' yn 2010 ac i'r Papur Gwyrdd '*Cynnal Cymru Fyw*¹' yn 2012 yn dangos bod cefnogaeth gyffredinol i ddull newydd o gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru. Drwy'r Papur Gwyrdd yn 2012 ymgynghorwyd ar y cwmpas a'r

¹ Yr enw ar hyn yn y papur gwyrdd oedd 'ffordd o weithio sy'n seiliedig ar yr ecosystem'.
<http://www.cbd.int/ecosystem>

cyfleoedd ar gyfer symleiddio ein ffordd o reoli a rheoleiddio'r amgylchedd er mwyn gwella canlyniadau i bobl Cymru. Gofynnwyd hefyd am sylwadau ynghylch ffyrdd posibl o ddatblygu'r systemau cynllunio ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ar lefelau lleol a chenedlaethol er mwyn cael penderfyniadau gwell. Mae'r Papur Gwyn hwn yn adeiladu ar sail y Papur Gwyrdd gan roi eglurhad llawnach o'r cynigion deddfwriaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol er mwyn gwireddu'r weledigaeth o reoli adnoddau naturiol Cymru yn well drwy Fil yr Amgylchedd i Gymru.

- 1.4 Y nod wrth wneud hyn yw creu newid sylweddol drwy sicrhau rheoli integredig ar adnoddau naturiol Cymru, gan fanteisio ar faint cymharol Cymru i wireddu hyn. Bydd Bil yr Amgylchedd yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy broses fwy cydgysylltiedig ar gyfer sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol parhaus.
- 1.5 Mae'r fframwaith statudol newydd hwn yn un o nifer o gamau a gymerir i greu ffordd fwy rhagweithiol a chydgyssylltiedig o reoli adnoddau naturiol Cymru: gosodwyd y sylfeini ar gyfer hyn yn y Papur Gwyrdd *Cynnal Cymru Fyw*. Enghraifft o'r ffordd hon o weithredu oedd sefydlu CNC drwy gyfuno tri chorff cyflawni a oedd ar wahân gynt i greu un corff adnoddau naturiol i Gymru.
- 1.6 Mae datganiad yr hydref, *Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus* yn dangos sut y mae'r Adran Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn ceisio dylunio a darparu polisiau a gwasanaethau mewn ffordd gydgysylltiedig i sicrhau twf a lles economaidd cynaliadwy ar gyfer y tymor hir. Bil yr Amgylchedd yw'r cam cyntaf hanfodol drwy ddeddfu i gyrraedd y nod polisi tymor hir o ddiwygio ac integreiddio rhannau allweddol o'r fframwaith deddfwriaethol er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn integredig yng Nghymru.
- 1.7 Rydym yn cynnig dull o reoli adnoddau naturiol sydd wedi'i seilio ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy. Mae'r *Rhaglen Lywodraethu* yn pwysleisio mai datblygu cynaliadwy yw'r brif egwyddor drefniadol ar gyfer diffinio'r ffordd orau o ddatblygu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu datblygu cynaliadwy yn sail i'w ddull o reoli adnoddau naturiol sydd wedi'i ddisgrifio ym Mhennod 2. Mae egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi'u seilio ar y diffiniadau cyfreithiol o reoli adnoddau naturiol. Y ffordd o gymhwyso'r diffiniadau hyn o reoli adnoddau naturiol sy'n cynnwys datblygu cynaliadwy yw'r sail i Fil yr Amgylchedd.

Y ddadl o blaid newid

- 1.8 Mae dull Llywodraeth Cymru o reoli amgylcheddol wedi sicrhau llwyddiannau sylweddol hyd yn hyn, gan gynnwys gwelliant sylweddol o ran ailgylchu gwastraff, cyflwyno taliadau am fagio siopa untro, lleihau allyriadau carbon, a gwella ansawdd yr amgylchedd lleol. Fodd bynnag, rhaid i'n ffordd o ddatblygu fod yn gynaliadwy a rhaid i ni gydnabod gwerth ein hadnoddau naturiol er mwyn sicrhau twf a lles economaidd yng Nghymru ar gyfer y tymor hir. Er mwyn sicrhau economi gryf yng Nghymru, rhaid gwella'r adnoddau naturiol y mae ein heconomi'n dibynnu arnynt. Mae rhai o'r gwasanaethau hyn, fel bwyd, pren ac ynni, yn cyfrannu'n uniongyrchol at weithgarwch economaidd. Mae gwasanaethau eraill, fel rheoleiddio'r hinsawdd, puro dŵr a chynhyrchiant pridd, yn cyfrannu'n anuniongyrchol, ond nid oes gwerth i'r rhain ar y farchnad ym mhob achos.
- 1.9 Mae rhai o'r ffynonellau tystiolaeth diweddaraf, fel y ddogfen *National Ecosystem Assessment*² ar sefyllfa ecosystemau'r DU a gyhoeddwyd yn 2011, yn dangos bod bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio, a bod tua un rhan o dair o'r gwasanaethau a gawn o'n hamgylchedd naturiol wedi dirywio. Ategwyd y canfyddiadau hyn hefyd gan yr adroddiad *State of Nature*³ yn 2013. Yn yr adroddiad hwnnw aseswyd y tueddiadau o ran poblogaeth neu ddsbarthiad ar gyfer 3,148 o rywogaethau yn y DU a chafwyd bod 60 y cant o'r rhain wedi dirywio yn y degawdau diwethaf, a bod mwy nag un ym mhob deg o'r holl rywogaethau a aseswyd mewn perygl o ddiflannu o'r wlad hon yn gyfan gwbl.
- 1.10 Mae tystiolaeth wyddonol yn dangos hefyd fod effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o barhau i gynyddu, a bod tymereddau dyddiol yng Nghymru wedi codi 0.7 C o'u cymharu â'r ffigurau ar gyfer 1990, a rhagwelir y byddant yn codi tua 1.3 C erbyn 2020⁴. Bydd y newidiadau hyn, a'u cyflymder, yn effeithio'n gynyddol ar fioamrywiaeth, glawiad, lefelau'r môr a digwyddiadau tywydd eithafol a bydd pob un o'r rhain yn effeithio yn y pen draw ar ein gallu i gynnal cymdeithas iach a ffyniannus.
- 1.11 Cafwyd tystiolaeth sylweddol o blaid yr angen am ddull rheoli mwy integredig sy'n cydnabod yn well y gwerth sydd mewn ecosystemau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu⁵. Yng Nghymru, cafwyd

² UK National Ecosystem Assessment, (2011) <http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx>

³ State of Nature Report, 2013, t6
<http://www.rspb.org.uk/ourwork/science/stateofnature/index.aspx>

⁴ Mae'r wybodaeth hon wedi'i seilio ar yr amcangyfrif canolog o'r senario allyriadau canolig yn UK Climate Projections, 2009. Newid yn yr Hinsawdd: Ei effeithiau yng Nghymru, (2009), Llywodraeth Cynulliad Cymru, t3

⁵ UK National Ecosystem Assessment, (2011), t53

argymhelliad gan Bwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol, ar ôl cynnal ei Ymchwiliad i Fioamrywiaeth, fod Llywodraeth Cymru yn rheoli bioamrywiaeth ar lefel yr ecosystem yn y cefn gwlad ehangach⁶. Yn yr adroddiad *Making Space for Nature*⁷ a gyhoeddwyd yn 2010 gan Lywodraeth y DU, cafwyd dadl o blaid dull adferol newydd o ailsefydlu natur a chreu amgylchedd naturiol cryfach er lles bywyd gwyllt a phobl.

- 1.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw o'r blaen at y pwysigrwydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd gydweithredol. Cadarnhawyd ein gweledigaeth yn yr ymgynghoriad ar *Creu'r Cysylltiadau*, ac ategwyd hyn yn ddiweddarach gan *Adroddiad Beecham* yn 2006. Er bod y swyddogaethau rheoleiddio ar gyfer rheoli adnoddau naturiol wedi'u hintegreiddio mewn un sefydliad drwy greu CNC yn Ebrill 2013, bydd y cynigion yn y Papur Gwyn hwn ar gyfer fframwaith mwy cydgysylltiedig a rhagweithiol yn hwb pellach i gyflawni ein hamcanion ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd fwy gydweithredol a chosteffeithiol yng Nghymru.
- 1.13 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cymdeithas a dealltwriaeth wyddonol wedi symud ymlaen a bod rhaid datblygu ein dull o reoli'r amgylchedd naturiol a'n deddfwriaeth. Dyna pam yr ydym wedi creu CNC yn gorff amgylcheddol unigol i Gymru. Fodd bynnag, er mwyn cael dull gweithredu mwy integredig yng Nghymru, rhaid cael fframwaith rheoleiddio sy'n caniatáu i ni ystyried y rhyng-gysylltiad dynamig rhwng ein hamgylchedd naturiol, ein heconomi, a chymdeithas fel y gallwn ystyried y cysylltiad rhwng y tri maes hyn wrth wneud penderfyniadau.
- 1.14 Bydd yn anodd cyflawni hyn wrth ddefnyddio'r fframwaith deddfwriaethol presennol o ddyletswyddau statudol a swyddogaethau rheoleiddio amgylcheddol. Y rheswm am hyn yw ei fod wedi datblygu'n raddol dros lawer o ddegawdau mewn ymateb i broblemau amgylcheddol penodol gan mwyaf. Er enghraifft, mae Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) wedi'u dynodi er 1949 i warchod eu priodoleddau arbennig. Cyflwynwyd mesurau rheoli llygredd yn raddol i wella ansawdd aer a dŵr yn wyneb diwydiannu a threfoli sylweddol. Datblygwyd deddfwriaeth gwarchod natur i ddiogelu safleoedd natur a rhywogaethau penodol. Wedyn, yn ystod y 30 mlynedd diwethaf, mae Llywodraethau wedi mabwysiadu cyfres o newidiadau i gydymffurfio â deddfwriaeth Ewropeaidd ar bob agwedd ar yr amgylchedd ar ben y systemau yr oeddent wedi'u hetifeddu.
- 1.15 Mae'r casgliad hwn o ddeddfwriaeth amgylcheddol y DU a'r UE wedi ateb ei bwrpas, ond rydym yn derbyn ei fod wedi'i ddatblygu'n bennaf i

⁶ Ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyedd i Fioamrywiaeth yng Nghymru, t9

⁷ Making Space for Nature: A review of England's Wildlife Sites and Ecological Network, (2010)

ymateb i bwysau cyfnewidiol a phroblemau amgylcheddol penodol dros y blynyddoedd, a bod ei gwmpas yn gyfyng ar lawer cyfrif. O ganlyniad i reoleiddio o'r math hwn, sy'n adweithiol ac yn cael ei ystyried ar wahân i bolisi economaidd a chymdeithasol gan amlaf, cafwyd cymysgfa gymhleth o reoliadau sy'n anghyson weithiau â'r nod cyffredin o greu dyfodol gwell i Gymru yn y tymor hir.

- 1.16 Cafwyd cydnabyddiaeth ryngwladol i'r angen am ddull mwy integredig o reoli amgylcheddol. Er enghraifft, mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol wedi cadarnhau mai rheoli ar lefel yr ecosystem (gweler y Rhestr Termiau) yw ei brif fframwaith ar gyfer rheoli tir, dŵr ac adnoddau byw yn integredig. Un enghraifft flaengar ac ymarferol o'r ffordd hon o weithredu yw Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE a ddaeth yn rhan o gyfraith y DU yn Rhagfyr 2003. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod aelod-wladwriaethau'n cynllunio ac yn darparu amgylchedd dŵr gwell drwy ddatblygu cynlluniau rheoli basn afon. Mae Cyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE (2006) hefyd yn ceisio sicrhau statws amgylcheddol da i ddyfroedd morol yr UE erbyn 2020 drwy reoli ar lefel yr ecosystem er mwyn rheoli gweithgareddau gan bobl sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer defnydd cynaliadwy o nwyddau a gwasanaethau morol.
- 1.17 Mae sefydlu fframwaith rheoleiddio er mwyn cael dull gweithredu mwy integredig yn her sylweddol. Y cam cyntaf yr ydym yn ei gynnig yw defnyddio Bil yr Amgylchedd i sicrhau bod prif gorff cyflawni Llywodraeth Cymru, CNC, yn gallu gwneud datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'r ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau – hynny yw, drwy ystyried yr amgylchedd, yr economi, a chymdeithas.

Rôl a swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru

- 1.18 Mae'r gwaith sylweddol o sefydlu CNC (a lansiwyd yn Ebrill 2013) yn dangos maint yr ymrwymiad gan y Llywodraeth hon i ddull integredig a chynaliadwy o reoli adnoddau naturiol Cymru. Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r sefydliad cyntaf o'i fath yn y DU a'r corff mwyaf a noddir yng Nghymru, ac mae ganddo gymysgedd unigryw o gyfrifoldebau sy'n cwmpasu tir, coedwigaeth, natur a bywyd gwylt, ansawdd aer, adnoddau ac ansawdd dŵr, rheoli perygl llifogydd a physgota mewn dŵr croyw.
- 1.19 Gwelwyd pa mor amrywiol yw cyfrifoldebau a gweithgareddau CNC yn y misoedd cyntaf ers ei sefydlu. Yn ogystal ag ysgwyddo amrywiaeth eang o gyfrifoldebau gweithredol yn llwyddiannus, mae CNC wedi darparu:
- Canolfan gofal cwsmeriaid newydd sydd wedi derbyn a delio â mwy na 26,500 o ymholiadau;

-
- Siop un stop sy'n darparu un pwynt cyswllt ac un pwynt ymateb ar gyfer ceisiadau cynllunio;
 - Bron 4,000 o sylwadau mewn ymateb i ymgynghori ar reoli cynllunio drwy'r siop un stop;
 - Cydnabyddiaeth gan Wasanaeth Achredu'r DU (UKAS) ar gyfer dadansoddi microbiolegol yn ei labordy yn Llanelli.
- 1.20 O fewn y fframwaith rheoli, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu'r canlyniadau hirdymor a blaenoriaethau cyfredol y bydd CNC yn canolbwyntio arnynt wrth ddarparu gwasanaethau⁸. Drwy ei broses gynllunio gorfforaethol ar gyfer 2014-17, bydd CNC yn datblygu fframwaith perfformiad i ddangos yn glir sut y mae ei gynlluniau cyflawni yn cyfrannu at wireddu'r canlyniadau hirdymor hyn.

Sail gyfreithiol y pwerau a'r dyletswyddau

- 1.21 Mae'r rhan fwyaf o bwerau a dyletswyddau CNC wedi'u cynnwys mewn dau Orchymyn sydd wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer eu pwerau o dan Adrannau 13, 14, 15 a 35 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011.
- 1.22 Roedd y cyntaf o'r ddau Orchymyn, Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 wedi'i wneud drwy arfer pwerau sydd yn Adrannau 13 a 15 o Ddeddf 2011. Sefydlodd y corff a rhoi digon o bwerau iddo i baratoi ar gyfer ymgymryd â'r holl fathau o swyddogaethau amgylcheddol maes o law.
- 1.23 O dan Orchymyn pellach, Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013, trosglwyddwyd yr holl swyddogaethau amgylcheddol i'r Corff.
- 1.24 Y diben statudol sydd wedi'i bennu ar gyfer CNC (erthygl 4 o'r Gorchymyn Sefydlu) yw:
- (1) '...sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru:
 - (a) yn cael eu cynnal yn gynaliadwy;
 - (b) yn cael eu gwella yn gynaliadwy; ac
 - (c) yn cael eu defnyddio yn gynaliadwy'.
 - (2) Yn yr erthygl hon:
 - (a) ystyr 'yn gynaliadwy' yw:
 - (i) gyda golwg ar wneud lles, a

⁸ Cyfoeth Naturiol Cymru, llythyr cylch gwaith, 2013-14 sydd ar gael yn: <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/nef/publications/seb/remark-letter-2013-14/?lang=cy>

-
- (ii) mewn modd sydd wedi ei ddylunio i wneud lles, i bobl, amgylchedd ac economi Cymru yn awr ac yn y dyfodol;
- (b) mae 'amgylchedd' ("*environment*") yn cynnwys, heb gyfyngiad, organeddau ac ecosystemau byw.'

- 1.25 Yr amcan yw sicrhau bod CNC, wrth arfer ei swyddogaethau, yn ystyried rhyngweithio cymdeithasol ac economaidd yn ogystal â ffactorau amgylcheddol – yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wneud datblygu cynaliadwy'n brif egwyddor drefniadol. Wrth wneud hynny, bydd CNC yn cydnabod bod adnoddau naturiol yn sail i'n heconomi ac i iechyd a lles ein cymdeithas yn ogystal â'n hamgylchedd naturiol, ac yn tynnu sylw at yr angen i ystyried eu gwerth gwirioneddol wrth wneud penderfyniadau.
- 1.26 Wedi dweud hynny, fel y nodwyd yn gynharach, mae CNC yn parhau i weithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol adweithiol, cyfyng sydd wedi'i fwriadu ar gyfer tri chorff gwahanol. Felly, nid yw'r fframwaith yn hollol gyson â diben canolog CNC na'r amcan o reoli adnoddau naturiol yn integredig yng Nghymru. Nod Llywodraeth Cymru, drwy Fil yr Amgylchedd, yw galluogi CNC i gyrraedd ei nodau tymor hir o sicrhau lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Cyd-destun polisi a deddfwriaeth

- 1.27 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar nifer o Filiau cysylltiedig sy'n cynnwys Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, Bil yr Amgylchedd, y Bil Diwygio Cynllunio, y Bil Tai, y Bil Treftadaeth a'r Bil Mynediad a fydd yn sicrhau bod:
- Penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn hybu'r economi, cymunedau, a'r amgylchedd yng Nghymru;
 - Anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu hystyried;
 - Prosesau tryloyw, a bod cymunedau wedi'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
 - Prosesau wedi'u symleiddio ac nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu;
 - Blaenoriaethau'n ymwneud â'r hyn sydd i'w gyflawni, a bod ffyrdd o wella'n cael eu hystyried, er enghraifft drwy gydweithredu ag eraill.

Ffigur (i) Bil Cenedlaethau'r Dyfodol

Pwrpas Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yw helpu i ddiogelu cymunedau rhag effeithiau'r dyfodol. Bydd y Bil yn gwneud hynny trwy atgyfnerthu rôl sylfaenol gwasanaethau cyhoeddus Cymru (fel cynghorau lleol, byrddau iechyd a CNC) trwy sicrhau bod anghenion cymunedau heddiw ac yfory yn ystyriaeth ganolog ym mhob penderfyniad a wnânt. Bydd hyn yn ein helpu, rhyngom, i wneud dewisiadau gwell ar gyfer dyfodol, mwy cynaliadwy, tecach a gwell yng Nghymru. Bydd yn amlygu'r heriau tymor hir mawr sy'n wynebu'n cymunedau, fel creu swyddi, taclo anghydraddoldebau iechyd, cynnal ein diwylliant ac arafu'r newid yn yr hinsawdd.

Bydd y Bil yn gwneud hynny trwy:

- Newid y ffordd y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn blaenoriaethu'u gweithgareddau ac yn gwneud y penderfyniadau mawr sy'n effeithio ar bobl, ein cymunedau, yr economi a'r amgylchedd – i sicrhau'u bod yn gwireddu'r cyfleoedd a ddaw o fynd i'r afael â heriau'r cenedlaethau mewn ffordd wahanol.
- Sefydlu fframwaith cenedlaethol a lleol ar gyfer pennu canlyniadau tymor hir i Gymru i sbarduno gweithredu economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol positif.
- Sefydlu mecanwaith barhaol a rheolaidd i'n helpu ni i ddeall lle rydym ni nawr ac a yw Cymru'n dilyn llwybr datblygu mwy cynaliadwy, hynny trwy gyhoeddi adroddiadau cyfnodol ar ran Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd cydymwneud â chymunedau'n rhan ganolog o'r broses.

Ymgynghorwyd ar y Papur Gwyn yn 2012 ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar y Bil terfynol a roddir ger bron y Cynulliad yn haf 2014.

- 1.28 Mae nifer o feysydd lle y bydd Bil yr Amgylchedd a Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yn ategu ei gilydd. Mae Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnig creu fframwaith ar gyfer pennu canlyniadau tymor hir i Gymru ar y lefel genedlaethol a lleol i sicrhau bod gwasanaeth cyhoeddus yn canolbwyntio ar ddarparu Cymru fyw cynaliadwy. Bydd hyn yn helpu'r ffordd yr ydym yn blaenoriaethu'r ffordd rydym yn rheoli ac yn defnyddio adnoddau naturiol yng Nghymru i ddiwallu anghenion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, nawr ac yn y dyfodol.
- 1.29 Rydym yn egluro hefyd yn y cynigion ym mhennod 2 y Papur Gwyn hwn sut y bydd y broses o reoli adnoddau naturiol yn integredig drwy reoli ar sail ardal yn helpu i ddarparu sylfaen dystiolaeth glir a chyson

ar gyfer ein hadnoddau naturiol. Bydd yr wybodaeth hon o gymorth wrth bennu canlyniadau ar y lefel genedlaethol a lleol ac felly wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau'n lleol. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth hanfodol am sefyllfa ein hadnoddau naturiol, y pwysau sydd arnynt a'r cyfleoedd sydd ar gael, er mwyn cyfrannu at amcan sylfaenol Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, sef gwella penderfyniadau.

Ffigur (ii) Bil Diwygio Cynllunio

Bydd y Bil Diwygio Cynllunio yn creu newid sylweddol yn y dull o weithredu'r system gynllunio drwy edrych eto ar bwy sy'n gwneud beth a dileu cymhlethdod diangen.

Bydd y cynigion yn datblygu'r system gynllunio bresennol, sydd wedi gwneud ei gwaith yn dda er 1947, drwy bennu rolau a chyfrifoldebau newydd ar gyfer Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, datblygwyr a chymunedau. Bydd y newidiadau a gyflwynir yn sicrhau bod ein system gynllunio'n gallu cymryd camau rhagweithiol, bod prosesau'n gyflymach, ei bod yn deg a chynhwysol a bod canlyniadau'n gyson.

Cyhoeddir papur ymgynghori a Bil Diwygio Cynllunio drafft tua diwedd 2013. Yn fras, mae'n debygol o gynnwys:

- Pwy sy'n gwneud beth yn y system gynllunio, y rolau a fydd gan Weinidogion Cymru, Awdurdodau Cynllunio Lleol, cymunedau a datblygwyr yn y dyfodol;
- Helpu awdurdodau cynllunio lleol i gydweithio i ddelio â materion sydd â mwy na phwysigrwydd lleol;
- Gwneud y broses ceisiadau cynllunio yn fwy effeithlon er mwyn hwyluso gwaith mewn meysydd allweddol eraill fel sbarduno'r economi a darparu mwy o gartrefi.

1.30 Holl bwrpas cynllunio cadarnhaol yw adnabod cyfleoedd i bennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu yn y dyfodol er mwyn diwallu anghenion cymdeithas. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am baratoi cynlluniau datblygu lleol (CDLlau), sy'n ceisio dehongli datblygu cynaliadwy mewn ffordd ofodol. Rhaid sicrhau bod CDLlau yn rhoi pob sylw i'r canlyniadau a nodwyd mewn Cynlluniau Integredig Unigol (CIUau) (gweler y Rhestr Termau) ac yn helpu i'w cyflawni. CIUau yw'r cynlluniau integredig sy'n seiliedig ar ganlyniadau a baratoir gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd, yr heddlu, y trydydd sector ac eraill). Mae CIUau yn canolbwyntio ar ganlyniadau cymdeithasol ac economaidd gan mwyaf, heb ymdrin yn llawn â chanlyniadau amgylcheddol. Mae'r rhain yn cael eu paratoi'n wirfoddol gan ddod â nifer o'r dyletswyddau cynllunio statudol sy'n cael eu rhoi ar gyrrff ynghyd. Bydd Bil Cenedlaethau'r

Dyfodol yn rhoi sail statudol i'r cynllun integredig a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

- 1.31 Bydd Bil yr Amgylchedd yn hybu cynllunio cadarnhaol mewn nifer o ffyrdd allweddol. Er enghraifft, mae materion, risgiau a chyfyngiadau amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu CDLlau ochr yn ochr â nifer o ystyriaethau eraill er mwyn dyrannu safleoedd. Er hynny, ni fu erioed gennym sylfaen dystiolaeth integredig a chyson ynghylch adnoddau naturiol – wedi'i chysylltu â strategaeth neu fframwaith cenedlaethol – i wneud y gwerthusiadau hynny. Bydd y cynigion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ar sail ardal yn helpu i sicrhau bod gennym y dystiolaeth sydd ei hangen i ddylanwadu'n well ar siâp a chyfeiriad datblygu economaidd cynaliadwy. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y dystiolaeth hon yn ein helpu i hyrwyddo'r cyfleoedd datblygu priodol ar sail yr agenda ar gynllunio cadarnhaol.
- 1.32 Mae adnewyddu ac ehangu'r seilwaith yn hanfodol ar gyfer lles a ffyniant Cymru yn y dyfodol. Cafwyd cynnydd da ar hyn drwy'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (CBSC) sydd wedi pennu blaenoriaethau tymor byr a chanolig at gyfer seilwaith. Bydd y Bil Diwygio Cynllunio a Bil yr Amgylchedd yn ategu'r dull o weithredu drwy'r CBSC. Bydd y Bil Diwygio Cynllunio yn canolbwyntio ar y goblygiadau o ran defnydd tir a fydd yn codi wrth bennu'r blaenoriaethau angenrheidiol ar gyfer buddsoddi i ddatblygu ein defnydd o dir. Mae Bil yr Amgylchedd yn pennu'r fframwaith ar gyfer blaenoriaethu cyfleoedd o ran adnoddau naturiol a sicrhau bod gennym y dystiolaeth i lywio a chefnogi penderfyniadau buddsoddi a'r cyfleoedd datblygu cywir.
- 1.33 Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn hyrwyddo hefyd flaenoriaethau eraill y Llywodraeth. Er enghraifft, yr ymrwymiad i sicrhau gwasanaeth cyhoeddus cryf, effeithlon a hygyrch sy'n hanfodol i les Cymru a'i phobl yn y tymor hir. Bydd y darpariaethau ym Mil yr Amgylchedd ar gyfer tystiolaeth glir a chyson yn sicrhau bod awdurdodau lleol a chyrff eraill yn gallu adnabod y cyfleoedd, y risgiau a'r cyfyngiadau yng nghyswllt yr adnoddau naturiol yn eu hardal. Bydd hyn o gymorth wrth bennu cyfeiriad a ffurf y twf a'r datblygu cynaliadwy ym mhob ardal, gan gynnwys casglu tystiolaeth am yr adnoddau naturiol y gellir eu cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- 1.34 I gloi, mae Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cwlwm annatod rhwng amgylchedd naturiol ac amgylchedd hanesyddol Cymru ac mai nhw saernïodd gymeriad tirwedd Cymru. O ran dehongli a rheoli, yr un yw anghenion y dreftadaeth naturiol a'r amgylchedd hanesyddol, a byddai parhau i gymhathu'r ffordd yr eir ati i'w rheoli yn cyfrannu at les pobl Cymru trwy ddarparu manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Y bwriad yw sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn rhan ganolog o'r diffiniad o adnoddau naturiol ym mhennod 2 (gweler NRM1). Yn y

diffiniad hwn, ‘tirweddau’ yw’r gair a ddefnyddir i ddisgrifio llawer o nodweddion ffisegol yr amgylchedd naturiol, sy’n cynnwys dylanwadau diwylliannol a hanesyddol sydd wedi llywio’r modd yr ydym yn defnyddio a rheoli adnoddau naturiol. Trwy gynnwys tirweddau yn y diffiniad, sicrhair bod y dreftadaeth ddiwylliannol, yr ymdeimlad o le a harddwch naturiol a grëwyd gan ddyn yn cael eu hystyried fel rhan o’r ffordd integredig o reoli adnoddau naturiol.

Sicrhau gwell canlyniadau

- 1.35 Mae’r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn adlewyrchu’r angen i ystyried, wrth wneud penderfyniadau allweddol heddiw, sut y caiff blaenoriaethau tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer twf economaidd a threchu tlodi eu gwireddu. Mae’n bwysig cydnabod y cysylltiadau rhwng cyfiawnder cymdeithasol, ffyniant economaidd a’r defnydd o adnoddau naturiol, ar gyfer cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol. Bydd Bil yr Amgylchedd yn ein helpu i sicrhau canlyniadau ar gyfer ein hamgylchedd naturiol, twf economaidd cynaliadwy a gwella’n cymunedau yn y ffyrdd canlynol:
- Bydd Bil yr Amgylchedd yn sefydlu dull mwy effeithiol ac integredig o reoli adnoddau naturiol a thrwy hynny bydd yn helpu i sicrhau gwelliannau sylweddol yn ein hamgylchedd naturiol trwy:
 - Rhoi’r gallu i wneud penderfyniadau rhagweithiol a holistig am yr amgylchedd naturiol ochr yn ochr ag ystyriaethau cymdeithasol ac economaidd yn hytrach nag ar wahân iddynt;
 - Cydnabod bod ecosystemau cadarn yn elfen hanfodol yn ein lles tymor hir ac nid yn rhywbeth atodol, a chymryd camau i’w cryfhau;
 - Rhoi’r gallu i ystyried manteision amgylcheddol a gwelliannau ym mhob maes ar ddechrau’r broses ar gyfer penderfyniadau cymdeithasol ac economaidd ehangach;
 - Hwyluso buddsoddi sydd wedi’i dargedu’n well a chamau cadarnhaol i ddelio â phrif achosion dirywiad amgylcheddol;
 - Cryfhau ein hadnoddau naturiol trwy baratoi ar gyfer heriau’r dyfodol, fel effeithiau’r newid yn yr hinsawdd a hefyd trwy ddefnyddio’n hadnoddau naturiol i’n gwneud yn gryfach i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.
 - Bydd Bil yr Amgylchedd yn sefydlu’r fframwaith deddfwriaethol i alluogi twf cynaliadwy, gan helpu busnesau a’r economi trwy:
 - Gyflwyno ffordd integredig i reoli adnoddau naturiol a nifer o newidiadau i symleiddio’r systemau rheoleiddio presennol. Bydd

hyn yn arwain at brosesau symlach a manteision i fusnesau, a gwell effeithiolrwydd ac arbedion posibl i CNC drwy ddefnyddio adnoddau'n effeithlon;

- Darparu sylfaen dystiolaeth gadarn a chyson, a gwybodaeth gliriach i bobl a busnesau o ganlyniad. Bydd yn ein helpu i adnabod cyfleoedd a chyfyngiadau allweddol yng nghyswllt adnoddau naturiol er mwyn hybu buddsoddi a hwyluso penderfyniadau cynllunio;
 - Drwy alluogi CNC i hwyluso cyfleoedd i weithio mewn ffyrdd arloesol, bydd yn hybu marchnadoedd newydd ym maes gwasanaethau amgylcheddol gan gynnwys storio carbon a rheoli dŵr – a chreu'r posibilrwydd o dwf ym marchnad y sectorau amgylcheddol ac yn nifer y swyddi gwyrdd;
 - Mae'n bosibl y bydd y cynigion i wella gwasanaethau gwahanu gwastraff ymhellach, er enghraifft, yn arwain at gyfleoedd busnes a swyddi parhaol o ansawdd uchel gan hybu mentergarwch a'r agenda ar dwf yr economi wyrdd.
- Bydd Bil yr Amgylchedd yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol modern i hyrwyddo lles a helpu ein cymunedau a'n pobl trwy:
 - Bydd rheoli adnoddau naturiol yn integredig yn helpu i ddarparu sylfaen dystiolaeth gyson i hybu cyfleoedd i wireddu canlyniadau lleol yng nghyswllt datblygu a gwelliannau mewn cymdeithas neu les;
 - Gallai arwain at dargedu buddsoddi'n well ar welliannau amgylcheddol lleol, gan ystyried anghenion a phwysau lleol ar ardaloedd fel amddifadedd a pheryglon o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd;
 - Bydd o gymorth wrth ystyried effeithiau amgylcheddol ar ganlyniadau lleol ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol, gan gynnwys aer glân, dŵr, defnyddio manau agored, effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Gallai hyn arwain, er enghraifft, at roi blaenoriaeth i benderfyniadau i roi gwell amddiffyniad i bobl sy'n agored i niwed.

Crynodeb o'r prif gynigion

- 1.36 Yn gyffredinol, rydym yn rhagweld y bydd y cynigion a osodir allan yn y Papur Gwyn hwn yn helpu i gyflawni ein hymrwymiad i sicrhau ein bod yn defnyddio ac yn rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd a fydd yn dod â manteision economaidd a chymdeithasol parhaus yn ogystal â rhai amgylcheddol.

-
- 1.37 Mae **penodau 2 a 3** y Papur Gwyn hwn yn disgrifio pedair prif elfen y mae angen eu cadw mewn cof wrth reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy:

Diffinio rheoli adnoddau naturiol (pennod 2)

- Nodir y diffiniadau a gynigir ar gyfer ‘adnoddau naturiol’, ‘rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy’ a ‘rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig’. Bydd hyn yn sylfaen i'r modd y caiff swyddogaethau a dyletswyddau CNC a gynigir ar gyfer eu cynnwys yn y Bil eu dehongli a'u cymhwysu.

Darparu proses ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig (pennod 2)

- Lle gellid, dylid defnyddio egwyddorion y cysyniad o reoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig wrth gynnal swyddogaethau a dyletswyddau CNC. Nodir hyn mewn pecyn o gynigion i ddatblygu a chynnal dull o reoli adnoddau naturiol sy'n seiliedig ar ardal.

Cyfleoedd ar gyfer ffyrdd newydd o weithio sy'n cefnogi rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig (pennod 3)

- Gellid defnyddio arfau deddfwriaethol fel pwerau arbrofol er mwyn profi a threialu ffyrdd newydd o weithio er mwyn gallu rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig, o fewn cyfyngiadau'r gyfraith.

Newidiadau i'r deddfwriaeth yn y dyfodol er mwyn gallu rheoli adnoddau naturiol yn integredig (pennod 3)

- Os gwelir bod rhwystrau o hyd sy'n cyfyngu ar allu CNC i gyflawni ei bwrpas statudol, yna ceir potensial i newid deddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol er mwyn darparu'n llwyr ffordd o weithio sy'n gydgysylltiedig

- 1.38 Ym **mhennod 4** rydym yn egluro cynigion i sicrhau bod adnoddau Cymru yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol, gan osgoi gwastraff diangen ac aneffeithlon – er enghraifft drwy newid ac integreiddio meysydd allweddol ar gyfer gwahanu a rheoleiddio gwastraff er mwyn ailgylchu mwy o ddeunydd. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i sicrhau mwy o gyfleoedd yn yr economi wyrdd ffyniannus yng Nghymru.

- 1.39 Mae **pennod 5** yn disgrifio cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd i symleiddio ac egluro'r gyfraith ar gyfer nifer o'r systemau rheoleiddio amgylcheddol presennol, yn enwedig yng nghyswllt rheoli Pysgodfeydd Cregyn, Trwyddedau Morol, Llifogydd a Dŵr a Draenio Tir.

-
- 1.40 Mae pob set o gynigion yn cynnwys adran ar effeithiau a buddiannau posibl eu gweithredu. Caiff ei defnyddio i lywio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, a gyhoeddir yr un pryd â chyflwyno'r Bil. Ceir mwy o fanylion ym **mhennod 6**, gan gynnwys ystyriaeth gychwynol o'r effeithiau posibl ar feysydd allweddol fel datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a hawliau dynol, a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Pennod 2: Rheoli Adnoddau Naturiol

Crynodeb

Yn y bennod hon rydym yn disgrifio cynigion craidd ar gyfer Bil yr Amgylchedd i sefydlu fframwaith statudol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, drwy broses integredig o reoli adnoddau naturiol. Y canlynol fydd y prif elfennau:

Polisi Adnoddau Naturiol

Bydd Polisi Adnoddau Naturiol cenedlaethol yn disgrifio'r cyfeiriad y bydd pob polisi sy'n ymwneud ag adnoddau naturiol yn ei ddilyn yng Nghymru – gan gynnwys sut y gall rheoli adnoddau naturiol yn integredig ein helpu i gynyddu'u buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, nawr ac yn y tymor hir. Bydd y polisi'n cynnwys targedau, mesurau a blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol sy'n ategu unrhyw ganlyniadau y gallai Llywodraeth gytuno arnyn nhw ar y lefel genedlaethol ac ar gyfer ysgwyddo cyfrifoldebau a nodir gan deddfwriaeth yr UE.

Rheoli Adnoddau Naturiol ar sail Ardal

Bydd Bil yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i CNC ddatblygu a gweithredu dull ar sail ardal ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Proses ar gyfer cynllunio a phennu blaenoriaethau fydd hon sy'n cydgysylltu'r defnydd o adnoddau er mwyn sicrhau'r manteision cynaliadwy hirdymor mwyaf posibl i bobl, amgylchedd ac economi Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol

Bydd gofyn i CNC baratoi adroddiad o leiaf unwaith bob 5 mlynedd ar gyflwr adnoddau naturiol Cymru. Yn ogystal â chofnodi tueddiadau'n gyffredinol, bydd yn cofnodi'r llwyddiannau a heriau a geir wrth weithredu'r broses o reoli adnoddau naturiol yn integredig, gan gynnwys y rhwystrau sy'n bod o hyd mewn deddfwriaeth, ym marn CNC.

NRM1	Pennu diffiniad cyfreithiol o adnoddau naturiol yng Nghymru.
NRM2	Polisi a blaenoriaethau cenedlaethol mewn cysylltiad ag adnoddau naturiol Cymru.
NRM3	Gofyn bod CNC yn datblygu ac yn gweithredu dull ar sail ardal ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a'i fod yn sicrhau bod tystiolaeth o'r broses hon yn cyfrannu i'r cynlluniau cyflawni priodol.
NRM4	Gofyniad bod CNC yn disgrifio blaenoriaethau a chyflleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ar sail ardal.
NRM5	Gofyn ar gyffwrdd eraill, a chyfarwyddiadau pellach ynghylch sut i ystyried rheoli adnoddau naturiol.
NRM6	Mecanwaith ar gyfer adrodd ar gynnydd tuag at wireddu'r canlyniadau a blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer adnoddau naturiol

-
- 2.1 Bydd y dull rheoli arfaethedig sydd wedi'i ddisgrifio yn y bennod hon yn galw am weithredu mwy rhagweithiol byth gan CNC i sefydlu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn integredig yn ffocws cynllunio unigol.
 - 2.2 Bydd y dull hwn yn rhoi mwy o wybodaeth i benderfynwyr gan eu helpu i ystyried sut i gael y canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd gorau posibl. Bydd yn rhaid cael fframwaith polisi a deddfwriaethol clir ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, wedi'i ategu gan sylfaen dystiolaeth gadarn, er mwyn hwyluso penderfyniadau ar lefel genedlaethol a lleol.
 - 2.3 Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn bwriadu cyflwyno gofynion clir ym Mil yr Amgylchedd ar gyfer CNC er mwyn hwyluso dull ar sail ardal o bennu blaenoriaethau a chamau gweithredu ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd hyn yn cyfuno'r seiliau ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau rheoli presennol – yr wybodaeth wyddonol, y cyfranogi a'r mewnbwn gan fuddiannau perthnasol, a'r rhyngddibyniaethau.
 - 2.4 Bydd yn ymgorffori dyletswyddau CNC mewn cysylltiad â dŵr, llifogydd, bioamrywiaeth, coedwigaeth, tirwedd, mynediad a hamdden, a sut i'w hystyried gyda'i gilydd. Bydd yn rhoi mwy o eglurder ynghylch yr amrywiaeth o ryng-gysylltiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol rhwng adnoddau naturiol defnyddiol, a sut y gellir eu defnyddio wedyn i wireddu canlyniadau a rennir.
 - 2.5 Nod y broses hon yw dangos y prif heriau, cyfleoedd a risgiau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd yn crisialu'r agenda strategol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng nghyd-destun anghenion yr ardal leol. Bydd angen iddi gyflwyno tystiolaeth a gwybodaeth mewn fformat clir a chryno fel y gellir ystyried yr holl effeithiau a chyfleoedd.
 - 2.6 Gan weithio ochr yn ochr â'r strwythurau Llywodraethu sy'n cael eu gweithredu drwy Fil Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd yn helpu'r rheini sy'n gyfrifol am y broses o reoli a chyflenwi ein hadnoddau naturiol, neu'n dod o dan effaith y broses honno neu'n cymryd rhan ynddi, i wneud asesiad llawn o'r cyfleoedd sy'n codi wrth eu rheoli, yn ogystal â deall lle y mae angen diogelu'r adnoddau hynny.
 - 2.7 Drwy sefydlu fframwaith cyfreithiol cliriach a sail statudol yng Nghymru ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig, ceir gwell gwybodaeth ar gyfer gwireddu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, byddant yn cael eu gwireddu'n fwy effeithlon a sicheir manteision ehangach. Bydd yn galluogi Llywodraeth Cymru, CNC a chyrrff cyhoeddus eraill sy'n gwneud penderfyniadau perthnasol ar reoli adnoddau naturiol i ystyried effaith economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol y penderfyniad yn y tymor hir, a cheisio ei weithredu mewn ffordd fwy integredig, gan symud i'r un cyfeiriad.

Diffiniadau

NRM1: Pennu diffiniad cyfreithiol o adnoddau naturiol yng Nghymru

- 2.8 Wrth osod sylfeini cyntaf fframwaith cyfreithiol cyffredin ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru'n gynaliadwy, y bwriad yw gweld gwahanol agweddau yn cydweithio mewn ffordd holistig ac integredig.
- 2.9 Gellir deall a dehongli'r term "adnoddau naturiol" i olygu nifer o bethau gwahanol. Er bod sail gyfreithiol gydnabyddedig i'r term "Amgylchedd"⁹, nid oes sail gyfatebol yng nghyfraith y DU i "adnoddau naturiol" neu "rheoli adnoddau naturiol".
- 2.10 Un diffiniad cyffredin o adnoddau naturiol yn Saesneg yw "materials or substances occurring in nature which can be exploited for economic gain"¹⁰. Dyma'r diffiniad felly a fyddai'n debygol o gael ei gydnabod o dan y gyfraith pe na byddai diffiniad penodol ohono ar gyfer y mesurau ym Mil yr Amgylchedd.
- 2.11 Yn yr ymgynghoriad ar *Cynnal Cymru Fyw* yn 2012, nodwyd ein bwriad i fabwysiadu "dull o reoli ar lefel yr ecosystem" (gweler y Rhestr Termau) er mwyn gwireddu canlyniadau amgylcheddol mewn ffordd integredig. Mae'r term 'ecosystem approach' yn dod o'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol a'r disgrifiad ohono yn y ddogfen honno yw "a strategy for the integrated management of land, water and living resources that promotes conservation and sustainable use in an equitable way"¹¹.
- 2.12 Ym mhapur ymgynghori 2012, eglurwyd sut y mae meddwl am "wasanaethau ecosystemau" (gweler y Rhestr Termau) yn rhoi'r gallu i ystyried y manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach y mae adnoddau naturiol yn eu darparu. Er mwyn cymhwyso'r modelau hyn at y systemau deddfwriaethol a rheoliadol presennol, byddai angen ystyried nid yn unig tir, aer a dŵr ond hefyd y rhyng-gysylltiadau â'i gilydd ac â chymdeithas yn gyffredinol. Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu hynny ym mhob achos.
- 2.13 Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai diffiniad o adnoddau naturiol olygu mwy na'r adnoddau naturiol sy'n cael eu defnyddio i gael elw. Er enghraifft, mae adnoddau naturiol yn cynnwys yr ecosystemau, geoamrywiaeth, bioamrywiaeth, a'r prosesau biolegol sy'n cynnal holl fywyd y ddaear, a'r manteision y mae cymdeithas yn eu cael ohonynt sydd heb werth ariannol.

⁹ Deddf Diogelu'r Amgylchedd, 1990, A1.

¹⁰ <http://oxforddictionaries.com/definition/english/natural-resources>

¹¹ <https://www.cbd.int/ecosystem/>

-
- 2.14 Drwy gael diffiniad o reoli adnoddau naturiol, bydd y cyrff sydd â swyddogaethau a dyletswyddau o dan Fil yr Amgylchedd yn gallu deall sut y bydd y swyddogaethau a'r dyletswyddau hynny'n cael eu dehongli a'u cymhwyso. Mae'n her sylweddol cytuno ar ddiffiniad sy'n mynegi'r pwrpas hwn yn glir mewn ffordd sy'n cadw'r ddysgl yn wastad rhwng bod yn rhy amwys a bod yn rhy benodol.
- 2.15 Mae gwledydd eraill (fel Awstralia, Canada a Seland Newydd) sydd wedi mabwysiadu dull mwy integredig o reoli eu hadnoddau naturiol wedi diffinio hynny mewn cyfraith gan roi i ni fodolau defnyddiol i'w hystyried. Wrth wneud, mae rhai ohonynt wedi dewis diffinio *canlyniadau* rheoli adnoddau naturiol yn hytrach na'r elfennau neu'r prosesau penodol cysylltiedig. Wrth ddadansoddi'r diffiniadau hyn, mae nifer o elfennau cyffredin yn codi dro ar ôl tro:
- Bod rheoli adnoddau naturiol yn integredig yn digwydd yn y camau cynllunio a phenderfynu;
 - Bod y defnydd o adnoddau'n cael ei gydgyssylltu/yngorffori ar gyfer amrywiaeth o adnoddau gwahanol;
 - Sicrhau'r manteision cynaliadwy mwyaf posibl ar gyfer y tymor hir;
 - Lleihau gwrthdaro rhwng defnyddwyr adnoddau naturiol yn rhannol drwy gydweithredu;
 - Optimeiddio gofynion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.
- 2.16 Yn ogystal â hyn, ar gyfer Cymru, mae angen ystyried yr elfennau allweddol isod yn y diffiniad:
- Dylai adlewyrchu'r prif fuddiannau polisi, yn enwedig cwmpas presennol swyddogaethau CNC, a bod yn gyson â phwrpas CNC;
 - Dylai adlewyrchu materion y mae gan Gymru gymhwysedd deddfwriaethol drostynt, ond dylai ddarparu hefyd ar gyfer ystyried materion eraill o fewn fframwaith cyson, er enghraifft sut y mae CNC yn cynghori ar faterion sydd heb eu datganoli;
 - Dylai adlewyrchu pethau biotig (byw) ac anfiotig (anfyw), yn ogystal â darparu ar gyfer ystyried dihyssbyddu a dirywiad adnoddau cyfyngedig ac anghyfyngedig. Er mwyn gwneud hynny, dylai ddarparu ar gyfer ystyried terfynau amgylcheddol.
- 2.17 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu pennu diffiniad cyfreithiol drwy enwi a disgrifio'r *adnoddau* sydd i'w rheoli; diffinio'r egwyddorion neu'r *broses* ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig, a

diffinio'r *allbynnau* y mae'r broses honno'n ceisio eu sicrhau. Mae ein cynnig cyntaf ar y diffiniadau hyn yn Ffigur (iii).

Ffigur (iii) Diffiniadau

“Mae *adnoddau naturiol*, mewn cysylltiad â Chymru, yn cwmpasu'r materion canlynol sy'n ymwneud â *rheoli cynaliadwy* ar adnoddau naturiol:

- a) aer, dŵr a phridd;
- b) adnoddau daearegol a thirweddau;
- c) biomas ac adnoddau biolegol;
- ch) ecosystemau”

“Ystyr *rheoli adnoddau naturiol yn integredig* yw proses ar gyfer cynllunio a phennu blaenoriaethau sy'n cydgysylltu'r gwaith o gynnal, gwella a defnyddio adnoddau naturiol fel y ceir y manteision mwyaf posibl yn y tymor hir i bobl, amgylchedd ac economi Cymru yn y presennol a'r dyfodol.

“Ystyr *rheoli cynaliadwy* yw'r gweithredu ar y cyd (gan gynnwys peidio â gweithredu) sydd ei angen i reoli'r gwaith o gynnal, gwella a defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd, neu ar gyflymder, a fydd yn galluogi pobl a chymunedau Cymru i ddarparu ar gyfer eu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan gadw systemau cynnal bywyd natur yr un pryd. Wrth wneud hynny, sicrheir na fydd y budd o'r defnydd i'r genhedlaeth bresennol yn lleihau'r gallu i gwrdd ag anghenion a dyheadau cenedlaethau'r dyfodol”.

Rheoli cynaliadwy ar adnoddau yw allbwn y broses rheoli adnoddau naturiol yn integredig. Mae gweithredu ar y cyd yn golygu'r gweithredu sydd wedi'i bennu gan yr holl awdurdodau cyhoeddus a chyrrff cyflenwi, nid CNC yn unig.

- 2.18 Mantais y diffiniadau a gynigir yw eu bod yn gyson â diben CNC, sydd wedi'i nodi yn Erthygl 4 o'r Gorchymyn Sefydlu. Mae'r derminoleg yn gyson hefyd â'r cynigion sy'n cael eu datblygu i'w cynnwys ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn unol â'r Bil hwnnw, rhaid i reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol gyfrannu at wella'r canlyniadau tymor hir yng Nghymru. Y canlyniadau yw'r sefyllfa derfynol yr ydym yn ceisio ei sicrhau, sef y pen draw i'r camau a gymerir a manteision y camau hynny.

Beth fydd effaith y diffiniad

2.19 Bydd y diffiniad yn cael effaith gyfreithiol ar y cynigion canlynol yn y Papur Gwyn hwn, ac yn helpu i'w hegluro (gweler y cynigion manwl yn ddiweddarach yn y ddogfen hon):

- **Polisi a blaenoriaethau cenedlaethol** (NRM2) – bydd y diffiniadau'n helpu i egluro pwrpas a chwmpas y polisi adnoddau naturiol genedlaethol;
- **Rheoli ar sail ardal** (NRM 3) – bydd y diffiniadau'n helpu i egluro cwmpas y dull ar sail ardal, y broses ar gyfer ei gyflawni, a'r allbynnau o'r broses honno;
- **Y gofyn i CNC bennu blaenoriaethau ar sail ardal** (NRM 4) – bydd y diffiniadau'n helpu i egluro pwrpas a chwmpas ar sail ardal;
- **Y gofyn ar gyrff eraill** (NRM 5) – bydd y diffiniadau'n helpu i egluro effaith y gofyn ar gyrff eraill, yng nghyswllt cydweithredu, rhannu gwybodaeth, cydgynllunio ac adrodd ar reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol;
- **Y feganwaith i adrodd ar gynnydd** (NRM 6) – bydd y diffiniadau'n helpu i bennu cwmpas yr adroddiad ar gynnydd tuag at sicrhau rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol a sefydlu dull o reoli adnoddau naturiol yn integredig;
- **Pwerau i CNC allu treialu dulliau arloesol** (NRM 7) – bydd y diffiniadau'n helpu i osod meincnod i'w defnyddio gan CNC i gyfiawnhau defnyddio'r pŵer i dreialu dulliau arloesol o fewn cwmpas ei swyddogaethau presennol. Er enghraifft, wrth ystyried yr angen am ddulliau rheoli cynaliadwy, a'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig, ochr yn ochr â chyfyngiadau'r dulliau presennol;
- **Pwerau newydd i CNC allu llofnodi cytundebau rheoli** (NRM 9) – bydd y diffiniadau'n helpu i ddiffinio'r diben y caiff CNC wneud cytundebau rheoli ar gyfer ei gyflawni;
- **Pwerau i grisialu'r cysylltiad rhwng dyletswyddau CNC a'i brif bwrpas** (NRM 11) – yn amodol ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac amodau'r pŵer arfaethedig, gellid defnyddio'r diffiniadau'n gyfiawnhad dros arfer pwerau galluogi gan Weinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

Pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru i egluro agweddau ar y diffiniad

2.20 Rhagwelir y bydd Bil yr Amgylchedd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd, drwy orchymyn, ynghylch dehongli unrhyw un o'r diffiniadau sydd yn yr adran hon.

Dull integredig o Reoli Adnoddau Naturiol

NRM2: Polisi a blaenoriaethau cenedlaethol mewn cysylltiad ag adnoddau naturiol Cymru.

- 2.21 Er mwyn cael y manteision mwyaf posibl o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, bydd yn bwysig pennu cyfeiriad a blaenoriaethau clir ar gyfer eu rheoli. Amcan Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler y Rhestr Termau a pharagraff 1.27) yw pennu'r canlyniadau hirdymor lefel uchel ar gyfer Cymru ym mhob maes polisi. Hefyd, roedd yr adborth i'r ymgynghoriad ar *Cynnal Cymru Fyw* yn gefnogol iawn i'r farn bod angen pennu polisi a blaenoriaethau ar gyfer adnoddau naturiol ar lefel genedlaethol – wedi'u harddel, eu derbyn a'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru – ac y dylai fod ganddynt ddylanwad ac awdurdod wrth ystyried cynlluniau a strategaethau cenedlaethol eraill.
- 2.22 Bil yr Amgylchedd felly fydd yn rhoi'r sail deddfwriaethol ar gyfer polisi cenedlaethol ar adnoddau naturiol fydd yn cyd-fynd â'r canlyniadau cenedlaethol a bennir trwy Fil Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y polisi'n nodi'r prif gyfleoedd, tueddiadau a blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar lefel genedlaethol. Bydd yn nodi'r ffyrdd y bydd yn rhaid i ni eu defnyddio i reoli'n hadnoddau naturiol, gan gynnwys y rheini yn y môr, i sicrhau manteision tymor hir i Gymru, yn ogystal â'u cyfraniad ar y lefel ryngwladol. Bydd yn pennu hefyd y camau y bydd angen i Lywodraeth Cymru, CNC a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys ymgymerwyr statudol, eu cymryd i sicrhau bod y modd y rheolir adnoddau naturiol Cymru yn gallu cefnogi'r canlyniadau cenedlaethol. Bydd yn pennu'r cyfeiriad lefel uchel ar gyfer holl bolisiau yng Nghymru ar adnoddau naturiol, gan gynnwys yr effeithiau cymdeithasol ac economaidd a'r cyfleoedd y bydd adnoddau naturiol yn eu cynnig, gan ategu canlyniadau a dangosyddion cenedlaethol.

Amseru'r ddogfen bolisi adnoddau naturiol

- 2.23 Mae Tabl (i) isod yn dangos amserau bras ar gyfer y polisi adnoddau naturiol.

Tabl (i) Amseriadau dangosol y polisi adnoddau naturiol

Dyddiad	Gweithgarwch
2014/15	Datblygu ffordd i Cyfoeth Naturiol Cymru adrodd ar ‘Sefyllfa Adnoddau Naturiol’ ac adlewyrchu pob agwedd ar gylch gwaith y sefydliad
Gwanwyn 2016	Pasio Bil yr Amgylchedd (ar ôl cael cymeradwyaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol a Chydsyniad Brenhinol)
Mai 2016	Ethol y Cynulliad, ffurfio Llywodraeth newydd
2016	Rhaglen Lywodraethu yn disgrifio ei rhaglen waith bum mlynedd
2016	CNC yn dechrau ar waith i bennu cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ar lefel genedlaethol a lleol: <ul style="list-style-type: none"> • sefydlu partneriaethau ar sail ardal mewn ardaloedd sydd â blaenoriaeth. • ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Lleol ynghylch asesu anghenion
2017/18	Polisi adnoddau naturiol - bydd yn egluro sut y bydd adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli er mwyn helpu i bennu canlyniadau cenedlaethol ar gyfer y tymor hir ac ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu (2017-2021)
2017/18	CNC yn dechrau rheoli ar sail ardal gan adlewyrchu blaenoriaethau'r polisi adnoddau naturiol genedlaethol a hefyd blaenoriaethu'r gweithredu i wireddu canlyniadau y cytunwyd arnynt yn lleol drwy Fyrddau Gwasanaethau Lleol a sefydliadau eraill
Erbyn 2020	CNC yn llunio adroddiad ar “Sefyllfa Adnoddau Naturiol”

-
- 2.24 Bydd angen cyhoeddi'r polisi adnoddau naturiol bob pum mlynedd wedyn, yn unol â'r amseriadau uchod, fel y bydd yn adlewyrchu'r canlyniadau a'r blaenoriaethau sydd wedi'u pennu yn y Rhaglen Lywodraethu.

NRM3: Gofyn bod CNC yn datblygu ac yn gweithredu dull ar sail ardal ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a'i fod yn sicrhau bod tystiolaeth o'r broses hon yn cyfrannu i'r cynlluniau cyflawni priodol

- 2.25 Er mwyn rheoli ein hamgylchedd naturiol yn fwy effeithiol, mae angen meddwl yn fwy strategol ynghylch posibiladau a photensial ein hadnoddau naturiol a'r ffordd y maent yn cael eu defnyddio'n awr ac yn y dyfodol.
- 2.26 Pwrpas y cynnig hwn yw meithrin gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae ecosystemau'n gweithio, gan gynnwys y ffactorau cydgysylltiedig a'r gwahanol raddfeydd sy'n cyfrannu iddynt er mwyn medru darparu amserlen glir ar gyfer y camau y mae angen eu cymryd ar y cyd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Y Newid yn yr Hinsawdd

- 2.27 Trwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, byddwn yn gwneud ein cymdeithas a'n heconomi yn gryfach i wrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid. Yn ogystal â chymryd camau ar gyfer cenedlaethau'r presennol, bydd y broses hon yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o'r ffyrdd y gallwn atgyweirio'r difrod tymor hir i ecosystemau, a chryfhau'r amgylchedd naturiol er mwyn wynebu heriau'r dyfodol, fel effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
- 2.28 Gellid datblygu'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd drwy wella ecosystemau o ran eu hamrywiaeth, eu maint, eu cyflwr a'r cysylltiadau rhyngddynt. Byddai hyn yn ein helpu i wella'r ffordd rydym yn cynnal cynefinoedd a rhywogaethau prin, yn cynnal a gwella gwasanaethau a geir o'r adnoddau naturiol ac yn lleihau'r nwyon tŷ gwydr sydd yn ein haer.
- 2.29 Mae'n bosibl y bydd mesurau i liniaru effaith y newid yn yr hinsawdd drwy reoli adnoddau naturiol yn helpu hefyd, er enghraifft, i leihau'r nwyon tŷ gwydr yn yr aer drwy reoli mawnogydd i ddal a storio carbon, neu i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy gynlluniau fel systemau draenio cynaliadwy. Cydnabyddir bod rheoli adnoddau naturiol yn hanfodol ar gyfer lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd a bod angen eu rheoli gyda'i gilydd, nid ar wahân. Y bwriad yw y bydd y cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd yn cynnwys camau gweithredu i ddatblygu gallu'r amgylchedd naturiol i wrthsefyll achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd.

Integreiddio swyddogaethau

- 2.30 Mae CNC eisoes yn edrych ar ffyrdd o gyfuno ei swyddogaethau er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn integredig, yn ogystal ag ystyried y goblygiadau ar gyfer cyflawni gweithredol ar wahanol raddfeydd gofodol. Wrth ystyried sut i gyfuno ei brosesau rheoleiddio, ei brosesau cynllunio adnoddau a'i ffyrdd o gasglu tystiolaeth a darparu cyngor, mae CNC yn meithrin y profiad ac arbenigedd sydd eu hangen i helpu Llywodraeth Cymru i weithredu'r fframwaith polisi a deddfwriaeth newydd hwn.
- 2.31 Y bwriad yw y bydd Bil yr Amgylchedd yn esbonio'r gofynion a roddir ar CNC i ddatblygu a gweithredu dull ar sail ardal ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys y rheini yn yr amgylchedd morol. Yn unol â'r diffiniad a gynigir uchod, bydd hon yn broses sy'n cynllunio ac yn pennu blaenoriaethau er mwyn cydgysylltu'r defnydd o adnoddau i sicrhau'r manteision cynaliadwy mwyaf posibl yn y tymor hir i bobl, amgylchedd ac economi Cymru, yn awr ac yn y dyfodol.
- 2.32 Yn benodol, bydd hyn yn golygu dod â rhanddeiliaid priodol at ei gilydd, ar amseroedd perthnasol, i bennu cyfleoedd i gyflawni'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y polisi adnoddau naturiol ac i ystyried materion eraill sy'n berthnasol i adnoddau naturiol yn yr ardal, ar y graddfeydd gofodol priodol ac yn y manau priodol.
- 2.33 Yn unol â'r diffiniad a ddisgrifir uchod, bydd y broses hon wedi'i seilio ar egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn integredig a rhagwelir y bydd y defnydd o adnoddau'n cael ei gydgysylltu ar sail gwasanaethau ecosystemau a'r manteision a geir ohonynt.
- 2.34 Yn ogystal ag ystyried yr adnoddau naturiol sydd wedi'u rhestru yn y diffiniad, bydd angen rhoi ystyriaeth benodol drwy'r dull rheoli ar sail ardal i'r gallu i liniaru ac ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy reoli adnoddau naturiol.
- 2.35 Bydd yn bwysig cael deialog barhaus ar nifer o lefelau, er mwyn integreiddio â mecanweithiau eraill ar gyfer cynllunio seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, bydd CNC yn chwarae rhan allweddol gyda Byrddau Gwasanaethau Lleol a bydd yn helpu i ddarparu tystiolaeth o'r ffordd y mae rheolaeth ar adnoddau naturiol yn cyfnerthu gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yng nghyswllt lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
- 2.36 Mae'r cynnig i osod gofyn ar gyrff eraill (a amlinellir yn NRM5 isod) yn golygu hefyd y bydd rhanddeiliaid perthnasol eraill yn cymryd rhan fyw yn y broses hon.

-
- 2.37 Gall CNC sicrhau hefyd fod y camau y mae'n eu cymryd yn ymateb i anghenion lleol – ac yn ymgorffori tystiolaeth gymdeithasol ac economaidd a ddarperir gan aelodau eraill o'r bwrdd gwasanaethau lleol. Ar lefel leol, dylai camau gweithredu o'r fath gael eu cofnodi a'u cyflawni drwy gynlluniau cyflawni perthnasol. Gallai hyn fod o gymorth hefyd, er enghraifft, i weithredu'r fframwaith Ewropeaidd sy'n datblygu ar gyfer bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd.

Diffinio'r broses

- 2.38 Cynigir na fydd Bil yr Amgylchedd yn pennu proses benodol ar gyfer y dull rheoli ar sail ardal yn y ddeddfwriaeth ei hun. Mae'r diffiniad o reoli adnoddau naturiol yn integredig (gweler NRM1 uchod) wedi'i lunio i roi digon o hyblygrwydd i CNC ddatblygu ac addasu dull effeithiol. Bydd hyn yn galw am ystyried daearyddiaeth Cymru a pha raddfeydd fyddai'n briodol; ystyriaethau eraill o bob math a'r amserlenni ar gyfer prosesau statudol eraill, a newid mewn amgylchiadau gwleidyddol a pholisi. Mae Llywodraeth Cymru yn credu hefyd ei bod yn bwysig bod CNC yn cael y rhyddid i ddiffinio sut orau i roi hyn ar waith ac i fedru caboli hynny'n barhaus.
- 2.39 Cydnabyddir ei bod yn bwysig i CNC wybod yn union beth sydd ei angen i allu gwneud y ddyletswydd. Pennir rhai paramedrau ym mharagraffau 2.43-2.46 isod. Ystyrir rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru felly i allu rhoi cyfeiriad pellach o ran y broses, lleoliad a sgôp a materion i'w hystyried ar gyfer rheoli ar sail ardal, trwy is-ddeddfwriaeth.

NRM4: Gofyn bod CNC yn disgrifio blaenoriaethau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ar sail ardal

- 2.40 Pwrpas y broses hon yw dangos yn glir beth yw'r blaenoriaethau, amcanion a champau gweithredu ar y cyd sydd eu hangen o fewn ardal benodol (gan gynnwys yr amgylchedd morol, os yw'n briodol) er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- 2.41 Drwy hynny, bydd CNC yn gallu egluro i randdeiliaid a chyrff cyflawni eraill beth yw'r cyfleoedd, risgiau a heriau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol, gan gynnwys lliniaru ac addasu i effaith y newid yn yr hinsawdd. Wrth fod wedi'u datblygu trwy broses o gyfranogi, byddai hynny'n helpu i sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn yr ardaloedd hynny.
- 2.42 Ym mhob ardal, bydd angen:
- cytundeb ysgrifenedig o flaen llaw gan Weinidogion Cymru ar yr ardaloedd sydd i'w cynnwys yn y broses, a'r amserlen arfaethedig;

-
- datganiad ar gyfranogi sy'n dangos sut y mae rhanddeiliaid priodol, gan gynnwys sefydliadau cyhoeddus a phreifat a grwpiau cymunedol, wedi cymryd rhan yn y broses;
 - ymgynghoriad 12 wythnos;
 - datganiad am y ffordd yr eir ati i reoli adnoddau naturiol yn integredig;
 - datganiad ynghylch sut y bydd CNC yn defnyddio'r holl bwerau a swyddogaethau sydd ganddo i ddelio â'r cyfleoedd a'r heriau sydd wedi codi;
 - argymhelliad clir ynghylch sut i flaenoriaethu'r materion, cyfleoedd a champau gweithredu ar y cyd sydd eu hangen i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn yr ardal;
 - dangos sut y bydd y blaenoriaethau hynny'n cyfrannu at ganlyniadau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys y polisi ar adnoddau naturiol cenedlaethol;
 - gwybodaeth am y ffordd y bydd CNC yn cydweithio ag eraill i wireddu'r blaenoriaethau hynny; a
 - dangos pa gyfrifoldebau a champau gweithredu y dylai sefydliadau eraill eu cyflawni i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

2.43 Bydd angen i'r ardaloedd gydweithio ar draws Cymru i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol, er na fydd gofyn yn y dechrau i'w roi ar waith ledled Cymru gyfan.

Ffigur (v) Rheoli adnoddau naturiol ar sail ardal

Mae rheoli ar sail ardal yn rhoi cyfle i ddangos sut y bydd CNC yn cyflawni blaenoriaethau a chyfleoedd lleol, gan gynnwys y cysylltiad rhwng y rhain a'r canlyniadau lleol a rennir ac y cytunwyd arnynt yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Er enghraifft, gallai CNC ystyried bod ardal fel "Taf a Chynon", sy'n cynnwys dalgylchoedd yr afonydd hynny, yn ardal sydd â ffin naturiol briodol iddi ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig. Byddai'r ardal hon yn cynnwys y rhan fwyaf o ardal Bwrdeistref Merthyr Tudful, yn ogystal â rhannau o Fwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Caerdydd de Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Gallai ardal "Adnoddau Naturiol: Taf a Chynon", er enghraifft, amlinellu:

- Beth yw'r materion, heriau, risgiau a chyfleoedd allweddol ar gyfer adnoddau naturiol yn Ardal Taf a Chynon?
- Sut y gellid rheoli'r cyfleoedd a risgiau a nodwyd i wireddu'r canlyniadau a blaenoriaethau allweddol a nodwyd ar lefel leol a chenedlaethol?
- Beth sydd angen i CNC ei wneud i gyflawni hyn, a sut y bydd yn gwneud hynny dros y pum mlynedd nesaf?
- Beth sydd angen i gyfranwyr allweddol eraill ei wneud i gynnal yr agenda hon, i reoli adnoddau naturiol yn y ffordd fwyaf cynaliadwy?

Dylai'r dull rheoli ar sail ardal gynnwys hefyd effeithiau a goblygiadau mewn ardaloedd cyd-ddibynnol yn ogystal â helpu i lywio amcanion cynllun rheoli'r Parc Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Lleol yr awdurdodau cynllunio sydd dan sylw.

Amserlen

- 2.44 Cynigir bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn cytuno ar amserlen pob ardal. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y broses yn datblygu mewn modd amserol er mwyn delio ag unrhyw faterion pwysig, ac i gyd-fynd â phrosesau cynllunio eraill, gan gynnwys cynlluniau datblygu os yw'n briodol.

Amllder

- 2.45 Cynigir bod y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi bob pum mlynedd, i gyd-fynd â phennu'r canlyniadau cenedlaethol trwy Fil Cenedlaethau'r Dyfodol. Felly bydd angen

mecanwaith ar CNC i ystyried yr angen am adolygu'r gwaith ym mhob ardal bob pum mlynedd, ar ôl cyhoeddi'r polisi adnoddau naturiol.

- 2.46 Ar ôl ymgynghori â'r partion perthnasol, gan gynnwys y Bwrdd neu Fyrddau Gwasanaethau Lleol yr ardal honno, os daw CNC i'r casgliad bod y materion, yr heriau a'r cyfleoedd yn parhau'n gyfredol a pherthnasol, a bod Gweinidogion Cymru'n cytuno â'r casgliad hwnnw, ni fydd angen diweddarau'r dull rheoli yn yr ardal honno. Ond os bydd y canlyniadau wedi newid neu bod y risgiau a'r cyfleoedd yn newid yn fawr, yna bydd angen adolygu a diweddarau'r dull rheoli ar gyfer yr ardal honno. Bydd hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd wrth baratoi ardal benodol i gyd-fynd ag amserlenni cenedlaethol a lleol eraill ar gyfer llunio cynlluniau.
- 2.47 Y bwriad yw na fydd Bil yr Amgylchedd yn cynnwys unrhyw gyfarwyddyd pellach ynghylch sut nac ymhle y paratoir y blaenoriaethau a'r cyfleoedd mewn ardal benodol. Bydd y mater hwn yn cael ei ystyried gan CNC a Gweinidogion Cymru wrth benderfynu ar y graddfeydd gofodol a fydd yn fwyaf priodol ac effeithiol (law yn llaw â'r cynnig bod CNC yn datblygu dull rheoli ar sail ardal yn unol ag NRM3) ar gyfer arfer ei swyddogaethau, defnyddio ei adnoddau staff yn effeithiol, amseriad prosesau statudol eraill a chydymffurfio â deddfwriaeth yr UE.

Cysylltiadau â phrosesau cynllunio eraill

- 2.48 Yn yr adran ddilynol rydym yn egluro'r cysylltiadau rhwng y broses hon a phrosesau ar gyfer cynlluniau eraill.
- **Rheoli Adnoddau Naturiol a Chynllunio Defnydd Tir**
- 2.49 Y bwriad yw cyhoeddi ymgynghoriad ar y Bil Diwygio Cynllunio tua diwedd 2013 ar y cynigion i ddiwygio'r system cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Bydd llawer o'r newidiadau arfaethedig yn annog mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau cynllunio, ac yn arwain at gynnwys ymgynghoreion statudol, cymunedau a rhanddeiliaid yn gynharach yn y broses.
- 2.50 Mae'r dull rheoli adnoddau naturiol yn integredig yn allweddol i gefnogi'r diwygiadau sydd yn yr arfaeth. Mae'n beth synhwyrol ein bod yn deall y camau sydd angen eu cymryd i reoli, defnyddio a diogelu ein hadnoddau naturiol er mwyn diwallu anghenion cenedlaethau heddiw ac yfory. Dylid ystyried hyn wrth benderfynu ar ffurf a chyfeiriad twf a datblygu economaidd er mwyn iddynt allu bod yn gynaliadwy. Bydd hefyd yn ein helpu ni i ddeall yn well capasiti a therfynau posibl ein hadnoddau naturiol, lle bynnag y bo modd.

-
- 2.51 Ar gyfer rheolwyr adnoddau naturiol, mae'n bwysig eu bod yn deall yr anghenion posibl ardal o ran datblygu cymdeithasol ac economaidd, rhag i adnoddau naturiol yng Nghymru gael cael eu rheoli mewn ffordd ddigyfnewid. Drwy wneud hyn, gellir rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd sy'n sicrhau canlyniadau da i'r amgylchedd, yr economi a ymdeithas gyfan.
- 2.52 Mae'r system cynllunio defnydd tir yn chwarae rhan hanfodol, yn enwedig wrth bennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu yn y dyfodol er mwyn diwallu anghenion cymdeithas, a hefyd drwy gyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'n gwneud hyn yn barod drwy ystyried y materion, risgiau a chyfyngiadau amgylcheddol ochr yn ochr â nifer o ystyriaethau eraill er mwyn pennu lleoliadau yn y dyfodol ar gyfer tai, busnes, diwydiant, gwasanaethau a hamdden, ymysg pethau eraill. Wrth benderfynu ar hyn, ystyrir tystiolaeth a chyingor gan CNC a rhanddeiliaid eraill ar lefel genedlaethol ac ar lefel yr ardal strategol a'r awdurdod lleol. Ar ben hynny, mae cynlluniau datblygu lleol (CDLlau) yn cael eu hasesu drwy brosesau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd i ddangos sut y mae hyn wedi'i gyflawni.
- 2.53 Fodd bynnag, yn y gorffennol nid yw'r sylfaen dystiolaeth amgylcheddol wedi'i threfnu mewn ffordd gyson. Mae ystyriaeth wedi'i rhoi hefyd i effeithiau posibl yn hytrach nag i'r cyfleoedd posibl y mae rheoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn eu cynnig i wireddu canlyniadau cenedlaethol a lleol. Bydd Bil yr Amgylchedd felly'n creu fframwaith ar gyfer sylfaen o dystiolaeth ynghylch adnoddau naturiol sy'n fwy cyson a phroactif ac sy'n seiliedig fwy ar flaenoriaethau. Defnyddir y sylfaen bob tro y bydd angen tystiolaeth ynghylch adnoddau naturiol.
- 2.54 Trwy ddatblygu dull rheoli ar sail ardal a phroses pennu blaenoriaethau, bydd CNC yn gallu nodi'n glir yr heriau, cyfleoedd a risgiau allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd yn dangos pa flaenoriaethau strategol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol y dylid eu dewis yng nghyd-destun anghenion yr ardal. Bydd yn cyflwyno tystiolaeth a gwybodaeth yn glir iddo allu ystyried yr holl effeithiau a chyfleoedd.
- 2.55 Trwy reoli felly ar sail ardal, ceir cyfle i weithio'n ddoethach ac i ddarparu tystiolaeth gadarn a dibynadwy. Bydd ansawdd yr wybodaeth yn allweddol yn hyn o beth. Mae'r cynigion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn eu cyfanrwydd yn sicrhau bod y sylfaen dystiolaeth hon yn cael ei datblygu gyda chymorth ystod eang o randdeiliaid.
- 2.56 Bydd ateb gofynion deddfwriaethol yr UE yn parhau'n flaenoriaeth allweddol. I allu rheoli ar sail ardal, bydd angen cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn unol â Chyfarwyddeb Ewropeaidd

2001/42/EC. Mae'r angen am wneud AAS wedi'i nodi yng Nghyfarwydddeb Ewropeaidd 2001/42/EC ar asesu effeithiau cynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd. Bydd hyn yn cael ei integreiddio â'r broses, gan ddylanwadu ar sut y caiff ei wneud gyda golwg ar gadw'r baich gweinyddol mor fach â phosibl. Yn ymarferol, dylai'r broses rheoli adnoddau naturiol yn integredig fodloni'n well ofynion a dibenion y rheoliadau hyn. Felly hefyd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd er y bydd angen adroddiad gwahanol.

- 2.57 Er mwyn sicrhau bod partïon pwysig eraill yn cymryd rhan yn y broses hon, bydd gofyn i gyrff cyhoeddus gydweithredu, rhannu gwybodaeth, cydgynllunio ac adrodd ar y cyd ar reoli adnoddau naturiol. Bydd camau i wrthsefyll neu liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn elfen allweddol yn y broses hon. Bydd hyn yn sicrhau bod CNC yn gallu cydweithio â chyrff eraill i gael sylfaen dystiolaeth gyson ar gyfer ei waith ei hun a gwaith cyrff cyhoeddus eraill, ac i sicrhau bod ystyriaethau ynghylch adnoddau naturiol yn cael eu cynnwys o'r dechrau.
- 2.58 Mae'r trefniadau Llywodraethu a sefydlir drwy Fil Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan allweddol o hyn. Rhagwelir mai trwy ddarpariaeth ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol y bydd CNC yn bartner statudol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI). Byddant yn cydweithio â'r darparwyr gwasanaethau allweddol ar y bwrdd a chytuno ar set o ganlyniadau lefel uchel a fydd yn arwain eu holl waith.

- **Yr Amgylchedd Morol**

- 2.59 Mae mecanweithiau wedi'u rhoi ar waith yn ddiweddar ar gyfer rheoli'r amgylchedd morol yn integredig, ynghyd â ffyrdd o weithio i gydgyssylltu rheolaeth ar y ffin rhwng y tir a'r môr.
- 2.60 Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i lunio Cynlluniau Morol ar gyfer moroedd Cymru er mwyn hybu datblygu cynaliadwy drwy reoli ar lefel yr ecosystem. Bydd Cynlluniau Morol yn dangos polisiau Gweinidogion Cymru ar gyfer ac yng nghyswllt datblygu a rheoli cynaliadwy yn nyfroedd y glannau a'r môr mawr, a byddant yn gyson â Datganiad Polisi Morol y DU. Wrth wneud penderfyniadau a all effeithio ar yr amgylchedd morol, rhaid i gyrff cyhoeddus roi ystyriaeth i Ddatganiad Polisi Morol y DU ac unrhyw Gynllun Morol.
- 2.61 Bydd y polisi adnoddau naturiol yn ategu'r broses cynllunio morol bresennol ac yn cyfrannu ati. Y bwriad yw pennu'r cyfeiriad ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn yr amgylchedd morol er mwyn cyfrannu at wireddu'r canlyniadau tymor hir ar gyfer Cymru.

-
- 2.62 Gall y dull ar sail ardal ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy fod yn briodol hefyd yn yr amgylchedd morol. Yn yr achos hwn, bydd yn bwysig cynnwys unrhyw gamau gweithredu ar gyfer adnoddau naturiol y môr yn y broses Cynllunio Morol: bwriad Llywodraeth Cymru yw llunio'r cynlluniau morol cyntaf i Gymru erbyn 2015.
- 2.63 Mae Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yr UE (2006) yn sbardun pwysig i sicrhau Statws Amgylcheddol Da yn ein dyfroedd erbyn 2020. Y diffiniad o Statws Amgylcheddol Da yn Erthygl 3 o'r Gyfarwyddeb yw: "The environmental status of marine waters where these provide ecologically diverse and dynamic oceans and seas which are clean, healthy and productive". Gan ei bod yn broses leol, byddai'n ofynnol bod y dull rheoli ar sail ardal yn cyfrannu at sicrhau Statws Amgylcheddol Da drwy roi sylw i'r 11 o ddisgrifiydion ar ei gyfer.
- **Rheoli Dŵr yn Integredig**
- 2.64 Gellir rheoli dŵr yn integredig ar raddfa leol, ranbarthol a chenedlaethol. Y neges glir a gawsom yn y trafodaethau a'r ymgysylltu â rhanddeiliaid a gafwyd hyd yn hyn wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddŵr ddrafft yw bod angen ffordd fwy cydgysylltiedig ac integredig o reoli dŵr yng Nghymru er mwyn gwella ansawdd dŵr ac elwa o wasanaethau dŵr.
- 2.65 Rydym yn derbyn bod angen dull o reoli sy'n seiliedig ar y dalgylch sy'n cydnabod bod gwybodaeth a phrofiad y gymuned yn werthfawr ar gyfer adnabod heriau a chyfleoedd. Dylid dylunio'r dull arfaethedig o reoli ar sail ardal fel ei fod yn cwmpasu'r gweithgarwch a'r camau gweithredu ar lefel y gymuned sy'n cyfrannu at reoli dŵr ar lefel y dalgylch, ochr yn ochr â gweithgareddau eraill. Yn y pen draw, dylid integreiddio camau gweithredu ar lefel y gymuned i reoli dŵr a thir.
- 2.66 Mae yna gyfrifoldebau clir mewn deddfwriaeth ryngwladol a domestig o bob math i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i wella ansawdd yr amgylchedd dŵr. Mae'r dull rheoli adnoddau naturiol yn integredig yn argymhell proses sy'n fwy cyfranogol ac yn helpu i gynnwys cymunedau mewn penderfyniadau.
- 2.67 Drwy weithredu fel hyn, sicreir bod y rhai sy'n rheoli dŵr, y rhai sy'n elwa o gael cyflenwad dibynadwy o ddŵr o ansawdd da a'r rhai a all effeithio ar asedau dŵr yn cyfrannu at osod yr agenda a gwneud penderfyniadau.
- 2.68 Bydd y Strategaeth Ddŵr ddrafft yn cael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori tua diwedd 2013 a bydd yn rhoi mwy o fanylion am ein cynigion ar gyfer rheoli dŵr yn integredig.

- **Cynlluniau rheoli Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)**

- 2.69 O dan Adran 66(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, mae'n ofynnol bod pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yn paratoi ac yn cyhoeddi Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol ar gyfer ei parc. Er bod y gwaith o baratoi'r Cynllun Rheoli yn brif gyfrifoldeb i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, mae hyn yn galw am gynnwys a chael cymorth gan yr holl randdeiliaid allweddol a fydd yn helpu i'w gyflawni.
- 2.70 Yr her wrth ddefnyddio'r dull rheoli ar sail ardal fydd sicrhau bod y dystiolaeth y mae'n ei defnyddio, ynghyd â'r camau gweithredu ar y cyd y mae'n eu pennu i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yn rhan annatod o gynlluniau cyflawni perthnasol y gwahanol sefydliadau, gan gynnwys Cynlluniau Rheoli Parc Cenedlaethol.
- 2.71 Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) i ddatblygu cynllun rheoli AHNE, drwy ymgynghori â'r pwyllgorau cynghori, sy'n disgrifio polisïau'r awdurdod lleol ar gyfer yr AHNE a sut y byddant yn cael eu cyflawni. Rhaid i'r cynlluniau rheoli roi sylw i faterion cymdeithasol ac economaidd yn yr AHNE yn ogystal â'r blaenoriaethau amgylcheddol. Yn achos ardaloedd sy'n cynnwys AHNE, mae'n bosibl y bydd yn werth ystyried a oes agweddau ar y dull arfaethedig o reoli ar sail ardal y gellid eu cysoni â'r broses o baratoi neu adolygu cynlluniau rheoli AHNE.

- **Prosesau cynllunio eraill**

- 2.72 Mae nifer o brosesau cynllunio statudol ac anstatudol ar waith eisoes sy'n helpu i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli, yn enwedig yng nghyswllt rheoli perygl llifogydd ac adnoddau dŵr; cynllunio morol a chynllunio ar gyfer coedwigaeth a thirwedd; rheoli i warchod natur a bioamrywiaeth: mae nifer o'r rhain wedi'u trafod yn fwy manwl uchod. Mae rhestr enghreifftiol ohonynt isod.

Tabl (ii): Rhestr enghreifftiol o gynlluniau, strategaethau a dyletswyddau penodol sy'n berthnasol i reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol

Enw'r cynllun / strategaeth / dyletswydd	Sail y cynllun / strategaeth	Corff arweiniol	Prif bwrpas y cynllun / strategaeth	Cwmpas
Cynlluniau Rheoli Basn Afon	Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE	CNC / Llywodraeth Cymru	Sicrhau dull integredig o ddiogelu'r amgylchedd dŵr a'i ddefnyddio mewn ffordd gynaliadwy	Cymru gyfan - tair ardal basn afon - dwy ohonynt yn cynnwys rhannau o Loegr
Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol	Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010	Llywodraeth Cymru	Pennu amcanion a mesurau cenedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol	Cymru gyfan
Cynlluniau Rheoli Traethlin	Cynllun anstatudol, ond yn rhan o'r broses o weithredu Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE	Grwpiau Arfordirol, dan arweiniad awdurdodau lleol	Deall perygl o brosesau arfordirol a chynllunio ar eu cyfer	Holl arfordir Cymru (pedwar ar gyfer Cymru)
Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd	Cynllun anstatudol, ond yn rhan o'r broses o weithredu Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE	CNC	Sefydlu polisiau i reoli perygl llifogydd yn gynaliadwy ar gyfer y tymor hir	Cymru gyfan ar sail dalgylchoedd afon (deg yn cynnwys rhannau o Gymru)
Strategaethau Lleol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd	Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010	Awdurdodau lleol	Pennu amcanion a mesurau ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn lleol	Cymru gyfan gan gynnwys pob awdurdod lleol
Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr	Deddf y Diwydiant Dŵr 1991	Cwmnïau dŵr	Rheoli a datblygu adnoddau dŵr i sicrhau cyflenwadau o ddŵr yn y dyfodol	
Cynlluniau Sychder	Deddf y Diwydiant Dŵr 1991	Cwmnïau dŵr	Pennu mesurau ar gyfer rheoli sychder	Cymru gyfan (tri yn cynnwys rhannau o Gymru)

Cynlluniau rheoli Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)	Cynllun anstatudol, ond yn rhan o'r broses o weithredu Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE	CNC	Pennu mesurau i gynnal neu adfer statws cadwraeth ffafriol	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sydd wedi'u dynodi
Mapiau a chynlluniau gweithredu sŵn	Cyfarwyddeb Sŵn Amgylcheddol	Llywodraeth Cymru/ awdurdodau lleol	Gostwng lefelau sŵn rhy uchel yn yr amgylchedd	Safleoedd sydd wedi'u dynodi
Cynlluniau gweithredu Ansawdd Aer	Deddf yr Amgylchedd 1995	Awdurdodau lleol	Cyflawni safonau ac amcanion ansawdd aer	Ardaloedd rheoli ansawdd aer sydd wedi'u dynodi
Cynlluniau Rheoli AHNE	Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000	Awdurdodau lleol	Hyrwyddo dibenion y dynodiad	AHNEau
Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy	Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000	Awdurdodau lleol	Gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy	Pob awdurdod lleol
Cynlluniau Rheoli Coedwig	Cynlluniau anstatudol	CNC	Cyfrannu at reoli coedwigoedd yn gynaliadwy	Ystad Goedwig Llywodraeth Cymru
Cynlluniau Rheoli Parc Cenedlaethol	Deddf yr Amgylchedd 1995	Awdurdodau Parc Cenedlaethol	Hyrwyddo dibenion y dynodiad	Tri Pharc Cenedlaethol
Dyletswydd "Parc Cenedlaethol"	Deddf yr Amgylchedd 1995, a.62.	Dyletswydd ar yr holl awdurdodau perthnasol	Wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â thir, neu mewn ffordd a fydd yn effeithio ar dir, mewn Parc Cenedlaethol, rhaid i bob awdurdod perthnasol ystyried dibenion y Parciau Cenedlaethol.	Awdurdodau perthnasol yn y tri Pharc Cenedlaethol
Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth	Confensiwn ar Fioamrywiaeth	Awdurdodau lleol/ partneriaethau lleol	Hybu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU drwy bennu	Cymru gyfan

h Lleol			blaenoriaethau lleol	
Dyletswydd Bioamrywiaeth	Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, a40.	Dyletswydd ar bob corff cyhoeddus	Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus roi sylw, i'r graddau y mae hynny'n gyson ag arfer priodol ar y swyddogaethau hynny, i'r diben o warchod bioamrywiaeth.	Cymru gyfan
Adroddiadau Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd	Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008	CNC Parciau Cenedlaethol Swyddogaethau awdurdodau lleol mewn rhai meysydd	Asesu a rheoli peryglon o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd mewn cysylltiad â swyddogaethau datganoledig y corff	Cymru gyfan

2.73 Drwy ateb y gofyn ar i CNC ddatblygu a chynnal dull rheoli ar sail ardal (gweler NRM3) ac i bennu blaenoriaethau a chyfleoedd adnoddau naturiol ar sail ardal (gweler NRM4), y bwriad yw cyfuno agweddau ar y prosesau cynllunio hyn ac integreiddio a chysoni'r camau gweithredu sydd ynddynt. Un nod allweddol yw sicrhau bod tystiolaeth sy'n sail i'r cynlluniau hynny yn cael ei rhannu, ac na fydd y penderfyniadau sydd wedi'u seilio ar y cynlluniau hynny yn cael eu gwneud heb ystyried sbardunau eraill, na'r cyfleoedd a'r heriau economaidd a chymdeithasol sydd wedi'u trafod ynddynt. Cydnabyddir, er hynny, y gellid parhau i ddefnyddio'r cynlluniau hyn ar lefel weithredol, yn enwedig yn y tymor byr, gan eu bod yn aml yn cynnwys tystiolaeth fanylach.

2.74 Bydd cyfle, dros amser, i'r dull rheoli ar sail ardal gymryd lle elfennau pwysig yng ngwahanol gamau'r broses o baratoi cynlluniau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ar lefel yr ardal leol – er enghraifft, mewnbyn gan randdeiliaid, asesu effeithiau ar ardaloedd eraill, a chyfrannu i gynlluniau a strategaethau eraill. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd hefyd i gynnwys gwybodaeth mewn datganiadau ardal sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â rhai dyletswyddau ar gyfer llunio cynlluniau o dan ddeddfau eraill.

2.75 Nod y cynnig yw esbonio sut y mae dyletswyddau newydd CNC yn gyson â'r pwrpas lefel uchel newydd (gweler NRM11). Bydd hynny'n

rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru i wneud diwygiadau sy'n dileu gwahaniaethau rhwng y ddeddfwriaeth bresennol a'r diben o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel y nodwyd uchod. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddileu neu gyfuno agweddau ar y ddeddfwriaeth i symleiddio elfennau yn y set bresennol o gynlluniau a phrosesau cynllunio.

- 2.76 Rhagwelir bod cyfyngiadau ar y pwerau hynny ac na fyddent yn cael eu defnyddio ond pan fydd modd dangos yn glir y gellid cyflawni prif bwrpas a swyddogaethau'r cynlluniau, strategaethau a dyletswyddau hynny drwy ddull rheoli ar sail ardal ac y byddai'n helpu i sicrhau fframwaith cyfreithiol mwy eglur.
- 2.77 Derbynnir bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i hyn lle y mae rhwymedigaethau penodol o dan Gyfarwydddebau'r UE, yn enwedig pe bai hynny'n gofyn am ailddosi Cyfarwydddebau. Byddwn yn ymgynghori'n llawn ar unrhyw gynigion yn y dyfodol, yn unol ag NRM11.

NRM5: Gofyniad ar gyrrff eraill, a chyfarwyddiadau pellach ynghylch sut i ystyried rheoli ar adnoddau naturiol

- 2.78 Fel y nodwyd yn yr adran ddiffiniadau (gweler NRM1), yr allbwn a ddymunir o'r broses rheoli adnoddau naturiol yn integredig yw rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae hyn yn golygu'r camau y mae angen eu cymryd ar y cyd (gan gynnwys peidio â gweithredu) i reoli'r gwaith o gynnal, gwella a defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd, neu ar gyflymder, sy'n galluogi pobl a chymunedau i ddarparu ar gyfer eu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yng Nghymru.
- 2.79 Rydym yn cydnabod bod CNC yn un o blith nifer o sefydliadau sy'n ymwneud â chyflawni'r camau hynny. Mae angen rhannu'r cyfrifoldeb a'r berchenogaeth dros gynllunio a rheoli adnoddau naturiol.
- 2.80 Ar hyn o bryd, rhaid i gyrrff cyhoeddus ystyried amrywiaeth eang o ddata, tystiolaeth a chyngor amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau. Ni fydd y rhain yn cael eu hystyried mewn ffordd amserol ym mhob achos.
- 2.81 Mae mecanweithiau ar gael (er enghraifft, yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd) sy'n cynnwys tystiolaeth amgylcheddol yn y broses benderfynu o'r dechrau ac yn sicrhau bod cynlluniau a rhaglenni'n rhoi'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mwyaf posibl. Fodd bynnag, yr her yn aml yw dadansoddi'r holl dystiolaeth sydd ar gael a'i chyflwyno mewn ffordd sy'n esbonio'r holl gyfleoedd a manteision sydd ar gael, boed y rheini â gwerth ariannol neu beidio.

-
- 2.82 Y bwriad yw bod Bil yr Amgylchedd yn helpu i oresgyn yr her hon drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gydweithredu, rhannu gwybodaeth, cydgynllunio ac adrodd ar y cyd ar reolaeth ar adnoddau naturiol. Bydd camau i wrthsefyll neu liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn elfen allweddol yn y broses hon.
- 2.83 Rhaid i hyn sicrhau:
- Bod gofyniad i'r gyrff priodol ddod at ei gilydd i helpu CNC i ddefnyddio dull rheoli ar sail ardal i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
 - Bod CNC yn gallu cydweithio ag eraill i sicrhau sylfaen dystiolaeth gyson ar gyfer ei waith;
 - Bod yr agenda ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei phennu drwy gydweithredu a bod blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd yn cael eu hystyried o'r dechrau;
 - Y bydd sefydliadau'n helpu CNC i adrodd ar y camau gweithredu a gyflawnir, er mwyn cyfrannu at adroddiadau ar sefyllfa adnoddau naturiol.
- 2.84 Er enghraifft, bydd y cyngor y mae CNC yn ei roi i Fyrddau Gwasanaethau Lleol yn gyson ac yn berthnasol i'r materion sydd wedi'u nodi yn yr asesiadau o anghenion lleol. Os cyflwynir y dystiolaeth mewn ffordd gyson a bod gofyniad i gydgyllunio, yna mae'n fwy tebygol y bydd yn cael ei hystyried. Drwy wneud hyn, gall rheoli ar sail ardal helpu i ddarparu tystiolaeth ar gyfer cynlluniau integredig unigol (CIUau) (gweler y Rhestr Termu a pharagraff 1.30). Gellir ystyried, er enghraifft, ar yr effaith ddaearyddol o risgiau, fel digwyddiadau difrifol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, ar faterion sydd wedi'u nodi yn yr Asesiad Anghenion Strategol, er enghraifft gofal am bobl sy'n agored i niwed.
- 2.85 Bydd y cynnig hwn yn galluogi CNC i gasglu tystiolaeth ychwanegol i'w helpu i roi ystyriaeth lawnach i'r manteision economaidd a chymdeithasol a geir o adnoddau naturiol ac i iechyd a chryfder yr ecosystemau sy'n eu cynnal. Caiff dull rheoli ar sail ardal ei ddisgrifio mewn ffordd fydd yn dangos yn glir y camau gweithredu y gall eraill eu cymryd a sut y bydd y rhain yn cyflawni amcanion sefydliadau eraill, yn ogystal â'i amcanion ei hun. Bydd hyn yn rhoi'r gallu i wneud gwell penderfyniadau drwy sicrhau bod tystiolaeth yn agored ac ar gael yn rhwydd.
- 2.86 Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, ein bwriad yw y bydd Bil yr Amgylchedd hefyd yn cyflwyno pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo gyrff eraill i gydweithredu, rhannu gwybodaeth,

cydgyllunio ac adrodd ar y cyd ar reolaeth ar adnoddau naturiol, os nad ydynt yn gwneud hynny.

- 2.87 Ni fydd y cynnig hwn yn rhoi dyletswydd benodol ar gyrff cyhoeddus i roi sylw i hyn, ond yn hytrach yn egluro'r pwysigrwydd o gydweithio mor gynnar â phosibl i rannu tystiolaeth, cydgyllunio a mynd â'r maen i'r wal o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru.
- 2.88 Ar ôl rhoi'r mesurau hyn ar waith, bydd fframwaith clir ar gyfer cydweithredu gan gyrff cyhoeddus a CNC. Mae'r dull hwn o weithredu wedi'i ddylunio i gyd-fynd â'r cynigion ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n ceisio sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn rhan hanfodol o benderfyniadau cyhoeddus ar lefel uchel a chynigion yn y Bil Diwygio Cynllunio, sy'n ceisio hybu cyfranogi cynharach mewn materion cynllunio mwy strategol.

Materion trawsffiniol

- 2.89 Cynigir bod y gofyn hwn yn gymwys i'r holl gyrff cyhoeddus, gan gynnwys ymgymrwyr statudol, sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Ar gyfer ardaloedd lle y mae rheoli adnoddau naturiol yn galw am gamau gweithredu ar draws ffiniau cenedlaethol, neu lle y mae goblygiadau mewn ymyriadau yng Nghymru i ardaloedd ar draws y ffin, bydd yn ofynnol i CNC ymgynghori â'r cyrff perthnasol. Mae trefniadau wedi'u gwneud yn barod ar gyfer cydweithredu trawsffiniol ag Asiantaeth yr Amgylchedd (Erthygl 7 o'r Gorchymyn Swyddogaethau) a thrwy'r Memoranda Cydddealltwriaeth perthnasol â chyrff amgylcheddol eraill, ac mae'n bosibl y bydd angen adolygu'r rhain.

NRM6: Mecanwaith ar gyfer adrodd ar gynnydd tuag at wireddu'r canlyniadau a blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer adnoddau naturiol

- 2.90 Yn yr un modd â'r cynigion ar gyfer Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd Bil yr Amgylchedd yn darparu ar gyfer casglu a chyflwyno tystiolaeth am y tueddiadau presennol a thueddiadau dichonol yn y dyfodol ac am y pwysau ar adnoddau naturiol Cymru, a fydd yn effeithio yn y pen draw ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- 2.91 Bydd y fframwaith deddfwriaethol newydd hwn hefyd yn galluogi CNC i gasglu tystiolaeth am y systemau rheoli amgylcheddol presennol er mwyn cael gwybod, er enghraifft, pa mor addas ydynt i sicrhau dull integredig o reoli adnoddau naturiol ac i roi argymhellion i Weinidogion (un ai drwy'r mecanweithiau a ddisgrifir ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol neu drwy arfer ei swyddogaeth bresennol ar gyfer cyflwyno argymhellion) ynghylch newidiadau angenrheidiol mewn deddfwriaeth, gweinyddu neu bolisi ar gyfer y dyfodol.

-
- 2.92 Rydym yn cynnig mai'r mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer adrodd fydd un sy'n gyson â'r cynigion ar gyfer Bil Cenedlaethau'r Dyfodol ond bydd angen hefyd iddo fodloni gofynion eraill ar gyfer adrodd, er enghraifft, gofynion y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, yr adroddiad cynnydd blynyddol ar y Newid yn yr Hinsawdd neu adroddiadau mwy cyffredinol fel Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU.
- 2.93 Ein bwriad yw y bydd Bil yr Amgylchedd yn rhoi dyletswydd newydd ar CNC i adrodd ar gynnydd tuag at reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ac, yn benodol, ar effeithiolrwydd y CNC a chyrrff eraill wrth ddefnyddio eu holl swyddogaethau i wireddu'r blaenoriaethau a bennwyd drwy'r dull ar sail ardal. Wrth wneud hyn, rhaid i CNC chwilio am ffyrdd o integreiddio'r gwahanol ofynion ar gyfer adrodd sy'n gymwys iddo ar hyn o bryd.
- 2.94 Yn ogystal â hyn, yng nghyswllt cynigion i ddatblygu dull rheoli ar sail ardal a phennu blaenoriaethau i reoli adnoddau naturiol ar sail ardal (gweler NRM3 ac NRM4), gallai CNC roi argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch cyfleoedd i symleiddio'r prosesau presennol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Yn yr un modd, yng nghyswllt y cynnig i roi pwerau arbrofol i CNC ar gyfer treialu gwahanol ddulliau o reoli a thrwyddedu (gweler NRM7), bydd cyfle i gasglu tystiolaeth ar gyfer dadleuon o blaid newidiadau mewn deddfwriaeth yn y dyfodol os gwelwyd, wrth arfer y pwerau hyn, mai hynny yw'r unig ffordd i sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau.

Trosolwg ar effaith bosibl y cynigion

- 2.95 Rhagwelir ei bod yn debygol y bydd y cynigion yn y Papur Gwyn hwn i gyflwyno proses integredig ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol yn niwtral o ran cost ac y gallent greu arbedion effeithlonrwydd dros gyfnod hwy. Prif bwrpas y ddeddfwriaeth hon yw darparu fframwaith a fydd dros amser yn cymryd lle'r elfennau arwyddocaol sydd ar hyn o bryd yn rhan o gamau gwahanol ar gyfer paratoi cynlluniau i reoli adnoddau naturiol ar y lefel leol. Y nod fydd symleiddio fframweithiau cynllunio ar gyfer rheoli adnoddau naturiol, yn hytrach na chreu rhai newydd.
- 2.96 Mae gwaith yn mynd ymlaen i chwilio am gyfleoedd i resymoli a symleiddio prosesau ac i gyfuno swyddogaethau statudol ac anstatudol eraill sy'n cael eu cyflawni gan CNC. Un agwedd ar y gwaith hwn, sy'n rhan o raglen datblygu sefydliadol CNC, yw asesu swyddogaethau presennol CNC ar gyfer rheoli adnoddau naturiol a lefelau presennol y costau ar gyfer staff a rhaglenni i gyflawni hyn. Yn ogystal â hyn, bydd cyfleoedd i edrych ar y newidiadau arfaethedig yn y sector cynllunio defnydd tir er mwyn nodi cyfleoedd i symleiddio (er

enghraifft, drwy gynnwys datblygwyr yn gynnar cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio).

- 2.97 Mae'n bosibl y bydd y cynigion ar gyfer dull rheoli ar sail ardal yn golygu bod angen i CNC weithio mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys dulliau mwy cyfranogol a chydweithredol a rhagwelir y bydd goblygiadau o ran gallu diwylliannol a sgiliau. Mae nifer o'r goblygiadau hyn wedi'u nodi eisoes, a chymerir camau i ddelio â nhw, fel rhan o'r gwaith presennol ar gyfer cynllunio busnes a datblygu sefydliadol, drwy'r rhaglenni rheoli newid yn y corff newydd.
- 2.98 Gellid cael goblygiadau anuniongyrchol drwy'r galw am adnoddau mewn sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector sy'n cymryd rhan mewn prosesau cynllunio mwy cydweithredol ar gyfer adnoddau naturiol. Fodd bynnag, mae sylwadau cynnar gan randdeiliaid yn awgrymu bod y manteision o ddull mwy cydweithredol yn cyfiawnhau ymgysylltu a chyfrannu o flaen llaw; y gallai leihau'r tebygolrwydd o her yn ddiweddarach ac y gallai sicrhau dull cyson o weithredu ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat ehangach.
- 2.99 Er enghraifft, rhai o'r manteision posibl i gyrrff cyhoeddus a rhanddeiliaid o gymryd rhan yn gynnar yng ngwaith CNC ar reoli adnoddau naturiol yw:
- Gallu datblygu sylfaen dystiolaeth gyson a chadarn yn gynnar ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ac Asesiadau Amgylcheddol Strategol;
 - Cyfleoedd i edrych yn strategol ar heriau a chyfleoedd amgylcheddol (er enghraifft, perygl llifogydd, cyflenwadau dŵr, gwneud defnydd o ecoleg a thirweddau) ar wahanol raddfeydd gofodol (o'r lleol i'r rhanbarthol), a fydd yn ychwanegu gwerth ac yn creu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd, budd i'r gymuned ehangach a gwelliannau amgylcheddol;
 - Cynnig mwy o sicrwydd bod cyfyngiadau ac effeithiau wedi'u pennu a bod modd eu lleihau gan roi mwy o hyder i fuddsoddwyr yn y gallu i ddatblygu ar safleoedd a ddyrannwyd.
- 2.100 Mae unrhyw oblygiadau o ran cost am weithredu'r cynigion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn debygol o ddod i ran Llywodraeth Cymru a CNC yn uniongyrchol. Fodd bynnag, er y bydd y dyletswyddau a swyddogaethau cychwynnol yn dod ar ben y dyletswyddau presennol, y prif nod wrth eu dylunio oedd integreiddio a symleiddio. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio'n agos â CNC i ddatblygu'r cynigion, gan ystyried unrhyw oblygiadau ariannol. Ar hyn o bryd rydym yn rhag-weld y bydd y cynigion yn arbed costau i Lywodraeth Cymru a CNC yn y tymor canolig a hir ac y gellid cael arbedion tymor hir o'u gweithredu'n llwyddiannus i gyrrff cyhoeddus eraill.

2.101 Er enghraifft, drwy gynnwys ystyriaeth i gamau i wrthsefyll a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn y cynigion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig, bydd Llywodraeth Cymru a chyrrff y sector cyhoeddus yn arbed costau yn y tymor hwy drwy'r manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, a fydd yn fwy o lawer na'r costau o beidio â gweithredu yn y dyfodol. Byddwn yn ceisio mesur y manteision hyn drwy'r gwaith sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd i bennu cyfleoedd i integreiddio mesurau i gryfhau'r amgylchedd a defnyddio adnoddau'n effeithlon o fewn y prosesau presennol.

Cwestiynau ymgynghori

1. A ydych yn cytuno â'r pecyn cyfan o gynigion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol a ddisgrifir ym mhennod 2? (NRM 1, 2, 3, 4, 5, 6)
2. A ydych yn cytuno â'r ffordd o ddiffinio adnoddau naturiol, rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol yn integredig yng Nghymru?
3. A ydych yn cytuno y dylid cynnwys cynlluniau i wrthsefyll a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn y dull rheoli adnoddau naturiol yn integredig ar y lefel genedlaethol a'r lefel leol?
4. A ydych yn cytuno y dylid dilyn cylch pum mlynedd ar gyfer pennu canlyniadau cenedlaethol a champau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol, fel ag a nodir ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol?
5. A ydych yn cytuno y bydd y dull rheoli ar sail ardal yn helpu i sicrhau dull o weithredu sy'n glir, yn fanwl ac sy'n dilyn blaenoriaethau?
6. A ydych yn cytuno bod y dull yn ddigon hyblyg i allu disodli elfennau arwyddocaol o'r cynlluniau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn y dyfodol?
7. A ydych yn cytuno â'r bwriad i osod gofyn ar gyrff cyhoeddus eraill i gydweithredu gyda'r dull rheoli ar sail ardal?
8. A ydych yn cytuno y dylai CNC fod yn awdurdod adrodd arweiniol ar gyfer adnoddau naturiol?
9. A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y cynigion hyn (er enghraifft, effeithiau ar eich sefydliad)?

Pennod 3: Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyfleoedd newydd i gyflawni ei ddiben

Crynodeb

Rydym yn disgrifio nifer o gynigion yn y bennod hon sy'n rhoi swyddogaethau a dyletswyddau statudol newydd i CNC i'w helpu i gyflawni ei ddiben canolog ac yn creu'r fframwaith newydd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig. Bydd yr offer deddfwriaethol hyn yn helpu i brofi a threialu dulliau arloesol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig a'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.

Mae'r bennod hon yn cynnwys cynnig hefyd ar gyfer newid deddfwriaethol yn y dyfodol i roi mwy o allu i reoli adnoddau naturiol yn integredig. Ei bwrpas yw delio â rhwystrau a welwyd sy'n cyfyngu ar allu CNC i gyflawni ei ddiben lefel uchel, sef sicrhau bod yr amgylchedd ac adnoddau naturiol yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy.

Cyf	Cynigion
NRM7	Pwerau i alluogi CNC i dreialu dulliau arloesol o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, er mwyn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.
NRM8	Hyrwyddo rolau CNC er mwyn sbarduno'r defnydd o fecanweithiau'r farchnad i dalu am wasanaethau ecosystemau.
NRM9	Pwerau newydd i CNC wneud cytundebau rheoli â pherchenogion tir a busnesau er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
NRM10	Ymchwilio i bwerau newydd i weithredu Rheolau Rhwymo Cyffredinol.
NRM11	Pwerau i egluro'r cysoni rhwng dyletswyddau CNC a deddfwriaeth sylfaenol arall a'r diben lefel uchel newydd.

Cyfleoedd i weithio mewn ffyrdd arloesol

NRM7: Pwerau i alluogi CNC i dreialu dulliau arloesol o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, er mwyn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.

- 3.1 Roedd y cynigion yn y bennod flaenorol yn dangos y seiliau deddfwriaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy weithio mewn ffordd fwy integredig. Bydd yn bwysig bod egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig yn cael eu cymhwyso lle bynnag y bo modd wrth gyflawni swyddogaethau a dyletswyddau presennol CNC, yn ogystal â'r dyletswyddau arfaethedig newydd.
- 3.2 Fodd bynnag, gellid cael achosion lle na fydd hyn yn bosibl, neu lle y bydd yn fwy anodd, oherwydd terfynau ar swyddogaethau presennol CNC neu o ganlyniad i arferion gweithredu sefydledig. Yn ogystal â hyn, er mwyn gallu rheoli adnoddau naturiol yn integredig, bydd angen defnyddio rhai dulliau newydd a gwahanol, rhai ohonynt heb eu profi o'r blaen.
- 3.3 Credir y dylai CNC gael pwerau arbrofol i brofi a threialu dulliau arloesol. Er y bydd yn rhaid i'r pwerau hyn fod o fewn cwrpas y swyddogaethau sydd gan CNC ar hyn o bryd, dylent gael eu dylunio i'w helpu ymhellach i gyflawni ei brif ddiben ac, yn benodol, i hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol (fel ag a nodir yn y diffiniad yn NRM1).
- 3.4 Mae pwerau arbrofol gan CNC yn barod i ffurfio a chyflawni cynlluniau neu brosiectau arbrofol. Mae'r rhain yn deillio o Ddeddf Cefn Gwlad (1968) a'u pwrpas cyffredinol yw hwyluso mwynhad o gefn gwlad, neu warchod neu wella ei harddwch naturiol neu amwynderau. Mae hyn yn cynnwys datblygu neu gymhwyso dulliau neu gysyniadau newydd sy'n dangos bod y cynllun dan sylw yn addas ar gyfer cefn gwlad yn gyffredinol neu ar gyfer ardal benodol. Er mwyn sefydlu cynllun neu brosiect, caiff CNC ddibynnu hefyd ar swyddogaethau cysylltiedig cyffredinol yn Erthygl 9 o'r Gorchymyn Sefydlu.
- 3.5 Mae'r pwerau presennol wedi'u cyfyngu i'r dibenion uchod yn unig, ond gallent fod o ddefnydd wrth ystyried y cyfleoedd a'r heriau ar lefel ardal.
- 3.6 Bwriad y cynnig yw egluro a chreu nifer o bosibiliadau ychwanegol, er enghraifft:
 - Y gallu i roi prawf ar ddulliau integredig newydd o drwyddedu, fel cydweithredu rhwng gwahanol weithredwyr yn hytrach na'u rheoleiddio'n unigol;

-
- Cynlluniau masnachu dalgylch – yn enwedig yng nghyswllt Talu am Wasanaethau Ecosystemau (gweler NRM8);
 - Treialu dulliau technegol o drwyddedu dros gyfnod byr er mwyn caniatáu arloesi technegol (gan gydnabod bod rhai pwerau ar gael eisoes yng nghyswllt y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol a'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol);
 - Ymgeisio am wahanol fathau o ganiatâd yr un pryd – gan gofio nad hyn fydd y dewis gorau i bawb sy'n gysylltiedig ym mhob achos;
 - Mesur effaith reoliadol y dulliau newydd sy'n neilltuo i Gymru.
- 3.7 O dan y cynnig hwn, er y bydd CNC yn gyfrifol am ddatblygu a dylunio unrhyw gynlluniau newydd, bydd yn ofynnol iddo gael cymeradwyaeth ffurfiol gan Weinidogion Cymru i delerau'r cynllun cyn gallu defnyddio'r pwerau arbrofol. Rydym hefyd yn cynnig y bydd yn ofynnol i CNC ymgynghori â phartion perthnasol ar ddyluniad y cynllun. Drwy wneud hyn, bydd yn bosibl ystyried holl oblygiadau'r cynllun ar y dechrau a thynnu sylw ar y defnydd arfaethedig o'r pŵer.
- 3.8 Ar ôl rhoi cynllun arbrofol ar waith, bydd yn ofynnol i CNC adrodd ar holl ganlyniadau a chasgliadau'r cynllun. Os bydd tystiolaeth yn awgrymu y dylid rhoi'r cynllun arbrofol ar waith mewn rhannau ychwanegol o Gymru ac os dangosir mai newid mewn deddfwriaeth fydd yr unig ffordd o gyflawni hyn, yna caiff Gweinidogion Cymru arfer eu pŵer galluogi (sydd wedi'i ddisgrifio yng nghynnig NRM11) i wneud hyn.
- 3.9 Bydd angen gofal wrth ddylunio cynlluniau arbrofol i sicrhau na fyddant yn torri gofynion yng nghyfraith yr UE na rhwymedigaethau rhyngwladol eraill, gan gynnwys rhai yn y cynllun ei hun. Rydym yn derbyn bod yr angen i gydymffurfio â deddfwriaeth yr UE yn debygol o gyfyngu cyfleoedd i dreialu mewn rhai ardaloedd oherwydd, mewn nifer o achosion, mae'r dibenion sy'n caniatáu rhanddirymu o dan gyfraith yr UE wedi'u diffinio'n fanwl iawn.

NRM8: Hyrwyddo rolau CNC er mwyn sbarduno'r defnydd o fecanweithiau'r farchnad i dalu am wasanaethau ecosystemau

Ffigur (vi) Gwasanaethau ecosystemau

Gwasanaethau ecosystemau yw'r gwasanaethau a geir o'r amgylchedd naturiol sy'n dod â budd i bobl. Ymhlith y rhain mae adnoddau naturiol ar gyfer byw, fel aer a dŵr glân; prosesau naturiol, fel y rhai sy'n dylanwadu ar yr hinsawdd ac yn peillio cnydau; deunyddiau crai ar gyfer diwydiant ac amaethyddiaeth; y cyfraniad at iechyd corfforol a meddyliol da, er enghraifft drwy gael mynediad i fannau gwyrdd, a manteision cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol o'n rhyngweithio â byd natur.

Derbynnir bod cynnal, gwella ac adfer gwasanaethau ecosystemau yn hanfodol ar gyfer twf economaidd cynaliadwy, cymunedau ffyniannus a hyrwyddo lles yng Nghymru.

Er bod gwerth ariannol clir ar y farchnad i rai o'r gwasanaethau hyn, fel bwyd a phren, mae gwasanaethau eraill, fel rheoli dŵr a llifogydd, hidlo llygredd a pheillio, sydd yr un mor bwysig i'n lles parhaol, heb werth ariannol clir o'r fath. Mae hyn wedi creu diffyg cydbwysedd yn y ffordd o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd naturiol, gan fod y gwasanaethau 'cudd' hynny sydd heb werth penodol yn debygol o gael eu tanddarparu neu eu camddefnyddio. Yn yr Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2011, nodwyd bod gwasanaethau peillio yn y DU, er enghraifft, yn werth £430 miliwn y flwyddyn¹².

Talu am Wasanaethau Ecosystemau (TWE) yw un o'r prif ffyrdd o greu marchnad er mwyn rhoi gwerth ar y gwasanaethau a geir o adnoddau naturiol. Drwy gynlluniau TWE, rhoddir taliadau i reolwyr tir neu adnoddau naturiol eraill yn gyfnewid am ddarparu gwasanaethau ecosystemau penodol sy'n fwy na'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu fel arall os na fyddai taliadau ar gael. Gellir cael y taliadau gan fuddiolwyr y gwasanaethau dan sylw, er enghraifft, unigolion, cymunedau, busnesau neu lywodraethau sy'n gweithredu ar ran gwahanol bartion.

Mae adroddiad terfynol y Tasglu Marchnadoedd Ecosystemau ym Mawrth 2013¹³ yn disgrifio'r cyfleoedd busnes posibl mewn pedwar maes cyffredinol: y cylch dŵr, y cylch bwyd, marchnadoedd carbon a natur a chyfalaf naturiol: prinder a chryfder adnoddau.

¹² UK National Ecosystem Assessment, (2011), The UK National Ecosystem Assessment: Synthesis of the Key Findings. UNEP - WCMC, Caergrawnt.

¹³ Realising nature's value: The Final Report of the Ecosystem Markets Task Force, (2013)

-
- 3.10 Er mwyn cyfrannu at les economaidd Cymru a diogelu'r adnoddau naturiol y mae twf economaidd yn dibynnu arnynt, mae'n bwysig cydnabod gwerth y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ein cyfalaf naturiol.
- 3.11 Mae nifer o enghreifftiau o brosiectau arbrofol sy'n ystyried dulliau o brisio Gwasanaethau Ecosystemau ac yn ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu marchnadoedd, neu "brynwyr" ar gyfer y gwasanaethau hyn. Un enghraifft yw'r prosiect Pumlumon Living Landscapes¹⁴ sy'n cael ei arwain gan Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn, sy'n ymchwilio i'r gwerth y mae adfer mawndiroedd a dal dŵr a charbon yn ei roi i gymunedau a busnesau ar dir is. Enghraifft arall yw Menter Mynyddoedd Cambria¹⁵ sy'n ystyried datblygu marchnadoedd premiwm ar gyfer Cig Oen Mynyddoedd Cambria, ac yn ymchwilio i'r cyfleoedd sydd gan berchenogion tir i greu incwm drwy reoli dŵr a thwristiaeth.
- 3.12 Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai CNC chwarae mwy o ran mewn hwyluso neu 'froceru' cynlluniau TWE, drwy achredu a darparu sicrwydd ar gyfer cynlluniau, neu drwy ddarparu cyngor a gwybodaeth i eraill.
- 3.13 Mae pedair prif rôl sy'n cyfrannu fel arfer at ddylunio a gweithredu cynllun TWE:
- **'prynwyr'**: buddiolwyr gwasanaethau ecosystemau sy'n barod i dalu am eu diogelu, eu gwella neu eu hadfer;
 - **'gwerthwyr'**: rheolwyr tir ac adnoddau sy'n gallu sicrhau cyflenwad o'r gwasanaeth buddiol drwy eu gweithgarwch;
 - **'cyfryngwyr'**: sy'n gallu dod â phrynwyr a gwerthwyr at ei gilydd drwy fod yn asiant a helpu i ddylunio a gweithredu cynlluniau;
 - **'darparwyr gwybodaeth'**: ymhlith y rhain y mae arbenigwyr ar reoli adnoddau, priswyr arbenigol, cynllunwyr defnydd tir, rheoleiddwyr, cynghorwyr busnes a chynghorwyr cyfreithiol sy'n gallu darparu gwybodaeth hanfodol ar gyfer datblygu cynlluniau.
- 3.14 Bydd CNC yn chwarae rhan bwysig mewn datblygu marchnadoedd i wasanaethau ecosystemau a bydd yn bosibl iddo hyrwyddo unrhyw un o'r rolau uchod. Er enghraifft, gallai CNC brynu gwasanaethau er budd i'r cyhoedd, neu hwyluso "masnach" mewn gwasanaethau rhwng perchenogion tir a busnesau preifat.

¹⁴ Prosiect Pumlumon Living Landscapes, <http://www.montwt.co.uk/pumlumon.html>

¹⁵ Menter Mynyddoedd Cambria, <http://cambrianmountains.co.uk/>

-
- 3.15 Mae nifer o swyddogaethau presennol CNC eisoes yn caniatáu iddo weithredu yn y maes newydd hwn. Er enghraifft:
- mae Erthyglau 9 a 10B o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn rhoi pwerau i wneud cytundebau rheoli â rheolwyr tir ac i roi cymorth ariannol o dan gytundeb o'r fath (a gellir dadlau bod hyn yn ei alluogi i gyflawni rôl y prynwr);
 - mae Erthygl 10A y Gorchymyn Sefydlu yn rhoi pŵer i ddarparu cyngor a chymorth gan gynnwys cyfleusterau hyfforddi, i unrhyw berson ar unrhyw fater y mae gan CNC wybodaeth, sgiliau neu brofiad mewn cysylltiad ag ef (fel y 'cyfryngwr' a'r 'darparwr gwybodaeth');
 - mae Erthygl 12A(1)(a) o'r Gorchymyn Sefydlu yn caniatáu i CNC godi tâl am waith y mae'n ei gyflawni ac am wasanaethau a chyfleusterau y mae'n eu darparu (a gellir dadlau bod hyn yn caniatáu iddo gyflawni rôl y gwerthwr).
- 3.16 Fodd bynnag, nid oedd y pwerau hyn wedi'u bwriadu'n wreiddiol i'w defnyddio yng nghyd-destun TWE. Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i ymchwilio i'r fantais bosibl o greu pwerau newydd ar gyfer CNC i ddatblygu mecanweithiau marchnad er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Er enghraifft, drwy egluro pwerau presennol CNC yng nghyswllt rheoli tir, cynghori, achredu a phrynu neu werthu gwasanaethau, byddai CNC yn gallu hwyluso a sbarduno mwy o gyfleoedd i weithredu'n rhagweithiol a byddai hyn yn diffinio ei bwerau yn y maes hwn yn gliriach.
- 3.17 Efallai y bydd modd defnyddio'r pwerau arbrofol newydd o dan gynnig NRM7 i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer TWE, os oes cyfyngiadau ar y pwerau presennol. Fel arall, mae'n bosibl y gellir cyflwyno pŵer newydd ar wahân i addasu'r pwerau presennol i'w defnyddio ar gyfer TWE er mwyn datblygu mecanweithiau marchnad i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Rhagwelir y câi ymgynghoriad arall ei gynnal pe bai pŵer ar wahân yn cael ei gynnig.
- 3.18 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu astudiaeth i ystyried y cyfleoedd ar gyfer TWE yng Nghymru. Rydym yn bwriadu ystyried yr argymhellion o'r astudiaeth hon a'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wrth benderfynu ar ein cynigion terfynol am y rhan a fydd gan CNC mewn hwyluso mecanweithiau marchnad i sbarduno taliadau am wasanaethau ecosystemau.

NRM9: Pwerau newydd i CNC wneud cytundebau rheoli â pherchenogion tir a busnesau er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

- 3.19 Mewn cysylltiad â'r cynigion uchod ar bwerau arbrofol a gwasanaethau ecosystem (gweler NRM7 ac NRM8), mae nifer o amcanion ar gyfer rheoli tir y gall CNC eu cyflawni ar hyn o bryd drwy ddefnyddio cytundebau rheoli.
- 3.20 Mae cytundeb rheoli yn fecanwaith ariannol ar gyfer sicrhau cwrs gweithredu penodol rhwng dau barti ac fe'i defnyddir yn aml i sicrhau camau rheoli i warchod natur. Gan fod llawer o'r rhain yn gytundebau â daliadau tir amaethyddol, rhaid i'r taliadau o dan gytundebau rheoli fod yn gyson â rheolau'r UE ar Gymorth Gwladwriaethol ar gyfer taliadau i'r Sector Amaethyddol.
- 3.21 Un o brif ffynonellau'r pŵer i wneud cytundeb rheoli yw adran 39 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Yr unig ddibenion i gytundebau rheoli a wneir o dan yr adran hon yw gwarchod harddwch naturiol, amwynder neu hyrwyddo mwynhad y cyhoedd. Mae adran 39(3) yn nodi y caiff cytundeb rheoli fod ynghlwm wrth y tir, sy'n golygu bod y cytundeb yn rhwymo'r olynwyr yn nheidl y tir.
- 3.22 Hefyd caiff CNC ddefnyddio Erthyglau 9 a 10B o Orchymyn Sefydlu 2012 i wneud cytundebau rheoli. Mae Erthygl 9 yn darparu y caiff CNC wneud unrhyw beth yr ymddengys iddo ei fod yn gydnaws neu'n gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau ac mae hyn yn cynnwys gwneud cytundebau (Erthygl 9(2)(a)). Mae Erthygl 10B yn galluogi CNC i ddarparu cymorth ariannol, ar yr amod bod y cymorth yn gydnaws ag unrhyw amcan y mae'r corff yn ceisio ei gyflawni wrth arfer ei swyddogaethau. Mae Erthygl 10B hefyd yn galluogi CNC i roi grantiau neu fenthyciadau ac i osod amodau ar unrhyw grant neu fenthyciad.
- 3.23 Fodd bynnag, mae terfynau ar bwerau'r Gorchymyn Sefydlu. Er enghraifft, nid yw'n darparu y caiff cytundeb rheoli fod ynghlwm wrth y tir, felly ni fydd yr olynwyr yn nheidl y tir yn cael eu rhwymo gan gytundeb sydd wedi'i wneud o dan Erthyglau 9 a 10B oni bai fod modd ei gofrestru'n bridiant neu'n gyfyngiad gyda'r Gofrestrfa Tir. Mae hyn yn golygu na fydd sicrwydd bod y camau rheoli a gytunwyd yn parhau dros gyfnod hirach, os bydd perchenogaeth y tir yn newid.
- 3.24 Mae bylchau wedi'u nodi hefyd, fel y mesur i reoli llif dŵr drwy dir perchennog er mwyn rheoli perygl llifogydd, na fyddai'n dod o fewn cwmpas y pŵer yn Neddf Cefn Gwlad ac a allai fod yn gyfyngedig o dan y pwerau sydd gan CNC o dan Erthyglau 9 a 10B (hynny yw, ni fyddai ynghlwm wrth y tir). Mae mesurau o'r math hwn yn hanfodol i reoli perygl llifogydd yn y tymor hir. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylid gallu defnyddio cytundebau rheoli yn rhagweithiol i reoli

adnoddau naturiol yn integredig, mewn ffordd sy'n gyson â rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ac yn adlewyrchu'r holl swyddogaethau sydd gan CNC.

- 3.25 Rydym yn cynnig rhoi pŵer newydd i CNC i wneud cytundebau rheoli ag unrhyw berchennog tir neu fusnes er mwyn sicrhau bod camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd y pŵer arfaethedig hefyd yn pennu bod rhaid cofrestru unrhyw gamau gweithredu'n bridiant tir lleol o dan Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975.
- 3.26 Dim ond ar gyfer yr amcanion y mae'r Corff yn ceisio eu cyflawni wrth arfer ei swyddogaethau y byddai'r pŵer ar gael,. Bwriedir unioni'r bylchau presennol, er enghraifft o ran y gallu i sicrhau trefniadau tymor hir a dibynadwy i reoli perygl llifogydd, fel na fydd yn rhaid dibynnu ar amddiffynfeydd caled traddodiadol.

NRM10: Ymchwilio i bwerau newydd i weithredu Rheolau Rhwymo Cyffredinol

- 3.27 Mae arferion rheoli tir trefol a gwledig yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar ein hamgylchedd. Gall y broses o erlyn am drosedd sy'n ymwneud â llygredd o dan y pwerau presennol fod yn un hir iawn gan alw am lawer o adnoddau. Mae angen dulliau rheoleiddio eraill sy'n mynd law yn llaw â'r fframwaith presennol, ond sydd hefyd yn cynnwys ffyrdd symlach o hysbysu pobl am y camau i'w cymryd i osgoi llygredd.
- 3.28 Mae Rheolau Rhwymo Cyffredinol yn swyddogaeth rheoleiddio lefel is na fydd angen trwyddedau neu ganiatadau ffurfiol ar ei chyfer bob amser a gallant hwyluso ffordd o reoleiddio sy'n fwy cyson a chymesur. Mewn llawer o achosion, mae pwerau gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn barod i wneud y rheolau hyn er enghraifft, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae Bil yr Amgylchedd a'r diffiniad o reoli adnoddau naturiol yn integredig, yn cynnig fframwaith defnyddiol ac ystyrion ar gyfer cymhwyso ac aildrefnu'r pwerau hyn a'r posibilrwydd o'u hymestyn.
- 3.29 Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried defnyddio Bil yr Amgylchedd i sicrhau pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth, drwy is-ddeddfwriaeth, ar gyfer Rheolau Rhwymo Cyffredinol mewn cysylltiad â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd cwmplas y pwerau hyn wedi'i gyfyngu gan y pŵer galluogi ac oherwydd eu natur, bydd angen o hyd am sefydlu offeryn statudol ar gyfer Rheolau Rhwymo Cyffredinol ac felly byddant yn parhau'n rhan o broses ddeddfwriaethol.

-
- 3.30 Mae'r drafodaeth a gafwyd â CNC a rhanddeiliaid eraill yn awgrymu y byddai defnyddio Rheolau Rhwymo Cyffredinol yn gallu helpu i leihau biwrocratiaeth, hwyluso datblygu a diogelu'r amgylchedd. Gan amlaf, ni fydd angen i bersonau neu sefydliadau cyfrifol gymryd unrhyw gamau i gydymffurfio â'r rheolau, gan y byddant wedi'u seilio ar arferion da cyffredin. Y camau sy'n debygol o gael eu cymryd yn erbyn rhai y ceir eu bod wedi torri'r rheolau yw gosod sancsiwn sifil cymesur neu hysbysiad cosb benodedig neu amrywiadwy.
- 3.31 Ein bwriad yw y bydd Bil yr Amgylchedd yn delio â'r meysydd y gellid sefydlu Rheolau Rhwymo Cyffredinol ar eu cyfer drwy roi'r pwerau angenrheidiol i Weinidogion. Ni fydd yn cynnwys manylion penodol yr holl reolau a sancsiynau, gan y byddai hyn yn fater ar gyfer is-ddeddfwriaeth.
- 3.32 Rydym yn derbyn y gallai'r cynnig hwn fod yn bellgyrhaeddol ac y gallai effeithio ar nifer mawr o bobl a sefydliadau. Felly rydym yn bwriadu gofyn am sylwadau drwy'r ymgynghoriad hwn yn gyntaf ac os ceir cytundeb cyffredinol arno, byddwn yn ymchwilio ymhellach. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymgynghori'n ehangach wedyn ar gwmpas y pwerau a fyddai'n sefydlu Rheolau Rhwymo Cyffredinol yng Nghymru ac ar y rheoliadau drafft eu hunain maes o law.

Newid deddfwriaeth yn y dyfodol

NRM11: Pwerau i egluro'r cysoni rhwng dyletswyddau CNC a deddfwriaeth sylfaenol arall a'r diben lefel uchel newydd

- 3.33 Bwriedir defnyddio Bil yr Amgylchedd i bennu diffiniadau o reoli adnoddau naturiol yn integredig a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru (gweler NRM1). Dyma'r cam cyntaf tuag at fframwaith deddfwriaethol mwy integredig ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- 3.34 Mae nifer o ddibenion a dyletswyddau eraill yn y ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer creu CNC, yn enwedig yng nghyswllt gwarchod natur, rheoli coedwigaeth ac atal a rheoli llygredd. Mae angen sicrhau bod digon o sylw i bwrpas lefel uchel CNC yn y ddeddfwriaeth sylfaenol y mae'n gyfrifol am ei chyflawni.
- 3.35 Pwrpas y cynnig hwn yw galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau penodol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, lle y gellir dangos bod y gyfraith fel y mae yn mynd yn groes i'r diffiniad, y diben a'r amcanion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig, ac ar ôl rhoi cynnig ar bob ffordd arall o ddelio â'r materion hynny. Wrth

wneud diwygiadau o'r fath, byddai'n rhaid sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i gwrdd â rhwymedigaethau i'r UE.

- 3.36 Lle ceir tystiolaeth glir bod angen newidiadau i fynd i'r afael â meysydd penodol o wrthdaro neu rwystr, yna ceisiwn adlewyrchu'r newidiadau, lle bo angen, yn nghorff Bil yr Amgylchedd.
- 3.37 Mae swm enfawr o ddeddfwriaeth ddomestig ac Ewropeaidd yn ymwneud â chyfraith amgylcheddol, er enghraifft yng nghyswllt rheoli perygl llifogydd. Cafwyd cydnabyddiaeth i hyn yn Adolygiad Pitt¹⁶ (2008) ac un o'i brif argymhellion oedd creu un Ddeddf i gydgrynhoi'r holl ddeddfwriaeth ar lifogydd. Yn ogystal â Bil yr Amgylchedd, bydd angen deddfwriaeth bellach i barhau i ddiwygio ac integreiddio meysydd allweddol yn y fframwaith deddfwriaethol er mwyn cyflawni'r amcan polisi o reoli adnoddau naturiol yn integredig yng Nghymru.
- 3.38 Ein huchelgais ar gyfer y tymor hir yw cydgrynhoi deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Rydym yn derbyn, fodd bynnag, fod hyn yn galw am lawer o adnoddau ac felly, er mwyn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, byddwn yn arfer synnwyr cyffredin wrth ddelio ag unrhyw fesurau ac yn cynnwys darpariaeth ym Mil yr Amgylchedd i'n galluogi i "dacluso" deddfwriaeth cyn ystyried y posibilrwydd o gydgrynhoi.
- 3.39 Yn ogystal â pharatoi ar gyfer y posibilrwydd o gydgrynhoi deddfwriaeth, bydd y gallu a fydd gan Weinidogion Cymru i wneud diwygiadau i ddileu gwahaniaethau rhwng y diffiniad, y diben a'r amcanion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn integredig a'r ddeddfwriaeth sy'n pennu swyddogaethau CNC, yn hwyluso dull o reoleiddio amgylcheddol sy'n fwy ymaddasol, yn fwy cyson ac yn fwy unol â'r dystiolaeth.
- 3.40 Ar hyn o bryd rydym yn cynnig cyfyngu'r diwygiadau i swyddogaethau CNC. O dan yr opsiwn hwn, rhagwelir y bydd Bil yr Amgylchedd (ar yr amod bod cymhwysedd deddfwriaethol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer hyn) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol sydd wedi'i rhestru yn Atodlen 2 i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013.
- 3.41 Bydd y cynnig yn cynnwys gofyniad sy'n golygu na ellir gwneud Gorchymyn heb yn gyntaf cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrafft o'r Gorchymyn ac eglurhad o effaith unrhyw newidiadau a wneir a sut y byddant yn hwyluso unrhyw gydgrynhoi arfaethedig yn y dyfodol a gosod y Gorchymyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd

¹⁶ The Pitt report: Learning lessons from the 2007 floods (2008)
http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100807034701/http://archive.cabinetoffice.gov.uk/pittreview/thepittreview/final_report.html

hyn yn sicrhau bod unrhyw oblygiadau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig mewn Gorchymyn yn cael eu hystyried a'u trafod.

- 3.42 Mae cynnig wedi'i ddisgrifio ym mhennod 5 isod (gweler SM4), sy'n debyg ond yn benodol ac ar wahân, i roi pŵer i Weinidogion Cymru i gydgrynhoi deddfwriaeth sylfaenol ynghylch dŵr o flaen llaw. Y cynnig yw diwygio Adran 47 i roi pŵer i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio Deddf Dŵr drwy wneud gorchymyn, os ydynt wedi'u bodloni:
- i. y bydd hynny'n ei gwneud yn haws cydgrynhoi un neu ragor o'r Deddfau Dŵr;
 - ii. bod prif effaith y newid (os oes un) yn gymesur â'r fantais a geir drwy gydgrynhoi'r ddeddfwriaeth. Dim ond os yw'r diwygiad yn ymwneud â mater yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 y ceir arfer y pŵer hwn. Hynny yw, rhaid iddo fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol;
 - iii. nad yw'n dileu unrhyw warchodaeth gan y gyfraith.
- 3.43 Gallai'r ddau gynnig hyn fod o gymorth mawr i gyflawni'r uchelgais o gydgrynhoi agweddau ar ddeddfwriaeth amgylcheddol yn y tymor hwy, fel ei bod yn cwrdd ag anghenion Cymru.
- 3.44 Cynnig ychwanegol sy'n cael ei ystyried felly yw cyfuno'r ddau gynnig sydd wedi'u disgrifio uchod ac ymestyn y cyfle i ddiwygio deddfwriaeth amgylcheddol, gan gynnwys mwy na'r Deddfau Dŵr neu swyddogaethau'r CNC yn unig. Byddai hyn yn destun i'r un amodau ag sydd ym mharagraff 3.41-3.42 (ii – iii) a byddai angen hefyd i'r gofyniad hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol (yn unol â'r diffiniad a gynigir yn NRM1).
- 3.45 Gofynnir hefyd am sylwadau ynghylch y ffordd hon o weithredu. Un o'r heriau fydd pennu pa Ddeddfau sy'n dod o fewn cwmpas y cynnig ychwanegol hwn.

Trosolwg ar effaith bosibl y cynigion

- 3.46 Wrth dreialu ffyrdd newydd ac integredig o reoli adnoddau naturiol, ni ragwelir y bydd cost i'r cyhoedd a disgwylir arbedion tymor hir, er enghraifft os bydd y dulliau trwyddedu amgen yn fwy effeithlon a llwyddiannus. Mae'n bosibl y bydd angen symiau bach ar gyfer datblygu cynlluniau newydd (gan gynnwys gwaith i fonitro a gwerthuso'r manteision), er ein bod yn rhag-weld y bydd arian o'r fath ar gael drwy newid blaenoriaeth y cyllid presennol.

-
- 3.47 Wrth dreialu ffyrdd o sicrhau taliadau am wasanaethau ecosystemau, rydym yn disgwyl y bydd CNC yn datblygu model busnes cynaliadwy ar gyfer unrhyw ddull gweithredu o'r fath. Mewn achosion penodol, gallai fod yn rhesymol defnyddio pwerau o dan Erthygl 12A(1)(a) o'r Gorchymyn Sefydlu (sy'n caniatáu i CNC godi tâl am waith a gyflawnwyd ac am nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau a ddarparwyd), felly gallai CNC adennill unrhyw gostau am gyflawni gweithgarwch rhesymol fel cyfryngwr drwy godi ffioedd gweinyddu.
- 3.48 Bydd y pwerau newydd arfaethedig ar gyfer defnyddio cytundebau rheoli yn rhoi mwy o gyfle i CNC ddefnyddio'r dull hwn. Dangoswyd bod gallu digonol eisoes gan CNC i drefnu i wneud cytundebau rheoli, felly credir bod y cynnig hwn yn niwtral o ran cost yn y cyd-destun hwnnw. Efallai y bydd angen newid y flaenoriaeth ar gyfer y cyllid presennol. Fodd bynnag, gyda golwg ar yr enghraifft a roddwyd ynghylch rheoli perygl llifogydd, byddai hyn yn golygu y gellid cyfeirio'r cyllid presennol ar gyfer rheoli perygl llifogydd drwy gyfrwng gwahanol.
- 3.49 Gallai costau godi ar y dechrau wrth feithrin dealltwriaeth a datblygu strwythurau addas ym musnes CNC i weithredu Rheolau Rhwymo Cyffredinol. Bydd angen asesu'r rhain ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill ac o fewn y cyllidebau presennol. Rydym yn rhag-weld y bydd dull mwy effeithlon o orfodi rheolau amgylcheddol yn debygol o helpu i leihau costau o fewn pum mlynedd neu y bydd yn niwtral o ran cost o leiaf. Mae'n bosibl y ceir manteision hefyd drwy helpu i osgoi achosion llys hir a chostus, heriau cyfreithiol ac adolygiadau barnwrol.
- 3.50 Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd pa bryd a sut y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu defnyddio'r pwerau galluogi sy'n cael eu gosod allan yn NRM11. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gostau neu effeithiau penodol a fydd yn dod i ran unrhyw gyrff cyhoeddus o ganlyniad i'r cynnig hwn. Bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â Gorchymyn a wneir wedyn yn cael eu pennu a'u hystyried mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân a gyflawnir drwy broses yr is-ddeddfwriaeth.

Cwestiynau ymgynghori

10. A ydych yn cytuno â'r cynigion a ddisgrifir ym mhennod 3 ynghylch ffyrdd newydd o weithio ar gyfer CNC?
11. Pa gyfyngiadau neu fesurau diogelu ar gyfer defnyddio pwerau allai fod eu hangen i CNC allu treialu dulliau arloesol o reoli adnoddau naturiol yn integredig?
12. A ydych yn cytuno mai CNC yw'r corff priodol i fod yn hwyluswyr, yn frocerwyr ac yn achredwyr mewn Cynlluniau Talu am Wasanaethau Ecosystemau? A ydych yn credu bod angen pŵer newydd i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer TWE?
13. Faint o bwerau ddylai fod gan CNC i wneud cytundebau rheoli?
14. Gan gydnabod bod yna rai pwerau eisoes yn bod yn hyn o beth, ble mae'r cyfleoedd i sefydlu Rheolau Rhwymo Cyffredinol y tu hwnt i hynny?
15. Gyda golwg ar bŵer diwygio Gweinidogion Cymru, a ydych yn cefnogi: a) y cynnig cyntaf i'w gyfyngu i swyddogaethau CNC, o dan yr amodau sydd wedi'u nodi neu b) y cynnig ychwanegol i gynnwys deddfwriaeth amgylcheddol ehangach, o dan yr amodau sydd wedi'u nodi, a pham?
16. Nodwch unrhyw dystiolaeth benodol o feysydd lle gallai fod gwrthdaro neu rwystr rhwng amcanion arfaethedig rheoli adnoddau naturiol yn integredig a'r deddfwriaeth sy'n cael ei gweithredu ar hyn o bryd.
17. A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y cynigion hyn, er enghraifft, ar eich busnes neu sefydliad?

Pennod 4: Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon

Crynodeb

Yn y bennod hon rydym yn disgrifio cynigion ar gyfer darpariaethau newydd mewn deddfwriaeth i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac, yn benodol, cyfleoedd i wneud newidiadau rhagweithiol mewn rheoliadau ar wahanu a chasglu gwastraff ac i roi'r gallu i wneud newidiadau yn y system codi tâl am fapiau siopa. Bydd y cynigion yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n codi wrth droi at economi wyrddach ac yn hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau.

Bydd y cynnig ar gyfer deddfwriaeth newydd ar wahanu a chasglu gwastraff yn helpu i hybu buddsoddi yn y dulliau mwyaf cynaliadwy o reoli gwastraff yng Nghymru ar gyfer y tymor hir. Mae'r cynnig ar fapiau siopa yn ceisio sicrhau mwy o hyblygrwydd i ymaddasu i unrhyw dueddiadau newydd ymysg defnyddwyr neu i unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r system codi tâl am fapiau siopa untro.

Cyf	Cynigion
RE1	Casglu ar wahân – sicrhau gwasanaeth casglu effeithiol
RE2	Didoli gwastraff gan gynhyrchydd y gwastraff
RE3	Gwahardd deunyddiau gwastraff penodedig o gyfleusterau troi gwastraff yn ynni
RE4	Gwahardd tirlenwi â deunyddiau penodedig
RE5	Gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd
RE6	Galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu drwy reoliadau ar gyfer pennu taliadau isaf am fathau eraill o fapiau siopa yn ychwanegol at y tâl isaf sydd wedi'i bennu ar hyn o bryd am fapiau siopa untro
RE7	Galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol, drwy reoliadau, fod gwerthwyr yn rhoi'r elw net o'r tâl at unrhyw achosion da, yn hytrach nag achosion da amgylcheddol yn unig

Rheoleiddio trefniadau i wahanu a chasglu Gwastraff

- 4.1 Rydym wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer ailgylchu (adennill deunydd) gwastraff yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, strategaeth wastraff gyffredinol Cymru:
- ailgylchu 70 y cant o'r gwastraff o gartrefi a busnesau masnachol a diwydiannol erbyn 2025;
 - ailgylchu 90 y cant o'r gwastraff o weithgareddau adeiladu a dymchwel erbyn 2019/20.
- 4.2 Drwy gyrraedd y targedau hyn, ceir canlyniadau cadarnhaol i'r economi, swyddi a'r amgylchedd a bydd:
- yn arbed costau i fusnesau drwy osgoi talu'r dreth tirlenwi;
 - yn gwneud busnesau'n fwy cystadleuol drwy leihau costau deunyddiau;
 - yn cynyddu cyflogaeth drwy greu swyddi ym maes casglu ac ailbrosesu;
 - yn sicrhau cyflenwad mwy diogel o adnoddau i'r sector gweithgynhyrchu;
 - yn helpu i sicrhau economi gylchol yng Nghymru wrth i fusnesau gweithgynhyrchu yng Nghymru ddefnyddio deunyddiau eildro a gasglwyd yng Nghymru;
 - yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;
 - yn lleihau ôl troed ecolegol Cymru.
- 4.3 Cafwyd cynnydd da ar ailgylchu, yn enwedig mewn cartrefi. Er hynny, parheir i anfon deunyddiau ailgylchadwy i safleoedd tirlenwi. Roedd yr arolwg diwethaf o wastraff masnachol yng Nghymru (yn 2007) yn dangos bod busnesau masnachol a'r sector cyhoeddus yn ailgylchu 38 y cant o'u gwastraff¹⁷. Nid oes tystiolaeth bod y lefelau hyn wedi cynyddu yn y cyfamser. Roedd yr arolwg diwethaf o wastraff gweithgareddau adeiladu a dymchwel (yn 2005) yn dangos bod 80 y cant o'r gwastraff yn cael ei ailgylchu¹⁸. Mae llawer o ddeunydd ailgylchadwy yn parhau i gael ei gymysgu â gwastraff na ellir ei ailgylchu, gan leihau ei werth ac atal ei ddefnyddio fel deunydd gwerthfawr mewn diwydiant. Er mwyn cadw gwerth uchel yr adnodd hwn, mae'n hanfodol bod deunydd ailgylchadwy'n cael ei gadw ar wahân i wastraff arall yn y ffynhonnell. Mae hyn yn ateb y galw yn y farchnad yng Nghymru am ddeunyddiau eildro o werth ac ansawdd uchel a dyma'r ffordd fwyaf cynaliadwy o sicrhau cyfraddau ailgylchu uchel ac economi gylchol.

¹⁷ Arolwg Gwastraff Diwydiannol a Masnachol a Gynhyrchwyd yng Nghymru – Asiantaeth yr Amgylchedd, (2009)

¹⁸ Arolwg Asiantaeth yr Amgylchedd o Wastraff Adeiladu a Dymchwel yng Nghymru, 2005-06.

-
- 4.4 Bydd y cynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd ym Mil yr Amgylchedd yn ategu offerynnau polisi eraill, fel y dreth tirlenwi, er mwyn cyrraedd y targedau ar gyfer ailgylchu yng Nghymru a hybu buddsoddi yn y dulliau mwyaf cynaliadwy o reoli gwastraff yng Nghymru ar gyfer y tymor hir. Bydd y cynigion yn effeithio ar wahanol bwyntiau yn y gadwyn gyflenwi – ar gynhyrchydd y gwastraff, ar y cwmni casglu gwastraff ac ar y gwahanol fannau lle y mae gwastraff yn cael ei waredu neu ei adennill yn derfynol (safleoedd tirlenwi a chanolfannau troi gwastraff yn ynni).
- 4.5 Bydd y cynigion yn sicrhau newid sylweddol yn y dull o reoli gwastraff yng Nghymru drwy'r camau canlynol:
- Sicrhau bod y mwyaf posibl o ddeunyddiau ar gael i'w hailgylchu;
 - Gwella ansawdd y deunyddiau sydd ar gael i'w hailgylchu;
 - Sicrhau na fydd deunyddiau y gellid bod wedi'u hailgylchu yn cael eu gwastraffu;
 - Diogelu'r amgylchedd drwy sicrhau mai dim ond ffrydiau gwastraff gweddilliol a gaiff eu gwaredu mewn safleoedd tirlenwi neu eu llosgi;
 - Rhoi mwy o sicrwydd ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith ar gyfer ailgylchu, casglu a thrin gwastraff.
- 4.6 Mae nifer o opsiynau gwahanol (deddfwriaethol ac anneddfwriaethol) wedi cael eu hasesu wrth ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth¹⁹ ar gyfer y cynigion hyn. Daethpwyd i'r casgliad mai opsiynau deddfwriaethol sy'n fwyaf tebygol o sicrhau'r canlyniad polisi hwn. Gwelwyd drwy foddelu²⁰ y ceir y canlyniadau gorau drwy gyfuno'r cynigion a dyma'r opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio.
- 4.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau cyn ymgynghori gyda busnesau a rhanddeiliaid eraill mewn llywodraeth leol ynglŷn â'r cynigion. Mae dealltwriaeth glir na ddylid gosod baich ychwanegol ar fusnesau ar adeg pan fo amodau economi'r DU yn rhoi pwysau masnachol difrifol arnynt. O ran effaith ymarferol, yn gyffredinol ni fydd gofyn i fusnesau wneud llawer mwy na'r hyn mae nifer ohonynt yn ei wneud eisoes drwy wahanu eu gwastraff ar gyfer ei gasglu. Mae'n debyg i'r hyn sy'n digwydd bellach mewn nifer o gartrefi, gan helpu Cymru i gyrraedd y cyfraddau ailgylchu trefol uchaf yn y DU.

¹⁹ Eunomia Research and Consulting, (2011) Options for the Segregation and Collection of Welsh I & C Waste, Report to the Welsh Government, Tachwedd 2011; Eunomia Research and Consulting, (2013) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending WFD requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on Food the Disposal of Food Waste to Sewer, Mai 2013

²⁰ Eunomia Research and Consulting, (Mai 2013) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending WFD requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on the Disposal of Food Waste to Sewer

-
- 4.8 O ran costau i fusnesau, mae ymchwil gan WRAP yn y sector lletygarwch wedi dangos bod costau ychwanegol yn debyg o fod yn isel, yn dibynnu i ba raddau mae cwmnïau rheoli gwastraff yn pasio'r manteision economaidd yn ôl ar hyd y gadwyn gyflenwi wrth brisio'u gwasanaethau. Mae gwaith ymchwil arall wedi tynnu sylw at gyfleoedd economaidd sy'n gysylltiedig â'r cynnig, sy'n helpu gyda'r galw yn y farchnad am ddeunydd eildro gwerthfawr, o ansawdd uchel. Dyma'r ffordd fwyaf cynaliadwy hefyd o sicrhau cyfraddau uchel o ailgylchu.
- 4.9 Bydd Llywodraeth Cymru'n comisiynu gwaith pellach i amcangyfrif costau'r cynigion i fusnesau unigol. Mae'r gwaith hwn yn digwydd wrth ochr y Papur Gwyn ac fe fydd yn bwydo i mewn i'r broses Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- 4.10 Felly mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am sylwadau am bob un o'r pum cynnig sydd wedi'u disgrifio isod:

RE1: Casglu ar wahân – sicrhau gwasanaeth casglu effeithiol

- 4.11 Un cynnig i sicrhau bod mwy o ddeunydd gwastraff ailgylchadwy yn cael ei ddioli gan gynhyrchwyr yw rhoi dyletswydd i wneud hyn ar y casglwr gwastraff. Mae deddfwriaeth bresennol²¹ yn ei gwneud yn ofynnol o 1 Ionawr 2015 fod unrhyw un sy'n casglu gwastraff yn casglu papur, gwydr, metel a phlastig ar wahân. Mae'r gofyniad hwn yn gymwys i bob math o wastraff – gwastraff domestig, masnachol a diwydiannol a gwastraff o weithgareddau adeiladu a dymchwel. Mae hyn yn amodol ar ddau brawf, sef a oes angen gwneud hyn i gydymffurfio â gofynion perthnasol yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ac a yw'n ymarferol ar sail dechnegol, economaidd ac amgylcheddol i gasglu'r deunyddiau ar wahân. Os na fydd y naill brawf neu'r llall wedi'i fodloni, yna ni fydd angen casglu deunyddiau ar wahân.
- 4.12 Er mwyn hyrwyddo ailgylchu o ansawdd uchel, rydym yn cynnig rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ymestyn y gofyniad am gasglu ar wahân i gynnwys deunyddiau penodedig. Mae gwastraff cardbord, pren a bwyd dan ystyriaeth ar hyn o bryd. Bydd hyn yn sicrhau bod gwasanaeth casglu cynhwysfawr ar gael i'r rheini sy'n cyflwyno gwastraff mewn ffrydiau ar wahân a bydd yn gwella'r gwasanaethau casglu ar gyfer cynhyrchwyr gwastraff eraill.
- 4.13 Cynigir y bydd y ddyletswydd hon yn cael ei rheoleiddio gan CNC.

²¹ Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr), 2011 (fel y'u diwygiwyd)

-
- 4.14 Mae Defra a Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn paratoi canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol o dan y Rheoliadau²² ynghylch yr hyn y mae'n ymarferol ei gasglu ar wahân ar sail dechnegol, economaidd ac amgylcheddol.
- 4.15 Er mwyn rhoi digon o amser i fusnesau baratoi ar gyfer y newidiadau, rydym yn cynnig na fydd y ddyletswydd yn dod i rym cyn 1 Ionawr 2017.

RE2: Didoli gwastraff gan gynhyrchydd y gwastraff

- 4.16 Un opsiwn ar gyfer sicrhau bod mwy o wastraff ailgylchadwy yn cael ei ddidoli yw rhoi dyletswydd ar yr holl gynhyrchwyr gwastraff heblaw cartrefi i gyflwyno eu gwastraff ailgylchadwy yn ffrydiau ar wahân i'w gasglu – er enghraifft, byddai'n ofynnol bod pob siop, swyddfa, ffatri, bwyty, safle adeiladu, ysgol ac ysbyty yn cyflwyno ei ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân. Mae gwaith modelu a wnaed wrth ddatblygu'r opsiynau hyn yn dangos mai'r cynnig hwn yw'r un sy'n debygol o sicrhau'r lefelau uchaf o ailgylchu a manteision economaidd.
- 4.17 Cynigir y dylid rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi'r ddyletswydd hon ar gynhyrchwyr gwastraff.
- 4.18 Y deunyddiau yr ydym yn eu hystyried ar hyn o bryd yw papur, cardbord, gwydr, plastig, metel, bwyd a phren. Y gofyniad sylfaenol fyddai didoli'r gwastraff yn ffrydiau ar wahân ar gyfer metel a phlastig, gwydr, papur a chardbord yn gymysg, gwastraff bwyd, pren a ffrwd weddilliol. Mae llawer o fusnesau eisoes yn didoli gwydr a phapur/cardbord o'r ffrwd weddilliol. Gellir gofyn prisiau uwch am ddeunyddiau ailgylchadwy glân sydd heb eu halogi yn y marchnadoedd deunyddiau eildro ac mae'n bosibl y bydd busnesau sy'n gwahanu eu gwastraff yn ffrydiau'n gweld bod modd lleihau'r costau am gasglu a gwaredu gwastraff. Bydd angen didoli gwastraff sy'n rhannol gymysg wrth ymyl y ffordd neu mewn Cyfleuster Adennill Deunydd ar yr amod bod didoli o'r fath yn cwrdd â gofynion Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011.
- 4.19 Cynigir y bydd y ddyletswydd hon yn cael ei rheoleiddio gan CNC.
- 4.20 Mae gwaith modelu²³ a wnaed ar y cynigion hyn yn rhagweld mai'r rhan hon fydd fwyaf manteisiol, o ran manteision lefel uchel i'r

²² Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr), 2011 (fel y'u diwygiwyd)

²³ Eunomia Research and Consulting, (Medi 2013) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending WFD requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on the Disposal of Food Waste to Sewer – Aggregated Outputs for Welsh Government

economi (£52 miliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd) ac i'r amgylchedd (2.4 miliwn tunnell o CO₂ a'i gyfatebol dros gyfnod o ddeng mlynedd). Nid yw'r gwaith modelu a wnaed hyd yma yn cynnig amcangyfrif o'r costau i fusnesau unigol. Fodd bynnag, comisiynwyd gwaith pellach i amcangyfrif cost debygol gwahanu gwastraff i fusnesau, gyda phwyslais ar fusnesau bach a chanolig (BBaCh). Disgwylir adroddiad ynghylch y gwaith hwn yn gynnar yn 2014.

RE3: Gwahardd deunyddiau gwastraff penodedig o gyfleusterau troi gwastraff yn ynni

4.21 Cynigir rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wahardd deunyddiau gwastraff penodedig o gyfleusterau troi gwastraff yn ynni. Pwrpas y gwaharddiad arfaethedig yw:

- Sicrhau na fydd deunyddiau/adnoddau ailgylchadwy gwerthfawr yn cael eu llosgi;
- Hyrwyddo dyletswyddau'r cynhyrchydd i wahanu a chasglu deunyddiau ar wahân – ni fydd gwastraff gweddilliol sy'n cynnwys deunyddiau penodedig yn cael ei dderbyn mewn cyfleusterau troi gwastraff yn ynni.

4.22 Y deunyddiau sydd dan ystyriaeth ar gyfer eu gwahardd o gyfleusterau troi gwastraff yn ynni yw: papur a chardbord sydd heb eu halogi, pren sydd heb ei drin, gwydr, metel, plastig a gwastraff bwyd. Byddai'r ddyletswydd i atal deunyddiau sydd wedi'u gwahardd rhag cael eu llosgi yn cael ei rhoi ar weithredwyr cyfleusterau troi gwastraff yn ynni a'r rheini sy'n anfon gwastraff i gyfleusterau o'r fath. Ni fyddai'r ddyletswydd hon yn gymwys i gyfleusterau treulio anaerobig. Byddai'r gwaharddiad hwn yn gymwys i ddeunyddiau o bob ffynhonnell: cartrefi, safleoedd masnachol a diwydiannol a busnesau adeiladu a dymchwel.

4.23 Byddai angen darparu canllawiau ar y lefelau halogi sy'n dderbyniol mewn gwastraff gweddilliol i alluogi gweithredwyr cyfleusterau troi gwastraff yn ynni a chasglwyr gwastraff i asesu a yw gwastraff yn dderbyniol mewn safleoedd troi gwastraff yn ynni ac i helpu'r rheoleiddiwr.

4.24 Cynigir y bydd y ddyletswydd hon yn cael ei rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac na fydd y gwaharddiad yn dod i rym cyn mis Ionawr 2017.

RE4: Gwahardd tirlenwi â deunyddiau penodedig

4.25 Cynigir gwahardd deunyddiau gwastraff penodedig o safleoedd tirlenwi. Pwrpas y gwaharddiad fyddai:

-
- Sicrhau na fydd deunyddiau/adnoddau ailgylchadwy gwerthfawr yn cael eu colli drwy dirlenwi;
 - Diogelu'r amgylchedd rhag effeithiau sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd o dirlenwi â deunyddiau bioddiraddiadwy;
 - Hyrwyddo dyletswyddau'r cynhyrchydd i wahanu a chasglu deunyddiau ar wahân – dim ond gwastraff gweddilliol sydd â lefelau halogi derbyniol a fyddai'n cael ei dderbyn mewn safleoedd tirlenwi.
- 4.26 Cynigir y bydd y ddyletswydd i atal deunyddiau sydd wedi'u gwahardd rhag mynd i safleoedd tirlenwi yn cael ei rhoi ar weithredwyr safleoedd tirlenwi a'r rheini sy'n afon gwastraff i safleoedd tirlenwi. Y deunyddiau yr ydym yn ystyried eu gwahardd o safleoedd tirlenwi yw: papur, cardbord, gwydr, plastig, metel, bwyd a gwastraff bwyd a byddai'r gwaharddiad hwn yn gymwys i bob un o'r ffrydiau gwastraff (gwastraff domestig, masnachol a diwydiannol a gwastraff o weithgareddau adeiladu a dymchwel).
- 4.27 Mae pŵer gan Weinidogion Cymru eisoes i wahardd deunydd ailgylchadwy neu adenilladwy o safleoedd tirlenwi o dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010. Rydym yn cynnig y bydd y pŵer hwn yn cael ei gydgrynhoi o fewn Bil yr Amgylchedd er mwyn symlrwydd.
- 4.28 Byddai angen darparu canllawiau ar y lefelau halogi sy'n dderbyniol mewn gwastraff gweddilliol i alluogi gweithredwyr safleoedd tirlenwi a chasglwyr gwastraff i asesu a yw gwastraff yn dderbyniol mewn safleoedd tirlenwi ac i helpu'r rheoleiddiwr.
- 4.29 Cynigir y bydd y ddyletswydd hon yn cael ei rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac na fydd y gwaharddiad yn dod i rym cyn mis Ionawr 2017.

RE5: Gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd

- 4.30 Mae niweidio carthffosydd neu ymyrryd â'u llif eisoes yn drosedd dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr, ond mae achos dros gryfhau hyn mewn perthynas â gwastraff bwyd.
- 4.31 Pwrpas mynd i'r afael â'r mater hwn yw:
- ategu'r opsiynau uchod er mwyn ailgylchu ac adennill mwy o ddeunyddiau gwastraff;
 - creu cyfleoedd datblygu economaidd a swyddi drwy anfon mwy o wastraff bwyd i gael ei drin a'i ddefnyddio'n fuddiol yn hytrach na'i waredu;

- cadw gwerth gwastraff bwyd fel adnodd i'w drin drwy dreulio anaerobig i greu ynni adnewyddadwy a gwrtaith o ansawdd uchel;
- lleihau'r perygl o flocio carthffosydd, llifogydd o garthffosydd, llygru'r amgylchedd, arogleuon a phlâu o gnoflod;
- lleihau costau ac anghyfleustra atgyweirio niwed i garthffosydd;
- lleihau'r defnydd ychwanegol o ddŵr wrth waredu gwastraff bwyd i garthffosydd;
- lleihau'r perygl o herio egwyddor "y llygrwr sy'n talu".

- 4.32 Mae cwmnïau dŵr yn dweud bod gwaredu gwastraff bwyd, drwy danciau malu neu'n uniongyrchol i'r rhwydwaith carthffosydd, yn creu mwy o berygl o flocio carthffosydd, llifogydd o garthffosydd, llygru'r amgylchedd, arogleuon a phlâu o gnoflod. Yn ôl Water UK, mae'r gostyngiad ym maint y llif a'r perygl cysylltiedig o lifogydd o ganlyniad i gronni braster, olew, saim a malurion eraill yn destun pryder mawr yn barod ac yn rhywbeth nad oedd y rhwydwaith carthffosydd wedi'i fwriadu i ddelio ag ef. Mae angen egluro pwerau Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 mewn perthynas â gollwng unrhyw ddeunydd i garthffosydd a allai niweidio'r carthffosydd hynny neu amharu ar lif eu cynnwys, yn arbennig gwastraff bwyd.
- 4.33 Hefyd, heb waharddiad o'r fath, mae perygl y byddai gwahardd gwastraff bwyd o safleoedd tirlenwi a safleoedd troi gwastraff yn ynni yn arwain at waredu bwyd i garthffosydd, ac o ganlyniad colli deunydd gwerthfawr a niwed i'r rhwydwaith carthffosydd. Cynigir y bydd unrhyw ddarpariaeth sy'n cael ei ddeddfu yn gymwys i wastraff bwyd o eiddo busnes.
- 4.34 Amcangyfrifir bod tua 50,000 tonnell o wastraff bwyd yn cael ei ollwng o eiddo domestig i garthffosydd bob blwyddyn yng Nghymru²⁴. Dylai cartrefi gael eu hannog i ddefnyddio'r gwasanaethau casglu gwastraff bwyd sy'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol. Byddai hyn hefyd yn helpu cartrefi i osgoi costau diangen gosod a chynnal systemau gwaredu gwastraff bwyd yn y gegin. Ni fydd y cynnig yn gymwys i wastraff bwyd cartrefi.
- 4.35 Mae trefniadau rheoleiddio eisoes yn eu lle ar gyfer gwastraff bwyd masnachol a diwydiannol ac ar gyfer eiddo masnachol, diwydiannol a sector cyhoeddus. Er mwyn helpu i weithredu ymrwymadau Llywodraeth Cymru dan *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* cydnabyddir bod angen cryfhau'r trefniadau hyn o ran gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd. Yr opsiynau yw i'r ddyletsywydd hon gael ei rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol neu'r ymglymerwr carthffosiaeth.

²⁴ WRAP (2009) "Down the Drain" – ffigur y DU wedi'i addasu ar gyfer Cymru

-
- 4.36 Mae gwaith modelu a wnaed ar gyfer y cynigion hyn²⁵ wedi rhagweld y byddai atal gwaredu gwastraff bwyd o eiddo domestig a masnachol (gan gynnwys sector cyhoeddus) i garthffosydd yn arwain at fanteision gwerth £1.5 miliwn a £7.5 miliwn yn eu tro i economi Cymru dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae'r canlyniadau hyn yn cael eu gyrru'n bennaf gan gostau ariannol ychwanegol mewn perthynas â'r defnydd o unedau gwaredu gwastraff bwyd o'u cymharu â rheoli gwastraff bwyd drwy gasgliadau a llwybrau rheoli gwastraff confensiynol.
- 4.37 Am y rhesymau a nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ynghylch cynigion i'w cynnwys ym Mil yr Amgylchedd er mwyn gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffosydd ac am drefn orfodi ar gyfer unrhyw ddarpariaethau, ond cynigir na fyddai unrhyw waharddiad yn dod i rym cyn mis Ionawr 2017, a phe bai'n dod yn ddeddf, byddai'n gymwys i wastraff bwyd o eiddo busnes.

Trosolwg ar effaith bosibl y cynigion

- 4.38 Drwy ailgylchu ac adennill mwy o ddeunyddiau gwastraff yng Nghymru, bydd mwy o gyflogaeth a bydd busnesau'n arbed arian drwy'r canlynol:
- **Cynyddu Cyflogaeth** – amcangyfrifwyd bod tua 7,850 o bobl wedi'u cyflogi yn y diwydiant rheoli gwastraff yng Nghymru²⁶. Mae ymchwil²⁷ wedi dangos y byddai ailgylchu 70 y cant o'r holl wastraff erbyn 2025 yn gallu creu tua 3,600 o swyddi newydd yng Nghymru yn y sectorau bwrdeistrefol, masnachol a diwydiannol (gan gynnwys adeiladu a dymchwel);
 - **Arbed Costau i Fusnesau** – mewn astudiaeth²⁸ o wastraff masnachol a diwydiannol cymysg mewn safleoedd tirlenwi a gomisiynwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gynt, amcangyfrifwyd bod busnesau yng Nghymru wedi taflu gwastraff a oedd yn werth £30 miliwn yn 2005 – roedd tua hanner miliwn o dunelli o ddeunydd ailgylchadwy wedi'i anfon i safleoedd tirlenwi. Pe byddai'r gwastraff cymysg hwn wedi'i ddioli yn y ffynhonnell, byddai wedi bod yn bosibl aildefnyddio, ailgylchu neu gompostio hyd at 77 y cant ohono.

²⁵ Eunomia Research & Consulting (2011) Options for the Segregation and Collection of Welsh I & C Waste, Report to the Welsh Government, (Tachwedd 2011), Eunomia Research & Consulting (2013) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending WFD requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on Food the Disposal of Food Waste to Sewer, (Mai 2013)

²⁶ Aseiad Sgiliau Sector 2010 – Wales, Energy & Utility Skills.

²⁷ 'More Jobs Less Waste', adroddiad gan Gyfeillion y Ddaear, Medi 2010

²⁸ Determination of the Biodegradability of Mixed Industrial and Commercial Waste Landfilled in Wales. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru 2007

-
- 4.39 Yn ôl y rhagolygon gwaith modelu a gomisiynwyd gan WRAP²⁹ bydd y cynnydd mewn ailgylchu sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn seilwaith casglu a thrin gwastraff yn arwain at ostyngiad yng nghostau cyffredinol busnesau yng Nghymru o'i gymharu â'r sefyllfa o barhau â'r systemau presennol. Mewn senario lle y mae 70 y cant o wastraff yn cael ei ailgylchu, yn unol â'r targedau yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, arbedir mwy na £50 miliwn y flwyddyn yn y gwasanaethau gwastraff masnachol a diwydiannol safonol erbyn 2025 o'i gymharu â'r costau yn 2010, a bydd hyn yn codi i fwy na £60 miliwn y flwyddyn erbyn 2050.
- 4.40 Mae WRAP wedi amcangyfrif y gellir cael rhwng £0.9 biliwn a £1.7 biliwn o arbedion net y flwyddyn yng Nghymru drwy fabwysiadu economi gylchol (lle y mae busnesau gweithgynhyrchu yng Nghymru yn defnyddio deunyddiau eildro a gasglwyd yng Nghymru), ar sail amcangyfrifon gan Sefydliad Ellen MacArthur sydd wedi'u haddasu ar gyfer Cymru³⁰. Mae'r economi ehangach yng Nghymru yn debygol o elwa o brisiau mewnbwn mwy cyson, llai o risgiau yn y gadwyn gyflenwi, manteision posibl o ran cyflogaeth a llai o effeithiau o ffactorau allanol.
- 4.41 Mae amcangyfrifon o'r gwaith modelu³¹ ar gyfer y cynigion uchod yn dangos y bydd mantais system gyfan o £66 miliwn yng Nghymru, y bydd 2.8 miliwn o dunelli o ddeunyddiau ychwanegol yn cael eu hailgylchu ac y bydd gostyngiad mewn allyriadau CO₂ a'i gyfatebol o 2.7 miliwn o dunelli dros gyfnod o ddeng mlynedd.

²⁹ Economic Assessment of the Welsh Government's Collections, Infrastructure and Markets Sector Plan, WRAP (2011).

³⁰ Ar sail amcangyfrifon ar gyfer yr UE gan Sefydliad Ellen MacArthur (2011): Towards the circular economy – economic and business rationale for an accelerated transition, wedi'u haddasu ar gyfer Cymru gan WRAP

³¹ Eunomia Research and Consulting (Medi 2013) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending WFD requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on the Disposal of Food Waste to Sewer – Aggregated Outputs for Welsh Government

Cwestiynau ymgynghori

18. A ydych yn cytuno â'r cynigion ym mhennod 4 a'r ffordd o gyfuno'r pum mesur, yng nghyswllt rheoleiddio trefniadau gwahanu gwastraff? A oes unrhyw ddeunyddiau neu ffrydiau gwastraff eraill y dylid eu cynnwys yn y gofynion i ddioli a chasglu ar wahân? Os oes, beth ydynt, a pham y dylid eu cynnwys?
19. A ydych yn cytuno bod lefel y gwahanu y gofynnir i unigolion / busnesau ei gyflawni yn dderbyniol? Os nad ydych, nodwch y rheswm a chynigiwch ddewis arall.
20. A oes busnesau o fath neu faint penodol lle na fyddai'n ymarferol, o safbwynt technegol, amgylcheddol neu economaidd, i gadw'r saith ffrwd wastraff ar wahân yn y ffynhonnell? Os oes, enwch y rhain ac eglurwch y rheswm.
21. A ydych yn cytuno â'r rhestr o ddeunyddiau yr ydym yn cynnig eu gwahardd o gyfleusterau troi gwastraff yn ynni neu safleoedd tirlenwi? A oes unrhyw ddeunyddiau eraill y dylid eu gwahardd o gyfleusterau troi gwastraff yn ynni neu safleoedd tirlenwi? Os oes, beth ydynt, a pham?
22. A ydych yn cytuno ei bod yn ymarferol datblygu canllawiau ar lefelau halogi sy'n dderbyniol mewn gwastraff gweddilliol ar gyfer gweithredwyr safleoedd tirlenwi/lloggi a'r rheoleiddiwr? Os nad ydych, pa ddull arall y gellid ei ddefnyddio?
23. A ydych yn cytuno bod angen gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd? Os felly, a ddylai fod yn gymwys i: i) gartrefi ii) busnesau a'r sector cyhoeddus neu iii) y ddau?
24. A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch ffyrdd o orfodi i) busnesau a'r sector cyhoeddus a ii) cartrefi i gydymffurfio gyda'r gwaharddiad?
25. A ydych yn cytuno bod y cyfnodau cyn gweithredu'r cynigion yn rhesymol? Os nad ydych, pa gyfnod arall yr ydych yn ei awgrymu?
26. A ydych yn cytuno mai CNC yw'r corff gorau i reoleiddio'r ddyletswydd i ddioli gwastraff (RE2)? Os nad ydych, eglurwch y rheswm a chynigiwch gorff rheoleiddio arall.
27. Yn eich barn chi, pa gorff ddylai reoleiddio'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd ar gyfer busnesau a'r sector cyhoeddus: i) CNC ii) Awdurdodau Lleol iii) ymgymwrwr carthffosiaeth neu iv) Arall. Os ydych yn nodi 'Arall', cynigiwch gorff rheoleiddio arall ac eglurwch eich rhesymau.
28. A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y cynigion hyn (er enghraifft, effeithiau ar eich sefydliad)?

Bagiau Siopa

- 4.42 Mae'r drefn o godi tâl am fagiau siopa untro wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ostwng y galw am y math hwn o fag yng Nghymru, gyda mwy o siopwyr yn ailddefnyddio'u bagiau wrth fynd i siopa. Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn ceisio mireinio ac adeiladu ar y llwyddiant cychwynol hwn.
- 4.43 Ceisir ymestyn pwerau galluogi Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel y bydd mwy o hyblygrwydd ganddynt i addasu i unrhyw dueddiadau newydd neu ganlyniadau anfwriadol i'r system codi tâl am fagiau siopa untro. Drwy gael mwy o hyblygrwydd, gellir datblygu unrhyw ymyriadau drwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol mewn ffordd fwy integredig, ar sail y dystiolaeth sy'n codi. Pwrpas y darpariaethau arfaethedig yw:
- (i) galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu drwy reoliadau ar gyfer pennu taliadau isaf am fathau eraill o fagiau siopa yn ychwanegol at y tâl isaf sydd wedi'i bennu ar hyn o bryd am fagiau siopa untro. (Byddai hyn yn golygu bod modd pennu taliadau isaf am fagiau plastig ailddefnyddiadwy os bydd tystiolaeth yn dangos bod angen taliadau o'r fath);
 - (ii) galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol, drwy reoliadau, fod gwerthwyr yn rhoi'r elw net o'r tâl at unrhyw achosion da, yn hytrach nag achosion da amgylcheddol yn unig. (Byddai'r newid arfaethedig yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru fel na fyddent, wrth arfer pŵer o'r fath, yn torri ar draws y gwerthwyr hynny sy'n rhoi'r elw net o'r taliadau i achosion da amgylcheddol ar hyn o bryd.)

RE6: Galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu drwy reoliadau ar gyfer pennu taliadau isaf am fathau eraill o fagiau siopa yn ychwanegol at y tâl isaf sydd wedi'i bennu ar hyn o bryd am fagiau siopa untro

Llai o alw am fagiau siopa untro

- 4.44 Roedd Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 wedi'u gwneud o dan Adrannau 77 a 90 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 ac Atodlen 6 i'r ddeddf honno.
- 4.45 Cyn cyflwyno'r tâl am fagiau siopa untro, amcangyfrifwyd bod tua 445 miliwn o fagiau siopa untro yn cael eu defnyddio bob blwyddyn yng Nghymru. Ar 1 Hydref 2011, o dan Reoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010, cyflwynwyd tâl isaf o 5 ceiniog am gyflenwi bag siopa untro newydd yng Nghymru. Y nod wrth godi'r tâl oedd lleihau'r galw a chymell siopwyr i ailddefnyddio eu bagiau er

mwyn lleihau'r gost i'r amgylchedd o'u cynhyrchu a'u gwaredu'n amhriodol.

- 4.46 Roedd data a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru gan sampl o fanwerthwyr chwe mis ar ôl cyflwyno'r tâl yn dangos bod gostyngiad sylweddol yn y galw am fapiau siopa untro mewn nifer o sectorau manwerthu, a bod gostyngiadau o fwy na 90 y cant wedi'u cofnodi gan rai busnesau. Yn ogystal â hyn, roedd data Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) yn dangos bod y defnydd o fapiau siopa untro yn y sector archfarchnadoedd wedi gostwng 81 y cant yng Nghymru rhwng 2010 a 2012.

Mwy o alw am fapiau am oes

- 4.47 Mae data WRAP wedi dangos cynnydd o tua 120-130 y cant yng ngwerthiant bagiau am oes gan archfarchnadoedd yng Nghymru rhwng 2010 a 2012. O ran pwysau, mae'r cynnydd yn nifer y bagiau am oes a brynwyd yn cyfateb i tua 30 y cant o'r gostyngiad ym mhwysau'r bagiau deunydd tenau (untro)³².
- 4.48 Mae ymchwil annibynnol a gomisiynwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Zero Waste Scotland³³ wedi dangos bod cyfran sylweddol o siopwyr yng Nghymru wedi'u gweld yn aildefnyddio bagiau, ond bod rhai manwerthwyr wedi'u gweld yn hyrwyddo bagiau plastig aildefnyddiadwy gan godi rhwng 5 ceiniog a 10 ceiniog amdanynt.
- 4.49 Rhagwelwyd y byddai cynnydd yn y galw am fapiau am oes yng Nghymru ar ôl cyflwyno'r tâl, wrth i ddefnyddwyr ddod i arfer ag aildefnyddio bagiau a phrynu digon o fapiau am oes i gwrdd â'u hanghenion siopa. Fodd bynnag, mae perygl y gallai llawer o ddefnyddwyr ddechrau trin y bag plastig aildefnyddiadwy cost isel fel bag i'w daflu a'i waredu cyn pryd. Mae'r "effaith amnewid" hon yn debygol o wneud niwed sylweddol i'r amgylchedd os bydd bagiau o'r math hwn yn cael eu gwaredu'n amhriodol gan eu bod wedi'u gwneud o ddeunydd mwy trwchus fel arfer ac yn pydru'n arafach.
- 4.50 Mae bagiau am oes y tu allan i gwmpas Rheoliadau Codi Tâl am Fapiau Siopa Untro (Cymru) 2010. Ar ben hynny, nid oes dim yn y pwerau galluogi yn Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r Rheoliadau os bydd y cynnydd yng ngwerthiant bagiau am oes yn parhau. Dim ond yng nghyswllt bagiau siopa untro y gellir gwneud rheoliadau o dan Ddeddf 2008.

³² Data WRAP: <http://www.wrap.org.uk/content/carrier-bags-reducing-their-environmental-impact>

³³ Astudiaeth ymddygiad ynghylch defnyddio ac aildefnyddio bagiau siopa (2012): http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/substance/carrierbags/behaviour-study-on-use-of-carrier-bags-2012/?lang=cy

-
- 4.51 Felly rydym yn cynnig ehangu cwmpas y pwerau galluogi yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel y gellir pennu taliadau isaf am fathau eraill o fagiau, os bydd tystiolaeth yn y dyfodol yn dangos bod angen gwneud hynny, yn ogystal â'r tâl isaf sydd wedi'i bennu am fagiau siopa untro. Ar hyn o bryd, mae'r cynnydd yng ngwerthiant pob math o fag am oes, gan gynnwys y bagiau siopa plastig ailddefnyddiadwy cost isel, yn llai o hyd na'r cynnydd a ragwelwyd gan Lywodraeth Cymru yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynnol³⁴. Bydd angen monitro pellach i benderfynu a fydd angen pennu taliadau isaf am fagiau heblaw bagiau siopa untro.
- 4.52 Os bydd gwaith monitro yn y dyfodol yn dangos bod cynnydd parhaus yn nifer y bagiau am oes, yn enwedig bagiau plastig ailddefnyddiadwy, sy'n cael eu gwerthu a'u gwaredu, gallai Gweinidogion Cymru benderfynu delio â'r cynnydd yn y galw drwy arfer y pwerau galluogi estynedig sydd wedi'u cynnig i osod tâl isaf am fagiau plastig ailddefnyddiadwy cost isel.

RE7: Ehangu cwmpas yr achosion da sy'n derbyn yr elw net

- 4.53 Nid yw'r Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 presennol yn ei gwneud yn ofynnol bod manwerthwyr yn defnyddio'r elw net o werthu bagiau siopa untro mewn ffordd benodol. Yn lle hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cod gwirfoddol gyda manwerthwyr sy'n eu cymell i drosglwyddo'r elw net i achosion da yng Nghymru.
- 4.54 Os na fydd y cod gwirfoddol yn effeithiol ac os na throsglwyddir digon o'r elw net i achosion da yng Nghymru, mae darpariaeth ar gael ar hyn o bryd i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gwerthwyr yn defnyddio'r elw net mewn ffordd benodol. Mae paragraff 4A o Atodlen 6 i Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, sydd wedi'i fewnosod gan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010, yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gosod dyletswydd ar werthwyr bagiau siopa untro i roi eu helw net i achosion da. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud ag achosion da amgylcheddol yn unig ar hyn o bryd.
- 4.55 Yn ôl y wybodaeth sydd wedi'i darparu gan y 246 o fanwerthwyr sydd wedi derbyn y cod ar wefan Llywodraeth Cymru a chofnodion gan fanwerthwyr yr ydym wedi'u gweld, ymhlith yr achosion da sy'n derbyn yr elw net ar hyn o bryd y mae nifer mawr o elusennau canser a hosbisau plant. Mae achosion da o'r math hwn y tu allan i gwmpas

³⁴ Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Tâl am Fagiau Siopa Untro:
<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/carrierbagsregs/?status=close&lang=en>

pwerau galluogi Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd, os bydd rheoliadau'n cael eu gosod o dan y darpariaethau presennol.

- 4.56 Y nod polisi y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddatgan yng nghyswllt y tâl yw y byddai'n well ganddi fod achosion da amgylcheddol yn cael budd o'r tâl. Er hynny, nid yw Llywodraeth Cymru am dorri ar draws y cysylltiadau presennol rhwng manwerthwyr ac achosion da eraill sy'n cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghymru.
- 4.57 Felly cynigir ymestyn y pwerau galluogi sydd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 fel y gallant ei gwneud yn ofynnol, drwy reoliadau, fod manwerthwyr yn rhoi'r elw net o'r tâl i unrhyw fath o achos da. Ni fydd y pŵer hwn yn cael ei arfer oni bai fod ymchwil a thystiolaeth bellach yn dangos bod angen gwneud hynny.
- 4.58 Pe byddai'r pŵer estynedig arfaethedig yn cael ei arfer, ni fyddai ond yn effeithio ar y gwerthwyr hynny nad ydynt yn trosglwyddo'r elw net o'r tâl i achosion da ar hyn o bryd. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa pe byddai'r pŵer presennol yn cael ei arfer; byddai hwn yn ei gwneud yn ofynnol bod gwerthwyr sy'n awr yn rhoi'r elw net i elusennau heblaw rhai amgylcheddol (er enghraifft, elusennau canser) yn atal y taliadau hynny a'u rhoi i achosion da amgylcheddol yn lle hynny.
- 4.59 Ar hyn o bryd, rydym hefyd yn ystyried opsiynau eraill, nad ydynt yn galw am ddeddfu, i gymell mwy o fanwerthwyr i dderbyn y cod gwirfoddol. Byddwn yn ymgynghori ar yr holl opsiynau a ystyrir, fel y bo'n briodol.

Trosolwg ar effaith bosibl y cynigion

- 4.60 Ni fydd goblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru o gael y pwerau arfaethedig.
- 4.61 Y fantais o ymestyn pwerau galluogi Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yw y bydd yn gwneud y system rheoleiddio yn fwy hyblyg ac yn rhoi'r gallu i ystyried peryglon newydd i'r amgylchedd yn y dyfodol. Nod y cynigion hyn yw cryfhau dulliau rheoleiddio ar gyfer y dyfodol.
- 4.62 Mae'r cynigion hyn yn ymwneud â phwerau galluogi Gweinidogion Cymru. Byddwn yn cwblhau asesiad effaith manwl cyn gwneud unrhyw reoliadau ynghylch arfer y pwerau galluogi arfaethedig.

Cwestiynau ymgynghori

29. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ymestyn pwerau galluogi Gweinidogion Cymru fel y gallant ddarparu, drwy reoliadau, ar gyfer pennu taliadau isaf am fathau eraill o fapiau siopa yn ogystal â bagiau siopa untro?
30. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ymestyn pwerau galluogi Gweinidogion Cymru fel y gallant ei gwneud yn ofynnol, drwy reoliadau, fod manwerthwyr yn trosglwyddo eu helw net i unrhyw achosion da?
31. A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y cynigion hyn (er enghraifft, effeithiau ar eich sefydliad)?

Pennod 5: Hwyluso Rheoli Doethach

Crynodeb

Yn y bennod hon, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am sylwadau am ddiwygiadau posibl i lenwi bylchau mewn deddfwriaeth sy'n dod o fewn cwmpas Bil yr Amgylchedd – hynny yw, newidiadau a fydd yn ceisio symleiddio neu egluro'r gyfraith.

Cyf	Cynigion
SM1	Rheoli Trwyddedu Morol – Mesurau i roi mwy o hyblygrwydd i CNC o ran y ffordd y mae'n codi ffioedd am swyddogaethau trwyddedu morol sydd wedi'u dirprwyo iddo gan Weinidogion Cymru o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009
SM2	Rheoli Pysgodfeydd Cregyn – Mesurau i adolygu'r broses ymgeisio a'r ffordd bresennol o weithredu Gorchmynion Pysgodfa Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio Pysgodfa yn Rhan 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967
SM3	Rheoli Draenio Tir – Gwella'r rheoli ar Orchmynion Draenio Tir y Tribiwnlys Tir Amaethyddol
SM4	Rheoli Llifogydd a Dŵr – Gwella ffyrdd o reoli llifogydd a dŵr

Rheoli Trwyddedu Morol

SM1: Mesurau i roi mwy o hyblygrwydd i CNC o ran y ffordd y mae'n codi ffioedd am swyddogaethau trwyddedu morol

- 5.1 Yn 2011 cyflwynwyd system drwyddedu newydd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a oedd yn cyfuno ac yn cydgrynhoi nifer o'r systemau trwyddedu a oedd yn bodoli ar y pryd. Ar ôl hynny gwelwyd bod bylchau ym mhwerau'r awdurdod trwyddedu ar gyfer codi ffioedd. Mewn cysylltiad â Chymru, mae CNC yn gyfrifol am swyddogaethau trwyddedu morol yn rhinwedd Gorchmyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2013.
- 5.2 Ni ellir parhau â sefyllfa lle nad yw CNC yn gallu codi ffioedd am yr holl wasanaethau y mae'n eu darparu a bydd hyn yn arwain yn y pen draw at leihau'r gwasanaeth yng Nghymru os na lenwir y bylchau yn y pwerau ar gyfer codi ffioedd.

-
- 5.3 Felly, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am sylwadau ynghylch newidiadau i greu mwy o hyblygrwydd yn y pwerau i godi ffioedd, ar sail yr egwyddor o adennill holl gostau'r awdurdod trwyddedu (os yw'n bosibl) yn y meysydd canlynol:
- Treuliau a dynnwyd mewn cysylltiad â gwaith cyn ymgeisio (ac eithrio gweinyddu ceisiadau am farn sgrinio a chwmpasu gan fod pwerau ar gael eisoes i godi ffioedd am hyn).
Yn ymarferol, mae'r system trwyddedu morol yn rhoi pwyslais ar y cam cyn ymgeisio anstatudol, fel y gellir gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith ar gyfer trwyddedu morol ymlaen llaw. Drwy ganiatáu i CNC godi ffi am y gwasanaeth cyn ymgeisio, byddai mwy o weithredwyr yn gallu cael adborth anffurfiol cyn dechrau'r broses ymgeisio ffurfiol;
 - Treuliau a dynnwyd wrth amrywio telerau trwyddedau;
 - Treuliau a dynnwyd wrth drosglwyddo trwyddedau;
 - Cyflwyno taliadau parhau ar gyfer trwyddedu morol.
- 5.4 Drwy gyflwyno 'tâl parhau', byddai CNC yn gallu adennill costau a dynnwyd wrth reoleiddio'r system trwyddedu morol. Byddai hyn yn cynnwys costau am fonitro amgylcheddol ac am weinyddu. Er enghraifft, byddai'n cynnwys treuliau a dynnwyd wrth asesu a dehongli'r canlyniadau o unrhyw fesurau monitro sy'n ofynnol ar gyfer prosiect penodol a chostau sy'n gysylltiedig â monitro safleoedd ar gyfer gwaredu deunydd carthu. Byddai paramedrau clir yn cael eu gosod ar gyfer defnyddio'r ffioedd hyn.
- 5.5 Byddai'r ffioedd a godir yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru neu'n unol â rheoliadau sydd wedi'u gwneud ganddynt. Byddai hyn yn gyson â'r ffordd o bennu'r ffioedd presennol am ymgeisio am drwyddedau morol mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru yn Rheoliadau Trwyddedu Morol (Fffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2011.
- 5.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gydweithio â CNC ar adolygiad o'r ffioedd trwyddedu morol yn 2013/2014, er mwyn gallu cyflwyno strwythur ffioedd diwygiedig yn 2014/2015. Bydd ymgynghoriad llawn ar wahân ar yr adolygiad hwn ac nid yw'n rhan o'r cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd. Er hynny, bydd yr ymgynghoriad yn rhoi sylw i'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn i gynnwys pwerau ychwanegol i godi ffioedd ym Mil yr Amgylchedd.

Trosolwg ar effaith bosibl y cynnig

- 5.7 Rydym yn rhag-weld y bydd y newidiadau arfaethedig yn y system codi ffioedd am drwyddedu morol yn effeithio yn y ffyrdd canlynol ar ddau grŵp allweddol:

-
- **Cyfoeth Naturiol Cymru** – Drwy ddiwygio'r pwerau i godi ffioedd am drwyddedu morol i alluogi CNC i godi tâl am yr holl wasanaethau y mae'n eu darparu, ceir gwerth am arian i'r sector cyhoeddus. Mae'n bosibl bod diffyg rhwng symiau'r ffioedd a dderbynnir a'r gwariant angenrheidiol gan CNC ar weinyddu'r swyddogaethau trwyddedu. Mae hyn yn dangos bod angen adolygiad o ffioedd trwyddedu morol. Bydd diwygio'r strwythur codi ffioedd am drwyddedu morol fel y gellir adennill yr holl gostau (os yw'n bosibl) yn helpu i sicrhau bod digon o adnoddau gan y gwasanaeth i wneud ei waith yn effeithiol ac effeithlon.
 - **Diwydiant ac ymgeiswyr** – Ein bwriad wrth greu'r gallu i adennill costau yw gwneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon a rhoi mwy o sicrwydd i ddiwydiant y bydd y broses drwyddedu'n cael ei rhedeg mewn ffordd amserol ac effeithiol. Er enghraifft, drwy ganiatáu i CNC godi tâl am amrywio telerau mewn trwyddedau, byddai mwy o drwyddedeion yn gallu amrywio'r telerau yn eu trwyddedau heb orfod ailymgeisio drwy'r weithdrefn ymgeisio lawn. Hefyd, drwy wneud cymaint o waith â phosibl o flaen llaw yn y cam cyn ymgeisio i ddatrys problemau, y bwriad yw treulio llai o amser ar y cam ymgeisio. Ar y sail hon, bydd pwrpas ehangach y newidiadau'n hyrwyddo twf busnesau a'u gallu i gystadlu.
- 5.8 Rydym yn rhag-weld y ceir nifer o fanteision drwy'r newidiadau yn y pwerau i godi ffioedd am drwyddedu morol. Drwy alluogi CNC i adennill ei holl gostau, os yw'n bosibl, wrth ddelio â phob agwedd ar drwyddedu morol, ceir mwy o adnoddau i reoli'r system trwyddedu morol yng Nghymru'n effeithiol. Gallai hyn arwain at effeithiau ehangach sy'n diogelu ac yn gwella'r amgylchedd.
- 5.9 Rhagwelir hefyd y bydd y mesurau'n helpu i symleiddio'r broses ymgeisio a lleihau'r amser y mae CNC yn ei gymryd i brosesu ceisiadau. Rydym yn rhag-weld, felly, y bydd y newidiadau arfaethedig yn y pwerau i godi ffioedd am drwyddedu morol yn arbed adnoddau i'r ymgeisydd a CNC, o ran amser a gwariant, wrth wneud ceisiadau o'r fath.
- 5.10 Bydd y ffordd o sefydlu system ddiwygiedig ar gyfer codi ffioedd am drwyddedu morol yn cael ei rheoli ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a CNC, a bydd rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys ar bob cam.

Cwestiynau ymgynghori

32. A ydych yn cytuno â'r cynigion ynghylch Trwyddedu Morol?
33. A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru ymestyn gallu CNC i adennill costau sy'n gysylltiedig â thrwyddedu morol drwy godi ffioedd am:
- i. costau cyn ymgeisio?
 - ii. costau am amrywio telerau mewn trwyddedau?
 - iii. costau am drosglwyddo trwyddedau?
 - iv. talu costau rheoleiddio, drwy daliadau parhau?
34. A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y cynigion hyn (er enghraifft, effeithiau ar eich sefydliad)?

Rheoli Pysgodfeydd Cregyn

SM2: Mesurau i adolygu'r broses ymgeisio a'r ffordd bresennol o weithredu Gorchmynion Pysgodfa Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio Pysgodfa yn Rhan 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967

- 5.11 Cydnabyddir bod pysgodfeydd cregyn a reolir yn gallu bod yn ddull gwerthfawr o reoli adnoddau morol sy'n ategu'r broses o reoli adnoddau naturiol yn integredig a'u bod yn rhoi manteision o bob math i:
- yr economi leol – drwy gynnig cyfleoedd economaidd a thrwy gyflogaeth, mewn mannau anghysbell ar yr arfordir mewn llawer achos;
 - yr amgylchedd morol – gan fod pysgodfeydd cregyn yn gallu arwain at welliannau mewn ansawdd dŵr ac fel arfer bydd y mesurau rheoli mewn pysgodfeydd o'r fath yn cynnwys sgrinio pysgod cregyn am glefydau, plâu a rhywogaethau goresgynnol;
 - defnyddwyr a chymunedau – gan fod amaethu pysgod cregyn yn cynhyrchu rhai o'r mathau iachaf a mwyaf cynaliadwy o fwyd môr sydd ar gael.

Ffigur (vii) Manteision o reoli Pysgodfeydd Cregyn

Mae un Gorchymyn Pysgodfa Unigol a roddwyd yn ddiweddar yn cynnig ailgyflwyno Wystrys Brodorol – un o rywogaethau'r cynllun gweithredu Bioamrywiaeth – yn nyfroedd Cymru. Mae'r Gorchymyn yn rhoi'r gallu i ddatblygu menter fasnachol a all greu cyfleoedd cyflogaeth. Os bydd yn llwyddo, gallai helpu hefyd i arwain y ffordd at ailgyflwyno mwy o rywogaethau brodorol, at ddibenion masnachol neu ddibenion ecolegol pur, a helpu i wella ac adfer amrywiaeth yr ecosystemau o gwmpas arfordir Cymru.

- 5.12 Mae Gorchymyn Pysgodfa Unigol yn caniatáu i'r person y rhoddwyd y bysgodfa honno iddo (a elwir yn "Grantî") i sefydlu a/neu wella ac amaethu ecosystemau presennol a rhai a gyflwynir er budd economaidd iddo'i hun, a cheir cyfleoedd cyflogaeth yn aml yn rhan o'r broses honno. Mae Gorchymyn Rheoleiddio Pysgodfa yn galluogi'r Grantî i reoleiddio ecosystemau presennol a rhai a gyflwynir drwy system sy'n rhoi trwyddedau i eraill i alluogi'r bobl eraill hynny i bysgota am y pysgod cregyn sydd wedi'u henwi. Yn aml, felly, bydd Gorchymynion Rheoleiddio Pysgodfa yn cael eu defnyddio fel ffordd o reoli pysgodfeydd.

5.13 Mae nifer y Gorchmynion Pysgodfa Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio Pysgodfa yn gymharol fach yng Nghymru ar hyn o bryd. Er bod nifer y ceisiadau am bysgodfeydd o'r fath wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, nid yw holl botensial y Gorchmynion hyn yn cael ei wireddu ar hyn o bryd. O ganlyniad i hyn, collwyd cyfleoedd am gyflogaeth leol ac am welliannau amgylcheddol. Er mwyn datblygu pysgodfeydd cynaliadwy ymhellach yng Nghymru, mae angen diwygio'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r broses ymgeisio a'r ffordd o weithredu'r Gorchmynion Pysgodfa Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio Pysgodfa.

5.14 Felly mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am sylwadau am y mesurau arfaethedig isod i'w gwneud yn haws i ymgeiswyr ofyn am Orchmynion Pysgodfa Unigol a Gorchmynion Rheoleiddio Pysgodfa, ac i sicrhau bod y Gorchmynion yn ddigon hyblyg i alluogi pysgotwyr i redeg y bysgodfa mor effeithlon â phosibl. Rydym yn cydnabod bod rhaid cydbwysu hyblygrwydd o'r fath â'r angen i gydymffurfio â'r gwahanol rwymedigaethau cadwraeth sy'n gymwys i'r amgylchedd morol:

- y gallu i gyfeirio (yn y Gorchmyn Pysgodfa Unigol neu'r Gorchmyn Rheoleiddio Pysgodfa) at ddogfen sy'n rhoi disgrifiad manwl o'r arferion rheoli ar gyfer pob pysgodfa benodol. Gellid diwygio'r ddogfen honno o bryd i'w gilydd, drwy gydsyniad Gweinidogion Cymru (heb fod angen mynd drwy'r broses ddiwygio gyfan ar gyfer y Gorchmyn dan sylw);
- y gallu i Weinidogion Cymru alw am gydymffurfio â'r ddogfen honno ar arferion rheoli;
- y gallu i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad rheolaidd o'r Gorchmyn a'r ddogfen arferion rheoli;
- y gallu i Weinidogion Cymru ddiwygio/penderfynu ar y Gorchmyn a'r ddogfen arferion rheoli yn unochrog (ac ar fyr rybudd os oes argyfwng neu berygl o ddifrod uniongyrchol etc) os bydd hynny'n angenrheidiol o ganlyniad i rwymedigaethau amgylcheddol Gweinidogion Cymru (er enghraifft, os cafwyd ei bod yn bosibl bod y bysgodfa yn difrodi Safle Morol Ewropeaidd).

Materion sy'n ymwneud â Safleoedd Morol Ewropeaidd

5.15 Mae'r rhan fwyaf o'r gwelyau pysgod cregyn hyfyw yng Nghymru un ai o fewn neu'n agos i ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), yn unol â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC), neu'n Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), yn unol â'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt (Cyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC). Mae ACAau ac AGAau morol yn cael eu galw gyda'i gilydd isod yn Safleoedd Morol Ewropeaidd (SME).

-
- 5.16 Os yw'r bysgodfa arfaethedig o fewn SME yng Nghymru (neu'n ddigon agos fel y gallai effeithio arno), rhaid i Weinidogion Cymru asesu a yw'r bysgodfa'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar y safle (un ai ar ei phen ei hun neu ar y cyd â phrosiectau eraill yn yr ardal). Os credir ei bod yn debygol y bydd y bysgodfa arfaethedig yn cael effaith arwyddocaol ar y safle, ni all Gweinidogion Cymru symud ymlaen i wneud y Gorchymyn arfaethedig oni bai eu bod wedi gallu cadarnhau na fydd y bysgodfa arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle dan sylw drwy gydol cyfnod y Gorchymyn (Erthygl 6(3) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd).
- 5.17 Un o'r prif anawsterau ynghylch ceisiadau am Orchymynion Pysgodfa Unigol a Gorchymynion Rheoleiddio Pysgodfa ar hyn o bryd yw bod angen cryn hyblygrwydd ar yr ymgeiswyr wrth reoli'r bysgodfa er mwyn gallu rhedeg y bysgodfa'n effeithiol, gan ystyried natur ddynamig yr amgylchedd morol ac amodau cyfnewidiol. Hefyd, o ystyried yr amser y mae'n ei gymryd i sefydlu pysgodfa hyfyw (er enghraifft, os sefydlir ecosystem newydd, gall gymryd o leiaf ddwy neu dair blynedd cyn gallu cynaeafu'r cnwd cyntaf) nid yw gofyn am Orchymyn am gyfnod byr yn hyfyw o safbwynt masnachol – yn enwedig o gofio y gall yr ymgeisydd wynebu costau sylweddol am wneud cais o dan y darpariaethau presennol yn Neddf 1967.
- 5.18 Felly, mae angen i Weinidogion Cymru ystyried beth yw'r ffordd orau o gael y sicrwydd digonol na fydd effeithiau niweidiol ar unrhyw SME (ar sail y mesurau arfaethedig ar gyfer rheoli'r bysgodfa) drwy gydol cyfnod y Gorchymyn (a all fod yn gyfnod o nifer o flynyddoedd) ochr yn ochr ag angen y pysgotwyr am hyblygrwydd i redeg y bysgodfa'n effeithiol ond heb achosi niwed.
- 5.19 Y prif faes lle y mae angen newid yn y system bresennol ar gyfer Gorchymynion Pysgodfa Unigol a Gorchymynion Rheoleiddio Pysgodfa (yn bennaf er mwyn delio â'r anawsterau sy'n codi pan fydd y pysgodfeydd arfaethedig o fewn SME neu'n agos i SME) yw'r defnydd presennol o Gynlluniau Rheoli yn y broses ymgeisio.

Cynlluniau Rheoli

- 5.20 Os bydd angen diwygio neu ddirymu Gorchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio Pysgodfa, mae'n ofynnol ar hyn o bryd, o dan adran 1(6) o Ddeddf 1967 (heblaw mewn amgylchiadau penodol) fod y broses ymgeisio lawn yn Neddf 1967 yn cael ei dilyn. Bydd y broses honno'n cynnwys cyhoeddi'r Gorchymyn dirymu/diwygio arfaethedig, cyfnod ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiad ac wedyn, os ceir gwrthwynebiad sy'n berthnasol, mae'n bosibl y bydd angen cynnal ymchwiliad cyhoeddus hefyd. Mae'n dilyn o hynny na ellir diwygio neu ddiddymu Gorchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio Pysgodfa ar fyr rybudd ar ôl ei wneud – cam a allai fod

yn angenrheidiol, er enghraifft, os daeth yn amlwg y gallai'r bysgodfa gael effaith niweidiol ar ACA forol.

- 5.21 Wrth geisio cydbwyso'r angen sydd gan Weinidogion Cymru am sicrwydd ynghylch yr arferion rheoli arfaethedig, ochr yn ochr ag angen y pysgotwyr am hyblygrwydd, mae'r arfer wedi datblygu o fabwysiadu dogfen sy'n gyfochrog ond ar wahân sy'n cael ei alw'n "Gynllun Rheoli".
- 5.22 Mae'r Cynllun Rheoli yn rhoi digon o fanylion am y dull o reoli'r bysgodfa i alluogi Gweinidogion Cymru i asesu sut y bydd y bysgodfa'n cael ei gweithredu ac a allai gael effaith ar unrhyw SME. Pe byddai'r manylion hynny wedi'u rhoi ar wyneb y Gorchymyn, byddai unrhyw newid yn yr arferion rheoli arfaethedig yn galw am ddiwygio'r Gorchymyn hwnnw.
- 5.23 Er bod y defnydd o Gynllun Rheoli yn rhoi i'r pysgotwyr yr hyblygrwydd y mae arnynt ei angen i reoli'r pysgodfeydd yn effeithlon, mae'r dull presennol yn creu haen ychwanegol o gymhlethdod. Nid oes cyfeiriad at ddogfen Cynllun Rheoli yn y darpariaethau presennol yn Neddf 1967. Mae'n ofynnol bod y Grantî yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau sydd yn y Gorchymyn ond, er hynny, ni all y Gorchymyn gyfeirio at y Cynllun Rheoli (fel na fydd newidiadau yn y Cynllun Rheoli yn galw am ddiwygio'r Gorchymyn). Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn creu sefyllfa lle nad oes gan bysgotwyr yr hyblygrwydd y mae arnynt ei angen i redeg y bysgodfa'n effeithiol a lle nad yw Gweinidogion Cymru yn gallu mynnu bod y bysgodfa'n cael ei rhedeg mewn ffordd nad yw'n achosi niwed.
- 5.24 Mae angen newidiadau, felly, yn Neddf 1967 (sef y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r broses ymgeisio a'r ffordd o weithredu'r Gorchymynion Pysgodfa Unigol a'r Gorchymynion Rheoleiddio Pysgodfa). Mae'r rhan fwyaf o anawsterau'n codi mewn cysylltiad â physgodfeydd cregyn sydd o fewn neu'n ddigon agos i SME yng Nghymru. Mae tua 70 y cant o'r moroedd tiriogaethol o gwmpas arfordir Cymru wedi'i ddynodi'n SME ac mae'r rhan fwyaf o'r pysgodfeydd cregyn hyfyw yng Nghymru o fewn neu'n gyfagos i SME.

Gorfodi

- 5.25 Nid oes unrhyw bwerau penodol neu ddatganedig ar gyfer gorfodi yn Neddf 1967. Oherwydd rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru o ran cadwraeth a'r amgylchedd, rhaid sicrhau bod y Grantî yn cydymffurfio â thelerau'r Gorchymyn a'r arferion rheoli a gytunwyd ac nad yw'r ffordd o redeg y bysgodfa'n creu'r posibilrwydd o ddifrodi unrhyw safleoedd, nodweddion neu rywogaethau a warchodir yng nghyffiniau'r bysgodfa. Byddwn yn cynnal arolygiadau "hapwirio" o'r

math hwn yn aml yng nghyswllt ardaloedd amaethyddol eraill (er enghraifft, hapwiriadau ar ffermydd i sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau Ewropeaidd a sicrhau lles anifeiliaid etc).

- 5.26 Mae set o bwerau gorfodi ar gyfer pysgodfeydd wedi'i darparu, at rai dibenion, o dan Ran 8 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Mae'r bwerau sydd ar gael o dan Ran 8 o Ddeddf 2009 yn cael eu hystyried yn fanwl ar hyn o bryd i sicrhau eu bod yn rhoi'r bwerau cynhwysfawr y mae ar Lywodraeth Cymru eu hangen at y dibenion sydd wedi'u disgrifio uchod. Os credir, ar ôl ystyried y bwerau hynny, fod unrhyw wendidau ynddynt, gellir ystyried cynnwys darpariaeth bwrpasol ar gyfer gorfodi ym Mil yr Amgylchedd.

Trosolwg ar effaith bosibl y cynnig

- 5.27 Mae'r diwydiant pysgod cregyn yn rhan bwysig o economi'r DU ac mae'n werth mwy na £250 miliwn y flwyddyn³⁵. Mae'r farchnad mewn pysgod cregyn (a chynhyrchion cysylltiedig) yn y DU yn tyfu'n gyflymach nag ar gyfer bwydydd eraill, a chafwyd bron chwech y cant o'r gwariant ar fwyd yn y farchnad hon yn y cyfnod diweddar. Yn 2005, pennwyd bod amaethu pysgod cregyn yng Nghymru yn werth £12 miliwn³⁶. Mae ffermio pysgod cregyn, yn enwedig cregyn gleision ac wystrys, yn rhan helaeth o'r diwydiant pysgod cregyn yng Nghymru. Mae ardal Afon Menai (sy'n Safle Morol Ewropeaidd) yn cynhyrchu rhwng 50 a 75 y cant o'r holl gregyn gleision sydd wedi'u 'ffermio' yn y DU a chynhyrchir rhwng 6,000 a 11,000 o dunelli bob blwyddyn gan bedwar cwmni gweithredol. Yn ystod 2011-12 gwnaethant elw o fwy na £5 miliwn gyda'i gilydd, gan wneud cyfraniad o bwys i economi Cymru ac at ddarparu swyddi yn y gymuned leol.
- 5.28 Byddai'r newidiadau arfaethedig yn y system a sefydlwyd gan Ran 1 o Ddeddf Pysgodefydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gwrdd â'u rhwymedigaethau amgylcheddol gan roi i'r pysgotwyr yr hyblygrwydd y mae arnynt ei angen i reoli'r bysgodfa'n effeithlon. O ganlyniad i hyn, bydd Gorchmynion o'r fath yn fwy deniadol (oherwydd, mewn amgylchiadau priodol, gellid eu rhoi am gyfnodau hirach) ac felly'n creu mwy o gyfleoedd economaidd ar gyfer busnesau pysgodfeydd cregyn yng Nghymru. Byddent hefyd yn helpu i greu cyfleoedd o ran yr economi a chyflogaeth ar gyfer cymunedau lleol, busnesau bach a chanolig eu maint ac unig fasnachwyr.

³⁵ Defra, Shellfisheries: Several Orders and Regulating Orders guidance. Cyrchwyd 4 Medi 2013: <https://www.gov.uk/shellfisheries-several-orders-and-regulating-orders>

³⁶ Strategaeth Pysgodfeydd Cymru, (2008), Llywodraeth Cynulliad Cymru.

-
- 5.29 Drwy fonitro nifer y ceisiadau yn y dyfodol, yr amser a gymerir a'r mathau o anawsterau a geir wrth brosesu ceisiadau am Orchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio Pysgodfa o dan y system newydd, dylai fod yn bosibl mesur effaith y newidiadau arfaethedig. Yn ogystal â hyn, dylai fod yn bosibl mesur lefel y bodlonrwydd yn y diwydiant drwy ohebu â gwahanol weithredwyr y Gorchmynion Pysgodfa Unigol a'r Gorchmynion Rheoleiddio Pysgodfa yng Nghymru. Ni fydd newid sylweddol yn y camau dadansoddi amgylcheddol o ganlyniad i'r cynigion hyn ond rydym yn rhag-weld y bydd y darpariaethau newydd yn caniatáu gwneud Gorchymyn am gyfnod sy'n addas i anghenion y diwydiant gan warchod rhag effeithiau amgylcheddol yr un pryd.
- 5.30 O dan y system bresennol, bydd ceisiadau sy'n ymwneud â physgodfeydd cregyn arfaethedig sydd heb fod o fewn SME yn cymryd o leiaf 16 mis yn aml cyn rhoi Gorchymyn (os caiff ei gymeradwyo). Mae'n anodd rhoi amcangyfrif manwl ar gyfer ceisiadau am bysgodfeydd cregyn arfaethedig o fewn neu'n gyfagos i SME oherwydd y ffactorau newidiol y mae angen eu hystyried wrth eu hasesu. Fodd bynnag, er mwyn rhoi amcangyfrif bras, mae'n cymryd o leiaf ddwy flynedd, a chyfnod hirach o lawer mewn rhai achosion, i roi Gorchmynion o'r fath ar hyn o bryd.
- 5.31 Ar ôl gweithredu'r newidiadau arfaethedig, yr amcangyfrifon ceidwadol yw:
- y bydd yn cymryd tua 9 mis o leiaf i roi Gorchymyn am bysgodfa nad yw o fewn neu'n gyfagos i SME, os cymeradwyir y cais;
 - y bydd yn cymryd tua 9-12 mis o leiaf i roi Gorchymyn am bysgodfa sy'n gyfagos i SME, os cymeradwyir y cais ac yn ôl y math o SME a physgodfa arfaethedig;
 - y bydd y cyfnod ar gyfer delio â chais am Orchymyn ar gyfer pysgodfa o fewn SME yn amrywiol iawn. Bydd yn dibynnu'n fawr ar natur y bysgodfa cregyn a gynigir ac amcanion cadwraeth yr SME dan sylw. Credir y bydd yn cymryd 14-18 mis o leiaf i ganiatáu'r rhan fwyaf o'r ceisiadau am Orchymyn (os caiff ei gymeradwyo).
- Sylwer: Nid yw'r cyfnodau hyn yn cynnwys y cam cyn ymgeisio, pryd y bydd ymgeiswyr yn cael eu hannog i drafod y bysgodfa arfaethedig a'r dull o'i rheoli â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hannog i drafod â Chomisiynwyr Ystadau'r Goron hefyd os yw hynny'n berthnasol.
- Drwy'r gallu i addasu'r arferion rheoli (ynghyd â gallu Gweinidogion Cymru i addasu/penderfynu ar y Gorchymyn yn ôl yr angen os oes posibilrwydd o ddifrod amgylcheddol), bydd yn bosibl i Lywodraeth Cymru roi Gorchmynion am gyfnodau hirach nag sy'n bosibl ar hyn

o bryd. Bydd angen adolygu'r ddogfen arferion bob ychydig o flynyddoedd, yn ôl lleoliad y bysgodfa (er enghraifft, os yw'r bysgodfa o fewn SME, mae'n debygol y bydd angen addasu dogfen y cynllun rheoli'n amlach na safleoedd y tu allan i SME) a maint yr hyder yn yr arferion rheoli sydd wedi'u cynnig.

- 5.32 Rydym yn cydnabod y bydd rhywfaint o amser a chostau o hyd ynglŷn â newid y ddogfen arferion rheoli. Er hynny, credir y bydd y manteision yn fwy na digon i gyfiawnhau'r gwaith ychwanegol y bydd ei angen.
- 5.33 O ran y cyfnod a gymerir i brosesu cais am Orchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio Pysgodfa, o dan y system newydd credir y bydd yn cymryd tua dwy ran o dair o'r amser a dreulir ar hyn o bryd i ddelio â cheisiadau o'r fath, felly bydd yn arbed amser ac adnoddau sylweddol.

Cwestiynau ymgynghori

35. A ydych yn cytuno â'r cynnig ynghylch Gorchmynion Pysgodfeydd Cregyn? Rhwch eich sylwadau.
36. A oes unrhyw newidiadau eraill yn system y Gorchymyn Pysgodfa Unigol a'r Gorchymyn Rheoleiddio Pysgodfa y dylid eu hystyried (h.y. a oes ffyrdd eraill o wella'r arferion presennol)?
37. A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y cynnig hwn (er enghraifft, effeithiau ar eich busnes)?

Rheoli Draenio Tir

SM3: Gwella'r rheoli ar Orchmynion Draenio Tir y Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol

- 5.34 Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod bwloch yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd ym mhwerau Gweinidogion Cymru o dan Adran 29 o Ddeddf Draenio Tir 1991. Mae Adran 28 yn pennu y caiff perchennog neu feddiannydd tir wneud cais i Dribiwnlys Tir Amaethyddol am Orchymyn i'w gwneud yn ofynnol bod perchennog tir cyfagos yn gwella ei systemau draenio i gael gwared â'r llif gormodol o ddŵr o'i dir sy'n achosi tramgwydd. Os bydd atebydd yn gwrthod cydymffurfio â gofynion Gorchymyn sydd wedi'i wneud gan y Tribiwnlys Tir Amaethyddol, caiff y ceisydd mewn achos ofyn i Lywodraeth Cymru gymryd camau gorfodi o dan delerau Adran 29(2) o Ddeddf Draenio Tir 1991.
- 5.35 Mae pwerau mynediad ar gael o dan Adran 29(2) fel y caiff asiantwyr Llywodraeth Cymru fynd ar y tir i wneud gwaith a ddylai fod wedi'i gyflawni o dan y Gorchymyn. Fodd bynnag, er bod pŵer gan yr asiant i fynd ar y tir i gyflawni'r gwaith, nid oes pŵer i fynd ar y tir i weld a yw'r gwaith wedi'i gyflawni. Felly mae terfyn ar ei allu i ymchwilio i fethiant honedig i gydymffurfio â thelerau Gorchymyn Tribiwnlys Tir Amaethyddol. Os bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn am adroddiad gan asiant arbenigol ar fethiant honedig i gydymffurfio â Gorchymyn Tribiwnlys Tir Amaethyddol ac os gwrthodir rhoi mynediad ar y tir, nid oes pwerau ganddynt i awdurdodi asiant arbenigol sydd wedi'i benodi i fynd ar y tir ac adrodd ar fethiant honedig i gydymffurfio â thelerau Gorchymyn Tribiwnlys Tir Amaethyddol. Mae'r cyfyngiad hwn yn tanseilio trefniadau llywodraethu'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol.
- 5.36 Gofynnir am sylwadau ynghylch y diwygiad arfaethedig i egluro'r gyfraith a chreu hawl i fynd ar dir i alluogi asiantwyr Llywodraeth Cymru i ymchwilio i gydymffurfiaeth â Gorchymynion Tribiwnlys Tir Amaethyddol lle y mae parti i'r Gorchymyn hwnnw wedi gwrthod mynediad. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i gymryd camau cadarnhaol pellach mewn achosion sy'n ymwneud â'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol.

Trosolwg ar effaith bosibl y cynnig

- 5.37 Un o'r canlyniadau posibl i'r newidiadau arfaethedig yn Neddf Draenio Tir 1991 yw y bydd yn cymryd llai o amser i Lywodraeth Cymru brosesu Gorchymyn Tribiwnlys Tir Amaethyddol mewn rhai amgylchiadau penodol lle y gwrthodwyd mynediad i asiantwyr Llywodraeth Cymru i ymchwilio i gydymffurfiaeth â Gorchymyn

Tribiwnlys Tir Amaethyddol. Felly, gall y newidiadau arfaethedig arbed ychydig o adnoddau o ran amser ac arian wrth wneud cais o'r fath i'r ceisydd ac i Lywodraeth Cymru.

- 5.38 Mae'r newidiadau hefyd yn debygol o arwain at gyflawni Gorchmynion Tribiwnlys Tir Amaethyddol yn fwy llwyddiannus. Bydd hyn o fantais yn y pen draw i'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer rheoli draenio tir, yn enwedig yng nghyswllt systemau draenio, a bydd yn dod â manteision amgylcheddol o ganlyniad i sicrhau bod systemau draenio yn llifo'n ddirwysr. Gellir cael manteision ariannol anuniongyrchol ar ben hynny o ganlyniad i allu ceiswyr i ffermio heb rwystr a defnyddio eu tir mewn ffyrdd eraill na fyddai wedi bod yn bosibl os oedd eu tir dan ddŵr neu'n orlawn o ddŵr.
- 5.39 Bydd y corff draenio yr oedd y camau gweithredu wedi'u dirprwyo iddo yn adennill unrhyw gostau oddi wrth y personau sy'n gwrthod mynediad. Byddai hyn yn cynnwys y costau cyfreithiol o ganlyniad i gyflwyno hysbysiad mynediad. Ni fydd unrhyw gostau i unrhyw gyrff cyhoeddus.

Rheoli Llifogydd a Dŵr

SM4: Gwella ffyrdd o reoli llifogydd a dŵr

- 5.40 Rydym yn cynnig diwygiad yn Adran 47 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i roi pŵer i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i'r un sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio Deddf Dŵr drwy orchymyn os byddant wedi'u bodloni:
- y bydd hynny'n ei gwneud yn haws cydgrynhoi un neu ragor o Ddeddfau Dŵr;
 - bod prif effaith y newid (os oes un) yn gymesur â'r fantais a geir drwy gydgrynhoi'r deddfwriaeth. Dim ond os yw'r diwygiad yn ymwneud â mater yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 y ceir arfer y pŵer hwn. Hynny yw, rhaid iddo fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol;
 - nad yw'n dileu unrhyw warchodaeth gan y gyfraith.
- 5.41 Y cynnig yw y bydd pŵer gan Weinidogion Cymru i ddiwygio'r Deddfau Dŵr drwy orchymyn er mwyn dileu gwahaniaethau rhwng dwy neu ragor o ddarpariaethau (pa un a ydynt o fewn yr un Ddeddf neu beidio), i symleiddio gweithdrefnau a/neu i gywiro gwallau neu ddileu aneglurder.
- 5.42 Y Deddfau Dŵr sydd wedi'u rhestru yw:
(a) Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010;

-
- (b) Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (i'r graddau y mae'n berthnasol i ddŵr);
 - (c) Deddf Amddiffyn y Glannau 1949;
 - (d) Deddf Cronfeydd Dŵr 1975;
 - (e) Deddf Priffyrdd 1980 (i'r graddau y mae'n berthnasol i ddŵr);
 - (d) Deddf Draenio Tir 1991;
 - (e) Deddf Adnoddau Dŵr 1991;
 - (f) Deddf yr Amgylchedd 1995.
- 5.43 Gellir gwneud gorchymyn o dan adran 47 i safoni darpariaethau ynghylch apelau, prynu gorfodol, hawliau mynediad a digolledu, ymysg pethau eraill.
- 5.44 Ar hyn o bryd ni all yr Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn heb gydsyniad un o Weinidogion Cymru ond, gan fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi cael pwerau ychwanegol bellach i basio Deddfau'r Cynulliad, gall y Cynulliad basio Bil yn awr i gydgrynhoi deddfwriaeth sy'n ymwneud â dŵr. Mae'n briodol, felly, fod Gweinidogion Cymru yn cael pwerau sy'n cyfateb i rai'r Ysgrifennydd Gwladol.
- 5.45 Ar ôl cael y pŵer hwn, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu paratoi ar gyfer unrhyw Fil cydgrynhoi drwy ddelio ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â gwahaniaethau rhwng dwy neu ragor o ddarpariaethau, gweithdrefnau cymhleth a chywiro unrhyw wallau neu ddatrys unrhyw anghysonder yn ddi-oed.
- 5.46 Mae'r cynnig hwn yn gysylltiedig â'r cynnig yn NRM11 sy'n egluro cynlluniau i roi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud diwygiadau sy'n dileu gwahaniaethau rhwng y ddeddfwriaeth bresennol a'r diben o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r pŵer sydd wedi'i gynnig yn NRM11 yn cynnwys cyfleoedd i ddileu neu gyfuno agweddau ar y ddeddfwriaeth cyn ei chydgrynhoi. Gellid cysylltu'r cynnig hwn ar gyfer y Deddfau Dŵr â'r cynnig ehangach yn opsiwn 1 yn NRM11. Fel arall, roedd opsiwn 2 yn NRM11 yn cynnig y posibilrwydd o ymestyn y cyfle i ddiwygio deddfwriaeth amgylcheddol yn fwy cyffredinol. Os ceir cefnogaeth i'r opsiwn hwn, gellir cynnwys y Deddfau Dŵr yn y cynnig ehangach hwn.

Trosolwg ar effaith bosibl y cynnig

- 5.47 Pwrpas y cynnig hwn yw rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ac ni fydd yn arwain ar ei ben ei hun at gostau i gyrff cyhoeddus nac effaith benodol arnynt.
- 5.48 Gan nad ydym yn gwybod yn awr pa bryd a sut y bydd Gweinidogion Cymru yn arfer y pwerau hyn, ni ellir asesu'r effeithiau'n fanwl ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y cynnig yn cynnwys gofyniad na fydd Gorchymyn yn cael ei wneud oni bai fod drafft, gydag eglurhad o

effaith unrhyw newidiadau sydd i'w gwneud a sut y byddant yn ei gwneud yn haws i gydgrynhoi deddfwriaeth, wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw effeithiau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig mewn unrhyw Orchymyn a wneir wedyn yn cael eu hystyried a'u trafod drwy asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân.

Cwestiynau ymgynghori

38. A ydych yn cytuno â'r cynnig ynghylch newidiadau yn Adran 29 o Ddeddf Draenio Tir 1991?
39. A ydych yn cytuno â'r cynnig ynghylch newidiadau yn Adran 47 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010?
40. A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y naill gynnig neu'r llall?

Pennod 6: Gweithredu

Gweithredu'r ddeddfwriaeth arfaethedig

- 6.1 Ym mhob rhan o'r ddogfen ymgynghori hon rydym wedi casglu dystiolaeth gychwynnol o'r effeithiau a ddisgwylir o bob un o'r cynigion sydd wedi'u disgrifio. Rydym yn casglu rhagor o wybodaeth fanwl am gostau a buddion a byddwn yn croesawu ac yn ystyried unrhyw dystiolaeth bellach a gyflwynir yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn hwn. Bydd y dystiolaeth hon yn cael ei datblygu'n Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn wrth inni symud ymlaen i gyflwyno'r Bil Amgylchedd.
- 6.2 Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys ystyriaeth i adolygiad ar ôl gweithredu a gaiff ei hwyluso drwy fonitro a gwerthuso parhaus ar weithgareddau a chanlyniadau.
- 6.3 Rydym yn rhag-weld ar hyn o bryd y bydd Bil yr Amgylchedd, ar sail y cynigion sydd yn y Papur Gwyn hwn, yn cael effaith gadarnhaol ar nifer o ymrwymadau allweddol Llywodraeth Cymru:
- **Datblygu Cynaliadwy**
- 6.4 Mae dyletswydd gyfreithiol arnom o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ystyried datblygu cynaliadwy.
- 6.5 O ganlyniad i hynny, dylai egwyddorion datblygu cynaliadwy fod yn sail i'r cynigion craidd sydd yn y Papur Gwyn hwn sydd â'r amcan o greu dull integredig o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru. Mae'r berthynas hon wedi'i disgrifio'n fanwl ym Mhennod 2 sy'n trafod y diffiniad cyfreithiol o reoli adnoddau naturiol ac yn cynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y diffiniad hwn. Mae'r ffordd o ddehongli a chymhwyso'r diffiniad hwn o reoli adnoddau naturiol, ac felly datblygu cynaliadwy, yn rhan sylfaenol a hanfodol o Fil yr Amgylchedd.
- 6.6 Mae cysylltiadau agos hefyd rhwng Bil yr Amgylchedd a Bil Cenedlaethau'r Dyfodol. Nod Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau bod penderfyniadau a wneir heddiw yn ystyried y canlyniadau hirdymor ac yn cydnabod y cysylltiadau rhwng cyfiawnder cymdeithasol, ffyniant economaidd a'r defnydd o adnoddau naturiol, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Bydd y cynigion yn y Papur Gwyn hwn ar gyfer dull ar sail ardal yn helpu i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y penderfyniadau hyn, ac yn ein helpu i flaenoriaethu rheolaeth ar adnoddau naturiol yng Nghymru mewn ffordd sy'n diwallu anghenion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn awr ac yn y dyfodol.

- **Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

6.7 Mae gwaith sgrinio cychwynnol wedi'i gwblhau ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i benderfynu i ba raddau mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn berthnasol i gydraddoldeb a hawliau dynol. Roedd hyn yn cynnwys asesiad o'r effaith ar bobl o wahanol oed a hil a phobl â gwahanol anabledau. Rydym yn bwriadu ymchwilio ymhellach i hyn drwy gynnal digwyddiadau i ymgynghori ac ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid allweddol er mwyn datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn ac ystyrion ar gyfer asesu gwahanol effeithiau'r cynigion ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Os bydd angen, byddwn yn comisiynu gwaith i gasglu mwy o dystiolaeth a chyhoeddir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a fydd yn trafod pob agwedd ar hyn wrth gyflwyno Bil yr Amgylchedd.

- **Sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**

6.8 Bydd y cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn hyrwyddo egwyddorion Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae asesiad sgrinio cychwynnol wedi'i gwblhau sy'n dangos, ar gyfer pob un o'r Erthyglau, a yw'r amcanion yn torri, yn parchu neu'n hyrwyddo eu hamcanion. Mae hefyd yn nodi unrhyw gamau ychwanegol y mae angen eu cymryd. Dylid darllen yr asesiad hwn ochr yn ochr â'r gwaith sgrinio cychwynnol ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Cwestiynau ymgynghori

41. Rydym am sicrhau bod Bil yr Amgylchedd yn adlewyrchu anghenion Dinasyddion Cymru. Felly, byddwn yn falch o gael unrhyw sylwadau am unrhyw un o'r cynigion sydd yn y Papur Gwyn hwn a allai effeithio ar a) Hawliau Dynol b) y Gymraeg neu c) y nodweddion gwarchoddedig sydd wedi'u pennu yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys rhywedd; oed; crefydd; hil; cyfeiriadedd rhywiol; trawsrywedd; priodas neu Bartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; ac anabled.
42. A oes gan yr ymgynghoreion unrhyw sylwadau eraill neu wybodaeth ddefnyddiol mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn?

Atodiad 1 - Ymateb i'r ymgynghoriad

Mae ffurflen ymgynghori ar gael ar wahân. Er hwylustod, ceir crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad isod.

Pennod 2 – Rheoli Adnoddau Naturiol

1. A ydych yn cytuno â'r pecyn cyfan o gynigion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol a ddisgrifir ym mhennod 2?
2. A ydych yn cytuno â'r ffordd o ddiffinio adnoddau naturiol, rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a rheoli adnoddau naturiol yn integredig yng Nghymru?
3. A ydych yn cytuno y dylid cynnwys cynllunio i wrthsefyll a lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn y dull rheoli adnoddau naturiol yn integredig ar y lefel genedlaethol a'r lefel leol?
4. A ydych yn cytuno y dylid dilyn cylch pum mlynedd ar gyfer pennu canlyniadau cenedlaethol a champau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol, fel ag a nodir ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol?
5. A ydych yn cytuno y bydd y dull rheoli ar sail ardal yn helpu i sicrhau dull o weithredu sy'n glir, yn fanwl ac yn dilyn blaenoriaethau?
6. A ydych yn cytuno bod y dull yn ddigon hyblyg i allu disodli elfennau arwyddocaol o'r cynlluniau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn y dyfodol?
7. A ydych yn cytuno â'r bwriad i osod gofyn ar gyrff cyhoeddus eraill i gydweithredu gyda'r dull rheoli ar sail ardal?
8. A ydych yn cytuno y dylai CNC fod yn awdurdod adrodd arweiniol ar gyfer adnoddau naturiol?
9. A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y cynigion hyn (er enghraifft, effeithiau ar eich sefydliad)?

Pennod 3: Cyfoeth Naturiol Cymru – Cyfleoedd newydd i gyflawni ei ddiben

10. A ydych yn cytuno â'r cynigion a ddisgrifir ym mhennod 3 ynghylch ffyrdd newydd o weithio ar gyfer CNC?
11. Pa gyfyngiadau neu fesurau diogelu ar gyfer defnyddio pwerau allai fod eu hangen i CNC allu treialu dulliau arloesol o reoli adnoddau naturiol yn integredig?
12. A ydych yn cytuno mai CNC yw'r corff priodol i fod yn hwyluswyr, yn frocerwyr ac yn achredwyr mewn Cynlluniau Talu am Wasanaethau

Ecosystemau? A ydych yn credu bod angen pŵer newydd i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer TWE?

13. Faint o bwerau ddylai fod gan CNC i wneud cytundebau rheoli?
14. Gan gydnabod bod yna rai pwerau eisoes yn bod yn hyn o beth, ble mae'r cyfleoedd i sefydlu Rheolau Rhwymo Cyffredinol y tu hwnt i hynny?
15. Gyda golwg ar bŵer diwygio Gweinidogion Cymru, a ydych yn cefnogi:
a) y cynnig cyntaf i'w gyfyngu i swyddogaethau CNC, o dan yr amodau sydd wedi'u nodi neu b) y cynnig ychwanegol i gynnwys deddfwriaeth amgylcheddol ehangach, o dan yr amodau sydd wedi'u nodi?
17. Nodwch unrhyw dystiolaeth benodol o feysydd lle gallai fod gwrthdaro neu rwystr rhwng amcanion arfaethedig rheoli adnoddau naturiol yn integredig a'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei gweithredu ar hyn o bryd. A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y cynigion hyn, er enghraifft, ar eich busnes neu sefydliad?

Pennod 4: Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon

Rheoleiddio Trefniadau i Wahanu a Chasglu Gwastraff

A ydych yn cytuno â'r cynigion ym mhennod 4, a'r ffordd o gyfuno'r pum mesur, yng nghyswllt rheoleiddio trefniadau gwahanu gwastraff?

18. A oes unrhyw ddeunyddiau neu ffrydiau gwastraff eraill y dylid eu cynnwys yn y gofynion i ddioli a chasglu ar wahân? Os oes, beth ydynt, a pham y dylid eu cynnwys?
19. A ydych yn cytuno bod lefel y gwahanu y gofynnir i unigolion / busnesau ei gyflawni yn dderbyniol? Os nad ydych, nodwch y rheswm a chynigiwch ddewis arall.
20. A oes busnesau o fath neu faint penodol lle na fyddai'n ymarferol, o safbwynt technegol, amgylcheddol neu economaidd, i gadw'r saith ffrwd wastraff ar wahân yn y ffynhonnell? Os oes, enwch y rhain ac eglurwch y rheswm.
21. A ydych yn cytuno â'r rhestr o ddeunyddiau yr ydym yn cynnig eu gwahardd o gyfleusterau troi gwastraff yn ynni neu safleoedd tirlenwi? A oes unrhyw ddeunyddiau eraill y dylid eu gwahardd o gyfleusterau troi gwastraff yn ynni neu safleoedd tirlenwi? Os oes, beth ydynt, a pham?
22. A ydych yn cytuno ei bod yn ymarferol datblygu canllawiau ar lefelau halogi sy'n dderbyniol mewn gwastraff gweddilliol ar gyfer gweithredwyr safleoedd tirlenwi/llosgi a'r rheoleiddiwr? Os nad ydych, pa ddull arall y gellid ei ddefnyddio?

-
23. A ydych yn cytuno bod angen gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd? Os felly, a ddylai fod yn gymwys i: i) gartrefi ii) busnesau a'r sector cyhoeddus neu iii) y ddau, a pham?
 24. A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch ffyrdd o orfodi i) busnesau a'r sector cyhoeddus a ii) cartrefi i gydymffurfio gyda'r gwaharddiad?
 25. A ydych yn cytuno bod y cyfnodau cyn gweithredu'r cynigion yn rhesymol? Os nad ydych, pa gyfnod arall yr ydych yn ei awgrymu?
 26. A ydych yn cytuno mai CNC yw'r corff gorau i reoleiddio'r ddyletswydd i ddiolli gwastraff? Os nad ydych, eglurwch y rheswm a chynigiwch gorff rheoleiddio arall.
 27. Yn eich barn chi, pa gorff ddylai reoleiddio'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd ar gyfer busnesau a'r sector cyhoeddus: i) CNC ii) Awdurdodau Lleol iii) ymgymerwr carthffosiaeth neu iv) Arall. Os ydych yn nodi 'Arall', cynigiwch gorff rheoleiddio arall ac eglurwch eich rhesymau.
 28. A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y cynigion hyn (er enghraifft, effeithiau ar eich sefydliad)?

Bagiau Siopa

29. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ymestyn pwerau galluogi Gweinidogion Cymru fel y gallant ddarparu, drwy reoliadau, ar gyfer pennu taliadau isaf am fathau eraill o fapiau siopa yn ogystal â bagiau siopa untro?
30. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ymestyn pwerau galluogi Gweinidogion Cymru fel y gallant ei gwneud yn ofynnol, drwy reoliadau, fod manwerthwyr yn trosglwyddo eu helw net i unrhyw achosion da?
31. A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y cynigion hyn (er enghraifft, effeithiau ar eich sefydliad)?

Pennod 5: Hwyluso Rheoli Doethach

Rheoli Trwyddedu Morol

32. A ydych yn cytuno â'r cynigion ynghylch Trwyddedu Morol?
33. A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru ymestyn gallu CNC i adennill costau sy'n gysylltiedig â thrwyddedu morol drwy godi ffioedd am:
 - i. costau cyn ymgeisio?
 - ii. costau am amrywio telerau mewn trwyddedau?
 - iii. costau am drosglwyddo trwyddedau?
 - iv. talu costau rheoleiddio, drwy daliadau parhau?

34. A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y cynigion?

Rheoli Pysgodfeydd Cregyn

35. A ydych yn cytuno â'r cynnig (SM2) ynghylch Gorchmynion Pysgodfeydd Cregyn? Rhowch eich sylwadau.
36. A oes unrhyw newidiadau eraill yn system y Gorchmyn Pysgodfa Unigol a'r Gorchmyn Rheoleiddio Pysgodfa y dylid eu hystyried (h.y. a oes ffyrdd eraill o wella'r arferion presennol)?
37. A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y cynnig hwn (er enghraifft, effeithiau ar eich busnes)?

Rheoli Draenio Tir / Llifogydd a Dŵr

38. A ydych yn cytuno â'r cynnig ynghylch newidiadau yn Adran 29 o Ddeddf Draenio Tir 1991?
39. A ydych yn cytuno â'r cynnig ynghylch newidiadau yn Adran 47 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010?
40. A oes gennych unrhyw sylwadau am effaith y naill gynnig neu'r llall?

Pennod 6: Gweithredu

41. Rydym am sicrhau bod Bil yr Amgylchedd yn adlewyrchu anghenion Dinasyddion Cymru. Felly, byddwn yn falch o gael unrhyw sylwadau am unrhyw un o'r cynigion sydd yn y Papur Gwyn hwn a allai effeithio ar a) Hawliau Dynol b) yr Gymraeg neu c) y nodweddion gwarchoddedig sydd wedi'u pennu yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys rhywedd; oed; crefydd; hil; cyfeiriadedd rhywiol; trawsrywedd; priodas neu Bartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; ac anabled.
42. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill neu wybodaeth ddefnyddiol mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn?

Atodiad 2 – Cyfeiriadau

Cymru Fyw: fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd *Papur Gwyrdd* (2010), Llywodraeth Cymru

Astudiaeth ymddygiad ynghylch defnyddio ac aildefnyddio bagiau siopa (2012), Llywodraeth Cymru
http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/substance/carrierbags/behaviour-study-on-use-of-carrier-bags-2012/?skip=1&lang=cy

Menter Mynyddoedd Cambria:
<http://cambrianmountains.co.uk/cy/>

CBD Secretariat of the Convention on Biological Diversity, The Ecosystem Approach (2004), (CBD Guidelines) Montreal.

Economic Assessment of the Welsh Government's Collections, Infrastructure and Markets Sector Plan (2011), WRAP

Eunomia Research & Consulting (2011) Options for the Segregation and Collection of Welsh I & C Waste, Report to the Welsh Government, Tachwedd 2011

Eunomia Research & Consulting (2013) Additional Policy Options Analysis for Welsh Government: Costs and Benefits of Extending WFD requirements, Waste Treatment Restrictions, Requirement to Sort and a Ban on Food the Disposal of Food Waste to Sewer, Mai 2013

Defra, Shellfisheries: Several Orders and Regulating Orders guidance. Cyrchwyd 4 Medi 2013:
<https://www.gov.uk/shellfisheries-several-orders-and-regulating-orders>

Determination of the Biodegradability of Mixed Industrial and Commercial Waste Landfilled in Wales, (2007), Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Making Space for Nature: A review of England's Wildlife Sites and Ecological Network (2010), *Chaired by Professor Sir John Lawton CBE FRS*
<https://www.gov.uk/government/news/making-space-for-nature-a-review-of-englands-wildlife-sites-published-today>

Millennium Ecosystem Assessment, (2005), *Ecosystems and Human Well-being: Synthesis*. Island Press, Washington, DC
Hawlfraint 2005 World Resources Institute
<http://www.maweb.org/en/index.aspx>

More Jobs Less Waste (Medi 2010), *Friends of the Earth Report*:

http://www.foe.co.uk/news/waste_jobs_25198.html

Gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru – ‘Pwy ydyn ni a beth rydym yn ei wneud’ (cyrchwyd 05/08/13):

<http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/about-us/who-we-are-what-we-do/?lang=cy>

OECD Green Growth Studies: Towards green growth (2011)

<http://www.oecd.org/greengrowth/towardsgreengrowth.htm>

Prosiect Pumlumon Living Landscape:

<http://www.montwt.co.uk/pumlumon.html>

Realising Nature’s Value: The final report by the Ecosystems Markets Task Force (2013):

<http://www.defra.gov.uk/ecosystem-markets/work/publications-reports/>

Sector Skills Assessment 2010 – Wales, Energy & Utility Skills:

<http://www.euskills.co.uk/home/news/research/>

Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro, Llywodraeth Cymru

www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/substance/carrierbags/regulatory-impact-assessment/?lang=cy

Ymchwiliad y Pwyllgor Cynaliadwyed i Fioamrywiaeth – Environmental Audit: Halting Biodiversity Loss:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-third-assembly/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-sc-home/inquiries_sd/sc3-bioinq.htm

Cynnal Cymru Fyw *Papur Gwyrdd* (2012), Llywodraeth Cymru

<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/sustainingwales/?skip=1&lang=cy>

The Pitt Review: Learning the lessons of the 2007 floods (2008):

http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100807034701/http://archive.cabinetoffice.gov.uk/pittreview/thepittreview/final_report.html

The State of Nature in the UK and its Overseas Territories, (2013), RSPB:

<http://www.rspb.org.uk/ourwork/science/stateofnature/index.aspx>

Towards the Circular Economy (2011), Ellen MacArthur Foundation

<http://www.ellenmacarthurfoundation.org/business/reports>

UK National Ecosystem Assessment (2011), The UK National Ecosystem Assessment: Synthesis of the Key Findings. UNEP-WCMC, Cambridge:

<http://uknea.unep-wcmc.org/Resources/tabid/82/Default.aspx>

UK National Ecosystem Assessment (2011), The UK National Ecosystem Assessment Technical Report. UNEP-WCMC, Cambridge:
http://www.unep-wcmc.org/uk-nea-technical-report_772.html

Strategaeth Pysgodfeydd Cymru, (2008), Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (2011):
<http://www.legislation.gov.uk/uksi/2011/988/contents/made>

Llywodraeth Cymru – Rhaglen Lywodraethu 2011-16:
<http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/?skip=1&lang=cy>

Data WRAP: <http://www.wrap.org.uk/content/carrier-bags-reducing-their-environmental-impact>

Atodiad 3 – Rhestr Termiau

Dull Rheoli Adnoddau Naturiol ar sail Ardal: Bydd Bil yr Amgylchedd yn rhoi dyletswydd ar CNC i ddatblygu a gweithredu dull ar sail ardal ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Proses ar gyfer cynllunio a phennu blaenoriaethau fydd hon sy'n cydgysylltu'r defnydd o adnoddau er mwyn sicrhau'r manteision cynaliadwy mwyaf posibl yn y tymor hir ar gyfer pobl, amgylchedd ac economi Cymru heddiw ac yn y dyfodol.

Ecosystem: Mae ecosystem yn cynnwys organeddau byw (planhigion, anifeiliaid a micro-organeddau) ynghyd â'u hamgylchedd anfyw (aer, dŵr, mwynau a phridd) a'r holl ryngweithio amrywiol a chymhleth sy'n digwydd rhyngddynt.

Rheoli ar Lefel yr Ecosystem: Mae rheoli ar lefel yr ecosystem yn ddull sy'n canolbwyntio ar reoli'r holl adnoddau ar y cyd – gan gynnal cyfanrwydd ecolegol wrth ganiatáu cloddio / defnyddio adnoddau – yn hytrach na rheoli nifer o adnoddau ar wahân i'w gilydd. Pwrpas y dull hwn o reoli yw sicrhau bod ecosystemau iach a llwyr weithredol a chymunedau o bobl yn datblygu ac yn cydfodoli³⁷.

Mae rheoli ar lefel yr ecosystem yn ddull a gafodd ei grybwyll yn gyntaf yn y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol sy'n rhoi'r diffiniad canlynol ohono: "a strategy for the integrated management of land, water and living resources that promotes conservation and sustainable use in an equitable way".³⁸

Gwasanaethau Ecosystemau: Y gwasanaethau yr ydym yn eu cael gan natur, er enghraifft dŵr yfed glân, rheoleiddio ansawdd aer, yr hinsawdd a pherygl llifogydd; cyfleoedd ar gyfer hamdden, twristiaeth a datblygu diwylliannol; a swyddogaethau sylfaenol fel ffurfio pridd a chylchu maethynnau. Mae rhai o'r gwasanaethau hyn yn hanfodol i fywyd ac yn haws eu prisio mewn cyd-destun economaidd tra bo eraill, fel tirweddau hardd, yn llai diriaethol ond yn cyfoethogi bywyd er hynny. Mae cynnal a gwella gwasanaethau ecosystemau – a'u hadfer os ydynt wedi'u colli neu wedi dirywio – yn cael ei weld fwyfwy'n beth hanfodol ar gyfer yr economi a lles pobl.

Twf gwyrdd: Ffordd o feithrin twf a datblygiad economaidd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod y broses twf yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn rhad ar garbon, yn lanach (lleihau llygredd ac effeithiau ar yr amgylchedd) ac yn gallu gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a pheryglon naturiol yn well, heb ei harafu o reidrwydd.³⁹

Seilwaith Gwyrdd: Y rhwydwaith o ardaloedd, nodweddion a mannau gwyrdd naturiol a lled-naturiol mewn ardaloedd gwledig a threfol, ar dir, mewn dŵr croyw, ar yr arfordir ac yn y môr. Mae'n gysyniad eang sy'n cynnwys nodweddion naturiol, fel parciau, gwarchodfeydd coedwig, gwrychoedd, gwlyptiroedd gwreiddiol neu adferedig ac ardaloedd morol, yn ogystal â nodweddion gwneuthuredig, fel

³⁷ <http://www.cbd.int/ecosystem>

³⁸ <http://www.cbd.int/ecosystem>

³⁹ OECD: Towards Green Growth

croesfannau i anifeiliaid gwyllt a llwybrau beicio. Nodau'r Seilwaith Gwyrdd yw hyrwyddo iechyd a chryfder ecosystemau, cyfrannu at warchod bioamrywiaeth a gwella gwasanaethau ecosystemau (Naumann *et al*).⁴⁰

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Integredig: Yn y papur hwn rydym yn cynnig y diffiniadau cyfreithiol canlynol o reoli adnoddau naturiol yn integredig:

“Ystyr *rheoli adnoddau naturiol yn integredig* yw proses ar gyfer cynllunio a phennu blaenoriaethau sy'n cydgysylltu'r gwaith o gynnal, gwella a defnyddio adnoddau naturiol – gan ystyried yr holl wasanaethau ecosystemau – fel y ceir y manteision mwyaf posibl yn y tymor hir i bobl, amgylchedd ac economi Cymru yn y presennol a'r dyfodol.”

Hon yw'r broses y bydd yn rhaid ei dilyn er mwyn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, i sicrhau manteision mwy byth yn y tymor hir i'r economi, cymdeithas a'r amgylchedd. Bydd y dull cynllunio ar sail ardal ar gyfer adnoddau naturiol wedi'i seilio ar yr egwyddorion hyn.

Cynllunio Defnydd Tir: Dyma'r term sy'n cael ei ddefnyddio yn y papur hwn am y system Cynllunio Gwlad a Thref.

Economi linol ac economi gylchol: Termau am y ffordd o ddefnyddio adnoddau naturiol (yn enwedig deunyddiau crai) ym mhob rhan o'r economi. Mewn *economi linol*, caiff deunyddiau crai eu cloddio, eu defnyddio a'u gwaredu. Mewn *economi gylchol*, mae cynhyrchion yn cael eu dylunio fel eu bod yn para, yn cael eu haildefnyddio a'u datgymalu. Rhagwelir y bydd mabwysiadu economi gylchol yn dod ag arbedion sylweddol i bobl a busnesau yng Nghymru, gan eu gwneud yn fwy proffidiol a chreu cyfoeth a swyddi.

Cyfalaf naturiol: Yr elfennau mewn natur sy'n creu gwerth (yn uniongyrchol ac anuniongyrchol) i bobl, fel y stoc o goedwigoedd, afonydd, tiroedd, mwynau a chefnforoedd. Mae'n cynnwys yr agweddau byw ar natur (fel stociau pysgod) yn ogystal ag agweddau anfyw (fel mwynau ac adnoddau ynni). Cyfalaf naturiol yw'r sail i bob math arall o gyfalaf (gwneuthuredig, dynol a chymdeithasol) a'r sylfaen i'n heconomi, ein cymdeithas a'n ffyniant. Drwy gyfuno gwahanol fathau o gyfalaf, cawn fanteision o bob math, gan gynnwys y bwyd yr ydym yn ei fwyta a'r dŵr yr ydym yn ei ddefnyddio yn ein cartrefi yn ogystal â phrofiadau yn yr awyr agored ac iechyd gwell.⁴¹

Adnoddau Naturiol: I ddibenion Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd, rydym yn cynnig y diffiniadau cyfreithiol canlynol o Adnoddau Naturiol:

⁴⁰ Naumann, S., McKenna D., Kaphengst, T. et al. (2011a). Design, implementation and cost elements of Green Infrastructure projects. Final report. Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd.

⁴¹ Pwyllgor Cyfalaf Naturiol, 2013

Mae *adnoddau naturiol*, mewn cysylltiad â Chymru, yn cwmpasu'r materion canlynol sy'n ymwneud â rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol:

- a) aer, adnoddau dŵr a phridd;
- b) adnoddau daearegol a thirweddau;
- c) biomas ac adnoddau biolegol;
- ch) ecosystemau

Eglurhad o elfennau'r diffiniad

(a) yw'r cyfryngau amgylcheddol cyffredinol (fel y maent wedi'u cynnwys yn niffiniad y Comisiwn Ewropeaidd);

(b) yw'r elfennau sy'n anfiotig gan mwyaf. Mae mwynau'n rhan o'r diffiniad o adnoddau daearegol, sef adnoddau sy'n gysylltiedig â daeareg neu wedi'u seilio arni. Rydym wedi cynnwys adnoddau daearegol a thirweddau gan eu bod yn disgrifio elfennau gwahanol ac er bod tirweddau'n ffisiograffegol, nid yw pob nodwedd ffisiograffegol yn dirwedd;

(c) yw'r holl fathau o fywyd organig, planhigion, anifeiliaid ac organeddau byw eraill. Mae biomas yn cynnwys yr holl ddeunydd biolegol a geir o organeddau sy'n fyw neu a oedd yn fyw'n ddiweddar.

(ch) Mae ecosystemau wedi'u cynnwys i gynrychioli'r cydgysylltiad a'r gyd-ddibyniaeth rhwng adnoddau naturiol unigol. Gall fod yn ddiffiniad hollgynhwysol hefyd.

Polisi Adnoddau Naturiol: Polisi Adnoddau Naturiol genedlaethol yn gosod cyfeiriad lefel uchel ar gyfer pob polisi yng Nghymru – gan gynnwys y cyfleoedd i reoli adnoddau naturiol yn integredig er mwyn sicrhau'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mwyaf posibl yn awr ac yn y tymor hir. Bydd y polisi yn cynnwys targedau, mesurau a blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol a fydd yn ategu unrhyw ganlyniadau y mae'r Llywodraeth wedi cytuno arnynt ar lefel genedlaethol ac wrth gyflawni cyfrifoldebau sydd wedi'u gosod yn neddfwriaeth amgylcheddol yr UE.

Talu am wasanaethau ecosystemau (TWE): Mewn cynlluniau TWE, rhoddir taliadau i reolwyr tir neu adnoddau naturiol eraill yn gyfnewid am ddarparu gwasanaethau ecosystemau penodol (neu am gymryd camau y mae disgwyl iddynt gyflenwi'r gwasanaethau hyn) sy'n fwy na'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu fel arall os na fyddai taliadau ar gael. Gwneir taliadau gan fuddiolwyr y gwasanaethau dan sylw, er enghraifft, unigolion, cymunedau, busnesau neu lywodraethau sy'n gweithredu ar ran gwahanol bartion. Bydd buddiolwyr a rheolwyr tir neu adnoddau yn gwneud cytundebau TWE yn wirfoddol ac nid oes unrhyw reidrwydd arnynt i wneud hynny.⁴²

Cynllunio: Yn y papur hwn, ystyr y gair 'cynllunio' ar ei ben ei hun yw'r diffiniad arferol ohono yn Saesneg: "designing or making a detailed proposal for doing or achieving something".

Cynllunio ar gyfer adnoddau naturiol: Yn y papur hwn, mae cynllunio ar gyfer

⁴²Payments for Ecosystem Services: A Best Practice Guide DEFRA, Mai 2013

adnoddau naturiol yn golygu'r elfennau yn y prosesau gwneud cynlluniau y mae CNC neu gyrff eraill yn gyfrifol amdanynt sydd y tu allan i gwmpas y system Cynllunio Defnydd Tir. Yn aml, bydd y cynlluniau gweithredol hyn, neu'r dystiolaeth i'w hategu, yn ystyriaethau perthnasol allweddol yn y broses cynllunio defnydd tir.

Gorchymyn Rheoleiddio Pysgodfa: Mae Gorchymyn Rheoleiddio Pysgodfa yn galluogi person i reoli (h.y. yn y rhan fwyaf o achosion, cyfyngu) gweithgarwch pysgota mewn pysgodfa cregyn benodol drwy roi trwyddedau. Drwy wneud hyn, gellir rheoli nifer y pysgotwyr a'r dulliau, ardaloedd ac amseroedd etc ar gyfer pysgota. Pwrpas y rhan fwyaf o Orchymynion Rheoleiddio Pysgodfa ar gyfer pysgodfeydd cregyn yw rheoli gweithgarwch pysgota mewn ardal gan Grantî, na fydd yn cyflawni unrhyw weithgarwch pysgota ei hun fel arfer. Mae'r ffioedd a gesglir yn gyfnewid am y trwyddedau hyn yn cael eu defnyddio i ddatblygu a gwella'r bysgodfa ac i gyflawni unrhyw weithgareddau gorfodi sydd eu hangen. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd Gorchymynion Rheoleiddio Pysgodfa yn creu busnesau economaidd werthfawr i'r Grantî (er y gallent ddarparu asedau gwerthfawr i'r pysgotwyr sy'n dal trwyddedau o dan y Gorchymynion hyn). Oherwydd hyn, corff cyhoeddus yw'r Grantî fel arfer mewn Gorchymynion Rheoleiddio Pysgodfa. Yn y gorffennol, roedd nifer mawr o'r pysgodfeydd rheoleiddiedig yn cael eu rhedeg gan Bwyllgor Pysgodfeydd Môr ac mae'r ddau Orchymyn Rheoleiddio Pysgodfa sydd mewn grym yng Nghymru'n awr yn cael eu rheoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Cryfder: Mewn cysylltiad ag ecosystemau – gallu'r ecosystem i wrthsefyll effeithiau sy'n aflonyddu arni, neu ymadfer ar eu hôl a'i gallu i barhau ac addasu gan gynnal ei hamrywiaeth fiolegol, ei phrosesau naturiol a'i gwasanaethau ecosystemau. Gellir cael trothwyon ar gyfer cryfder, sef lefelau'r aflonyddu na fydd y system yn gallu ymadfer ar eu hôl, neu sy'n trawsnewid ei chyflwr (er gwaeth yn aml, ond nid o reidrwydd). Mae nifer o bwysau a sbardunau'n aflonyddu ar ecosystemau gan gynnwys, yn benodol, y newid yn yr hinsawdd a'r effeithiau sy'n ei ddilyn. Wrth reoli ein hadnoddau, mae'n bwysig ystyried gallu ecosystemau i wrthsefyll, dygymod neu ymadfer ar ôl aflonyddu.

Rheoli Adnoddau (Rheoli Adnoddau Naturiol yn Integredig): Mae hyn yn golygu hwyluso defnydd mwy effeithiol a chynaliadwy o adnoddau naturiol i sicrhau manteision mwy byth yn y tymor hir i'r economi, cymdeithas a'r amgylchedd. Mae'n golygu meddwl o flaen llaw am y cyfleoedd y mae adnoddau naturiol Cymru yn eu cynnig gan ddeall yn well sut y mae ein dewisiadau'n effeithio ar yr amgylchedd. Mae'n ffordd o edrych ar ein hadnoddau naturiol, fel ansawdd dŵr, storio dŵr, rheoli llifogydd, storio carbon, bioamrywiaeth, a rheoli coedwigoedd a phenderfynu sut i gael y manteision mwyaf posibl ohonynt i bobl o ran swyddi, bywoliaeth ac iechyd, yn y tymor hir. Hanfod y dull hwn o weithredu yw peidio ag edrych ar un neu ddwy agwedd ar wahân ond edrych ar y darlun cyfan a'r holl fanteision sydd ar gael – gan gynnwys cyfleoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Dulliau adferol: Yn yr adroddiad *Making Space for Nature* a gyhoeddwyd yn 2010, cafwyd dadl o blaid dull adferol newydd o reoli'r amgylchedd. Mae hyn yn golygu cymryd camau i ailsefydlu natur er mwyn creu amgylchedd naturiol cryfach er lles bywyd gwyllt a phobl.

Mae mwy o wybodaeth o dan *Cryfder* am bwysigrwydd dulliau adferol.

Gorchymyn Pysgodfa Unigol: Mae Gorchymyn Pysgodfa Unigol yn trosglwyddo perchenogaeth pysgodfa cregyn benodol i Grantî. Fel arfer bydd y pysgodfeydd hyn yn cael eu sefydlu, eu hamaethu, eu rheoli a'u pysgota gan y Grantî a gallant fod yn sylfaen i ased masnachol gwerthfawr iawn. Gall Gorchymynion Pysgodfa Unigol gyfyngu ar y mathau o arferion pysgota y caiff y Grantî eu defnyddio ar gyfer pysgod cregyn penodol. Hefyd gallant gyfyngu gweithgareddau eraill yn yr ardal er mwyn atal niwed i'r rhywogaeth o bysgod cregyn sydd wedi'i henwi. Gellir cynnwys mesurau rheoli mewn Gorchymynion Pysgodfa Unigol i warchod bioamrywiaeth yn ogystal â gwarchod y bysgodfa dan sylw, e.e. drwy reoleiddio cloddio am abwyd a fyddai'n niweidiol i'r pysgod cregyn sydd wedi'u henwi yn ogystal â bywyd gwyllt a chynefinoedd.

Cynlluniau integredig unigol: Mae byrddau gwasanaethau lleol (BGLlau) yn cynnwys arweinwyr awdurdodau lleol, byrddau iechyd, yr heddlu, y trydydd sector ac eraill. Byddant yn paratoi, yn gweithredu ac yn goruchwyllo cynllun integredig unigol (CIU) ar gyfer ardal pob awdurdod lleol. Mae'r CIU yn integreiddio'r strategaeth gymunedol, cynlluniau plant a phobl ifanc, strategaethau diogelwch cymunedol a chynlluniau iechyd, gofal cymdeithasol a lles. Paratoir asesiad anghenion strategol ar ei gyfer sy'n rhoi tystiolaeth ar gyfer pennu blaenoriaethau a phenderfynu ar ddyluniad gwasanaethau. Bwriedir rhoi BGLlau a CIUau ar yr un sail statudol ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol.

Adrodd ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol: Bydd gofyn i CNC adrodd ar sefyllfa adnoddau naturiol Cymru bob pum mlynedd o leiaf. Yn ogystal ag adrodd ar dueddiadau'n gyffredinol, bydd yn adrodd ar y llwyddiannau a'r heriau sy'n codi wrth weithredu proses o reoli adnoddau naturiol yn integredig, gan gynnwys y rhwystrau mewn deddfwriaeth sy'n bodoli o hyd ym marn CNC.

Datblygu Cynaliadwy: Datblygu cynaliadwy yw hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal, ac yn gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol gan barchu ei derfynau – gan ddefnyddio cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.

Rheoli Cynaliadwy (ar adnoddau naturiol): Mae'r Papur Gwyn yn cynnig diffiniad cyfreithiol o Reoli Cynaliadwy ar adnoddau naturiol, er mwyn amodi'r defnydd o'r term "Adnoddau Naturiol" a "Rheoli Adnoddau Naturiol yn Integredig".

I ddibenion Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd, ystyr *Rheoli cynaliadwy* yw'r camau y mae angen eu cymryd ar y cyd i reoli'r gwaith o gynnal, gwella a defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd, neu ar gyflymder, sy'n galluogi pobl a chymunedau i ddarparu ar gyfer eu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan gadw systemau cynnal bywyd natur yr un pryd. Wrth wneud hynny, sicrhau na fydd y budd o'r defnydd i'r genhedlaeth bresennol yn lleihau'r gallu i gwrdd ag anghenion a dyheadau cenedlaethau'r dyfodol.

Atodiad 4 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Rhan 1 Sgrinio

Teitl y Polisi a'i bwrpas (amlinelliad byr):	Bil yr Amgylchedd <i>Pwrpas Bil yr Amgylchedd yw deddfu er mwyn sicrhau bod modd i ni gefnogi gwaith Cymorth Naturiol Cymru i reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gyson a chynaliadwy. Bydd defnyddio adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd gynaliadwy yn gosod sylfaen ar gyfer twf economaidd yn y tymor hir, ac yn llesol i'r gymdeithas ac i'r amgylchedd.</i>
Adran:	Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Dyddiad:	Medi 2013

1. Rhowch ddisgrifiad byr o'r polisi/penderfyniad.

Mae'r *Rhaglen Lywodraethu* yn cynnwys nifer o ymrwymadau yn ymwneud â rheoli adnoddau naturiol, gan gynnwys cyflwyno Bil yr Amgylchedd. Mae'r Papur Gwyn yn nodi ein cynigion ar gyfer y Bil hwn. Mae'n amlwg nad yw'n fframwaith deddfwriaethol presennol ar yr amgylchedd yn llwyr ganiatáu twf economaidd cynaliadwy nac yn cydnabod y cysylltiad hanfodol gyda lles cymdeithasol, gan gynnwys trechu tlodi.

Nod cyffredinol Bil yr Amgylchedd yw caniatáu i ni reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd sy'n creu swyddi a thwf, yn cefnogi cymdeithas iach a ffyniannus, ac yn sicrhau bod ein hamgylchedd yn cael ei hamddiffyn a'i gwella. Dyma un o'r nifer o gamau yr ydym yn eu cymryd er mwyn gallu rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd fwy cyson a rhagweithiol, ac enghraifft arall yw'n penderfyniad i greu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae'r adran Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gweithio i gysoni'r gwaith o lunio a chyflawni polisiâu a gwasanaethau er mwyn sicrhau twf economaidd cynaliadwy a'r manteision mwyaf posibl i les cymdeithasol ac amgylcheddol.

Gan adeiladu ar y gwaith o sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) bydd Bil yr Amgylchedd yn edrych ar y fframwaith deddfwriaethol adweithiol presennol, ac yn sicrhau ei fod yn ategu pwrpas statudol CNC - sef gwneud yn siŵr bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli, eu gwella a'u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy - ac mae integreiddio effeithiol yn hanfodol ar gyfer hynny. Y bwriad yw i'r Bil hwn roi fframwaith statudol

modern ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, drwy ddeddfu ar gyfer proses fwy cyson a rhagweithiol i sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y tymor hir. Drwy wneud hynny, bydd yn cadarnhau pwysigrwydd ystyried ffyrdd o gyflawni canlyniadau tymor hir y Llywodraeth hon wrth wneud penderfyniadau pwysig heddiw, a chydabod y cysylltiad rhwng trechu tlodi, ffyniant economaidd a'r defnydd o adnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yn y dyfodol.

Datblygu Cynaliadwy

Mae'n dull o reoli adnoddau naturiol wedi'i adeiladu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru at egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n ategu pwysigrwydd gosod datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol wrth ddiffinio'r llwybr datblygu gorau i Gymru, ac yn gosod ymrwymiad ar bob polisi a rhaglen i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r egwyddorion hyn. Mae'r berthynas rhwng ein dull o reoli adnoddau naturiol a datblygu cynaliadwy wedi'i nodi'n fanwl yn y Papur Gwyn, sy'n edrych ar y diffiniad cyfreithiol o reoli adnoddau naturiol ac yn gosod egwyddorion datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'r diffiniad hwn. Mae'r diffiniad hwn o reoli adnoddau naturiol, ac felly datblygu cynaliadwy, yn gadarn wrth galon Bil yr Amgylchedd.

Mae Datblygu Cynaliadwy yn rhoi pwyslais ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan ymgorffori ein gwerthoedd ynghylch tegwch a chyfiawnder cymdeithasol. Mae'n edrych ar effaith tymor hir y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud nawr ac yn y dyfodol.

Wrth i ni ddatblygu'r asesiad llawn ac edrych ar y materion all godi, byddwn yn medru nodi ffyrdd o fesur llwyddiant y Bil. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu i gynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a Chynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb ategol i'w cyhoeddi wrth gyflwyno'r Bil yn 2015.

2. Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i drafod gyda phobl â nodweddion gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (cyfeiriwch at Atodiad A canllawiau'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb) sy'n berthnasol i'r polisi. Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd i drafod gyda rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?

Cafwyd amrywiaeth eang o ymatebion, gan gynnwys ymatebion gan sefydliadau fel CGGC, i ddau ymgynghoriad yn edrych ar gyfeiriad polisi a dull ffres o gynllunio a rheoli ein hadnoddau naturiol:

Papur Gwyrdd Cymru Fyw: fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd (2010).

Creu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fel un corff i reoli adnoddau naturiol Cymru oedd y cam pwysig cyntaf ar lwybr strategol tymor hir a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r ffordd newydd a chyson hon o reoli adnoddau naturiol. Gosodwyd y sylfeini ym Mhapur Gwyrdd *Cynnal Cymru Fyw*.

Papur Gwyrdd Cynnal Cymru Fyw (2012)

Roedd Papur Gwyrdd 2012 yn gofyn am sylwadau ynghylch y weledigaeth i ddatblygu cynigion i wella'r broses o wneud penderfyniadau am adnoddau naturiol yng Nghymru. Roedd yn gofyn pa gyfleoedd oedd ar gael i brif ffrydio neu symleiddio'n ffordd o reoli'r amgylchedd er mwyn sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer pobl Cymru. Edrychodd ar ffyrdd o ddatblygu cynlluniau rheoli adnoddau naturiol ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn rhoi fframwaith strategol newydd i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar adnoddau naturiol Cymru.

Cynlluniwyd nifer o ddigwyddiadau trafod yn dilyn lansiad y Papur Gwyn. Yn benodol, bydd y Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol yn cynnal cynhadledd ym mis Tachwedd, gan wahodd mudiadau perthnasol sy'n canolbwyntio ar Gydraddoldeb. Bydd digwyddiadau rhanbarthol eraill hefyd yn cael eu cynnal ar draws Cymru. Byddwn yn gofyn am sylwadau yn y digwyddiadau hyn a thrwy ymatebion i'r ymgynghoriad ar effaith bosibl y cynigion ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

O fewn Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd sesiynau ar faterion cydraddoldeb gyda'r meysydd polisi perthnasol fel rhan o drafodaethau ehangach ar effeithiau bosibl pob cynnig. Cynhaliwyd Gweithdy Cyflawni Canlyniadau hefyd er mwyn clustnodi sut y gall cynigion ar gyfer rheoli adnoddau naturiol helpu i sicrhau'r manteision mwyaf i bobl (fel iechyd a lles, mynediad a mwynhad, addysg) ac i fusnesau (ee cyflenwadau dŵr, cyflenwadau pren, cyfleoedd twristiaeth) gan gynnal yr adnoddau yn y tymor hir.

3. Rhaid i chi seilio'ch penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Pa dystiolaeth ydych chi wedi'i defnyddio?

Ar hyn o bryd, ychydig o dystiolaeth gyson a chadarn sydd gennym ynghylch ein hadnoddau naturiol. Rydym am ddefnyddio Bil yr Amgylchedd i fynd i'r afael â hyn. Bydd y dystiolaeth hon, yn y dyfodol, yn helpu i sicrhau ein bod yn defnyddio'r wybodaeth gywir wrth wneud penderfyniadau ar ffyrdd o wella'r amgylchedd, gan ystyried materion lleol penodol, er enghraifft mewn ardaloedd o amddifadedd.

Mae cysylltiad clir rhwng trechu tloedi, ffyniant economaidd a'r defnydd o adnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol. Mae cryn dipyn o dystiolaeth i awgrymu bod angen rheolaeth fwy integredig sy'n rhoi gwell cydnabyddiaeth o werth ein hecosystemau a'r gwasanaeth sy'n cael eu cynnig ganddynt⁴³. Er enghraifft roedd adroddiad Prydeinig 2010 *Making Space for Nature*⁴⁴ yn cyflwyno'r achos dros 'ddull adferol' ffres sy'n ailadeiladu natur ac yn creu amgylchedd naturiol cadarnach er lles bywyd gwyllt ac er ein lles ni ein hunain.

Mae'r dull hwn hefyd yn adeiladu ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol wrth ddiffinio'r llwybr datblygu gorau i Gymru.⁴⁵ Seiliwyd y dull hwn ar dystiolaeth sylweddol a nodwyd yn benodol yn y cynllun Datblygu Cynaliadwy⁴⁶, ac mae'n caniatáu ystyriaeth o fanteision cymdeithasol ac economaidd ehangach sy'n cael eu darparu gan adnoddau naturiol a'u cydberthynas.

Rydym yn cydnabod bod bylchau yn y dystiolaeth am effaith y cynigion ar grwpiau gwarchoddedig penodol, ac fe fyddwn yn ceisio mynd i'r afael â hyn cyn belled ag y mae'n bosibl yn adroddiad llawn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Rydym wedi galw am dystiolaeth benodol drwy'r ymgynghoriad Papur Gwyn fel cam cyntaf.

4. Effaith - llenwch y rhan nesaf i ddangos sut gall y polisi / penderfyniad hwn gael effaith (cadarnhaol neu negyddol) ar y grwpiau gwarchoddedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (cyfeiriwch at ddogfen ganllawiau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael rhagor o wybodaeth).

⁴³ Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU, (2011), tud53

⁴⁴ Making Space for Nature: A review of England's Wildlife Sites and Ecological Network, (2010)

⁴⁵ Papur Gwyn Bil Datblygu Cynaliadwy
<http://wales.gov.uk/consultations/sustainabledevelopment/sdwhitepaper/?skip=1&lang=cy>

⁴⁶ Y Cynllun Datblygu Cynaliadwy
<http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/?skip=1&lang=cy>

Mae'r dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu y gallai'r cynigion ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd wella lles a chefnogi'n cymunedau a'n pobl yn y ffyrdd canlynol:

- Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn hwn wedi'u seilio ar egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n rhoi pwyslais ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan ymgorffori ein gwerthoedd ynghylch tegwch a chyfiawnder cymdeithasol. Mae'n rhan o becyn ehangach o ddiwygio deddfwriaethol sy'n ceisio sicrhau bod penderfyniadau Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i'n cymunedau, economi ac amgylchedd - a bod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu hystyried;
- Bydd rheoli adnoddau naturiol yn integredig, ac yn benodol y cynigion am ddull rheoli ar sail ardal, yn helpu i roi sylfaen gyson o dystiolaeth ynghylch ein hadnoddau naturiol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y wybodaeth gywir gennym i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gefnogi datblygu lleol a chanlyniadau cymdeithasol neu les. Er enghraifft, targedu buddsoddiad yn well mewn gwelliannau amgylcheddol lleol, gan ystyried anghenion a phwysau lleol fel amddifadedd. Gall hyn arwain at dargedu buddsoddiad yn well mewn gwelliannau amgylcheddol lleol, neu helpu i wneud penderfyniadau da am y cyfleoedd datblygu cywir.
- Bydd y dystiolaeth hon, ymysg pethau eraill, yn helpu CNC i argymell blaenoriaethau a fydd yn helpu i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed ac sydd wedi'u heffeithio'n anghymesur gan effeithiau newid yn yr hinsawdd neu beryglon naturiol, fel llifogydd neu dywydd eithafol.
- Mae'n amlwg bod ein hamgylchedd yn effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol. Bydd cynigion yn y Papur Gwyn hwn yn ein helpu i ystyried effaith yr amgylchedd ar iechyd corfforol a meddyliol yn lleol, gan gynnwys awyr glân, dŵr glân, a'r defnydd o ofod agored.
- Gall y cynigion i wella'r broses o wahanu gwastraff greu swyddi newydd. Roedd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a wnaed ar gyfer Tuag at Ddyfodol Diwastraff, strategaeth wastraff gyffredinol Cymru, yn dangos mai ychydig o effaith oedd y cynigion polisi ar gyfer gwastraff lefel uchel yng Nghymru yn ei chael ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig. Bydd proses debyg yn cael ei chynnal i asesu effaith y cynigion gwastraff penodol yn y Papur Gwyn wrth eu datblygu ymhellach.
- Mae'r cynigion ynghylch Bagiau Siopa yn ymwneud â phwerau galluogi Gweinidogion Cymru, ac ni fyddant yn arwain yn uniongyrchol at effeithiau penodol. Bydd asesiad llawn o'r effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal cyn gwneud unrhyw reoliadau.